# Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2024/25

Gorffennaf 2025

# The Council's Annual Report 2024/25

July 2025



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cyflwyniad gan yr Arweinydd



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2024/25; blwyddyn sydd wedi bod yn brawf i'n gwytnwch a'n hyblygrwydd. Ar draws y sir mae ein cymunedau, ein staff, ein partneriaid a'n busnesau wedi gweithio gyda'i gilydd i oresgyn heriau sylweddol, gan ddarparu'r gefnogaeth orau posibl i bob un o'r 188,000 o bobl y mae Sir Gâr yn gartref iddynt.

Fel sy'n wir o hyd, mae'r cyd-destun rydym yn gweithio ynddo dal yn gymhleth. Mae ein sir yn parhau i dyfu a newid, ac fel sefydliad rydym yn gweithio i gadw lan â hynny. Rydym yn parhau i wynebu'r realiti llym fod cyllid sector cyhoeddus wedi bod yn annigonol ers dros ddegawd, sydd wedi rhoi mwy o bwysau nag erioed ar ein gallu i gyflawni gwasanaethau hanfodol y mae ein preswylwyr yn dibynnu arnynt. Mae'r argyfwng costau byw, yr economi anwadal a'r newidiadau demograffig i gyd wedi cymhlethu'r galw cynyddol hwnnw.

Er gwaethaf yr holl wasgfeydd hyn, mae'r hyn gyflawnwyd yn y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos grym gweledigaeth strategol, partneriaeth ac arloesi. Mae ein hymrwymiad i'n pedwar amcan llesiant wedi llywio pob gweithred: rhoi'r dechrau gorau posibl i blant mewn bywyd, galluogi pobl i fyw a heneiddio'n dda, meithrin cymunedau ffyniannus a gwydn, a moderneiddio ymhellach fel Cyngor gwydn, effeithlon.

Ym maes addysg a blynyddoedd cynnar rydym wedi parhau i hyrwyddo cynhwysiant, codi safonau ar draws ein hysgolion, ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant, gan sicrhau bod pob plentyn, beth bynnag ei gefndir, yn gallu cael cyfleoedd.

Mae ein rhaglen drawsnewid yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi cyflawni buddsoddiad sylweddol, gan ysgogi gwelliannau er gwaethaf cynnydd yn y galw. Mae rhaglenni iechyd a hamdden arloesol wedi ymgysylltu â miloedd o bobl, gan gefnogi llesiant corfforol a meddyliol.

I'n cymuned ehangach, mae mynd i'r afael â thlodi a chefnogi'r rhai sy'n wynebu caledi wedi bod yn flaenoriaeth allweddol. Trwy ymdrechion ein hymgynghorwyr Hwb a'n gwasanaeth Hwb Bach y Wlad, mae preswylwyr cymwys wedi cael cymorth i hawlio dros £7.5 miliwn mewn budd-daliadau. Rydym wedi ailddefnyddio tai gwag, cynnal tenantiaethau newydd, a gwneud cynnydd mewn tai fforddiadwy, gan dynnu dros £17 miliwn i lawr mewn Grantiau Tai Cymdeithasol ac ychwanegu 361 o dai newydd at ein stoc.

Mae ein hymagwedd gadarn at iechyd a gofal cymdeithasol wedi esgor ar ganlyniadau, gan leihau derbyniadau i'r ysbyty a galluogi unigolion i ddychwelyd adref yn gynt gyda'r cymorth iawn mewn lle. Mae'r llwybr Gartref yn Gyntaf a'r buddsoddiad cynyddol mewn gwasanaethau ataliol yn enghreifftiau allweddol o integreiddio effeithiol ac ymyrraeth gynnar, gan ddod â gwelliannau gweladwy i fywydau pobl agored i niwed.

Mae adferiad economaidd a thwf Sir Gaerfyrddin wedi'u galluogi drwy sicrhau dros £58 miliwn o gyllid, cefnogi dros 2,300 o fusnesau, a chreu neu ddiogelu miloedd o swyddi. Mae cynnydd da yn dal i gael ei wneud ar brosiectau strategol fel Pentre Awel, gan ddarparu cyfleusterau o'r radd flaenaf a chyfleoedd arloesol i'n cymunedau.

Ar yr un pryd, mae ein hymrwymiad i ddatgarboneiddio a bioamrywiaeth yn ddiwyro, gyda gostyngiad o 37% mewn allyriadau carbon wedi'u targedu ers ein blwyddyn gychwynnol, a dros hanner y tai Cyngor bellach yn cyrraedd safonau perfformiad ynni uwch.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a'r diwylliant i'n hunaniaeth ac wedi ymateb yn bendant i'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg drwy weithredu strategaethau a chynlluniau gweithredu newydd, cefnogi dysgu staff, a hyrwyddo mentrau celfyddydol bywiog.

Trwy gydol yr amser rydym wedi cadw ffocws ar lywodraethu, cydraddoldeb ac ymgysylltu, gan wrando ar ein preswylwyr a'n staff a sicrhau bod egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'r adborth rydych chi'n ei roi drwy'r Arolwg Preswylwyr Blynyddol yn hynod ddefnyddiol i ni wrth i ni flaenoriaethu ein gwaith a'n hymrwymiadau yn y dyfodol. Mae moderneiddio a thrawsnewid wedi cyflymu trwy drawsnewid digidol, awtomeiddio, a ffyrdd mwy clyfar o weithio, gan ddarparu arbedion effeithlonrwydd a phrofiadau gwell i'r rheiny rydym yn eu gwasanaethu.

Rwyf am ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr hyn a gyflawnwyd, ein gweithlu ymroddedig, ein partneriaid, ac, yn bwysicaf oll, pobl Sir Gaerfyrddin. Er gwaethaf yr heriau cymhleth sy'n ein hwynebu, rydym wedi dangos, trwy weithio fel un tîm â'n gwreiddiau yn ein gwerthoedd craidd, ein bod yn gallu cyflawni i'n cymunedau, heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Wrth i ni edrych ymlaen i'r flwyddyn sydd i ddod, rydym yn gwneud hynny gyda phenderfyniad o'r newydd er mwyn wynebu heriau, arloesi, a sicrhau bod Sir Gâr yn parhau i fod yn rhywle y gall pob unigolyn ffynnu ynddo.

**Y Cynghorydd Darren Price**

**Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin**



# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | Tudalen 5 |
| **Amcan Llesiant 1 - Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y Dechrau gorau poibl mewn Bywyn (Dechrau'n Dda)** | Tudalen 13 |
| Blaenoriaeth Thematig: Bywydau Iach - atal / ymyrraeth gynnar | Tudalen 15 |
| Blaenoriaeth Gwasanaeth: Blynyddoedd Cynnar | Tudalen 21 |
| Blaenoriaeth Gwasanaeth: Addysg | Tudalen 26 |
| **Amcan Llesiant 2 - Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda)** | Tudalen 42 |
| Blaenoriaeth Thematig: Trechu Tlodi | Tudalen 43 |
| Blaenoriaeth Gwasanaeth: Tai | Tudalen 55 |
| Blaenoriaeth Gwasanaeth: Gofal Cymdeithnasol | Tudalen 59 |
| **Amcan Llesiant 3 - Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)** | Tudalen 69 |
| Blaenoriaeth Thematig: Adferiad a Thwf Economaidd | Tudalen 71 |
| Blaenoriaeth Thematig: Datgarboneiddio a'r Argyfwng Natur | Tudalen 85 |
| Blaenoriaeth Thematig: Yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant | Tudalen 93 |
| Blaenoriaeth Thematig: Diogelwch Cymunedol, Cydnerthedd a Chydlyniant | Tudalen 97 |
| Blaenoriaeth Gwasanaeth: Hamdden a Thwristiaeth | Tudalen 101 |
| Blaenoriaeth Gwasanaeth: Gwastraff | Tudalen 105 |
| Blaenoriaeth Gwasanaeth: Priffyrdd a Thrafnidiaeth | Tudalen 109 |
| **Amcan Llesiant 4 - Ein Cyngor: Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon** | Tudalen 114 |
| **Galluogwyr Busnes Craidd** | Tudalen 132 |

**Atodiadau**

Atodiad 1: Sut cafodd ein Hamcanion Llesiant eu clustnodi

Atodiad 2: Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Atodiad 3: Trosolwg ar Hunanasesiad y Cyngor

Atodiad 4: Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Atodiad 5: Mesurau'r Cyngor 2024-25

Atodiad 6: Adroddiad Blynyddol ar Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

# Rhagarweiniad


Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) yn sefydliad mawr, cymhleth gyda gweithlu o oddeutu 8,400 o weithwyr a chyllideb o dros £900 miliwn (refeniw a chyfalaf). Oherwydd y pwysau ariannol parhaus ar wasanaethau cyhoeddus flwyddyn ar ôl blwyddyn ers dros ddegawd, rydym yn parhau i wynebu mwy o bwysau nag erioed wrth ddarparu gwasanaethau i'r oddeutu 188,000 o bobl y mae Sir Gaerfyrddin yn gartref iddynt. Wrth wneud hyn, rydym yn ymdrechu i wneud cynnydd yn erbyn ein pedwar amcan llesiant.

Pwrpas yr adroddiad blynyddol hwn yw rhoi trosolwg o'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn ystod 2024/25 yn erbyn yr amcanion llesiant hyn, sef:

1. **Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. (Dechrau'n Dda)**
2. **Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda. (Byw a Heneiddio'n Dda)**
3. **Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus.(Cymunedau Ffyniannus)**
4. **Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon. (Ein Cyngor)**

Bwriad yr amcanion hyn yw mynd i'r afael â heriau mwyaf dybryd y sir, gan sicrhau ein bod yn cyfrannu cymaint ag sy'n bosibl i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae gan bob amcan set o ganlyniadau sy'n ein helpu i fesur ein cynnydd a llywio ein gwaith fel sefydliad. Cyfeirir at y rhain trwy gydol yr adroddiad hwn ac mae ein **Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-2027** yn rhoi trosolwg manwl. Fe'u datblygwyd yn 2022/23 yn dilyn asesiad anghenion helaeth a chyfnod o ymgynghori.

Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw darparu dealltwriaeth dda i breswylwyr, defnyddwyr gwasanaeth, a rhanddeiliaid allweddol o sut rydym wedi bod yn perfformio. Hefyd mae'n bodloni'r ddyletswydd statudol sydd arnom ni drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol fel y nodwyd yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.



## Mesur Cynnydd a Hunanasesu

Mae ein hamcanion llesiant wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn egwyddor sy'n hyrwyddo ffocws ar yr holl gyrff cyhoeddus yn cydweithio i wneud cynnydd o ran canlyniadau sy'n gwella ansawdd bywyd preswylwyr a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol.

Er mwyn mesur yn effeithiol y cynnydd rydym yn ei wneud o ran cyflawni ein hamcanion, rydym yn edrych ar ystod o ddata a thystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys casgliadau ein hunanasesiadau ac adroddiadau rheoleiddiol i greu darlun mor gyflawn ag sy'n bosibl o'n cynnydd - yn nhermau tueddiadau dros amser ac o ran y modd rydym yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Er mwyn i ni wneud hyn yn effeithiol, rydym wedi datblygu cyfres ddata o ddangosyddion a mesurau. O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cwmpasu ystod eang o wahanol ffynonellau ac yn caniatáu inni edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael i ni yn y rownd. Mae'r ystod o ddata yn cwmpasu'r canlynol a chyfeirir ato drwy gydol yr adroddiad hwn. Gallwch ei weld yn llawn yn Atodiad 5:

**Dangosyddion Poblogaeth**

Yn bennaf maent yn cynnwys data sydd ar gael i'r cyhoedd ac a nodwyd i ddatblygu dealltwriaeth o dueddiadau a sefyllfa Sir Gaerfyrddin mewn perthynas ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Mae'r ffynonellau'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

**Mesurau Perfformiad**

Cynnwys ffurflenni statudol, mesurau mewnol y Cyngor a gwybodaeth sylfaenol ar ffurf canfyddiadau ymgynghori yr ydym yn eu defnyddio i fesur a monitro perfformiad yn rheolaidd. Cyfrifoldeb uniongyrchol y Cyngor yw'r rhain.

Mae ein hamcanion llesiant hefyd yn llunio ein hymagwedd at hunanasesu. Mae'r ymagwedd hon yn rhoi'r cyd-destun yr ydym yn arfer ein swyddogaethau ynddo, yn defnyddio adnoddau, ac yn sicrhau bod llywodraethu'n effeithiol. A hefyd:

- mae'n sicrhau bod ein hunanasesiad yn strategol, gan ganolbwyntio ar y sefydliad, yn hytrach na gwasanaethau unigol ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion llesiant a'i ganlyniadau bwriadedig.
- mae'n caniatáu inni fyfyrio ar lefel strategol ar sut mae ein holl swyddogaethau yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion llesiant, sut rydym yn gweithredu a pha gamau y mae angen i ni eu cymryd i wella ymhellach a pharhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol nawr ac yn y tymor hir.
- mae'n defnyddio ein hamcanion llesiant fel y fframwaith cyffredinol ac yn annog golwg fwy cyfannol ar berfformiad y Cyngor, gan gydnabod bod llawer o wasanaethau'n 'cydlynu' ac yn cyfrannu at un neu ragor o amcanion llesiant.
- rydym yn parhau i reoli perfformiad gwasanaethau unigol drwy Gynlluniau Busnes Is-adrannol. Mae hyn yn rhan bwysig o ymagwedd y Cyngor at reoli perfformiad fel y manylir yn ein Fframwaith Rheoli Perfformiad, sy'n seiliedig ar gylch Cynllunio/Gwneud/Adolygu.

# Y Prif Egwyddorion

## Gwerthoedd ac Ymddygiad Craidd

Mae gweledigaeth y Cyngor yn ategu popeth rydym yn ei wneud fel sefydliad:

***'Datblygu Sir Gaerfyrddin gyda'n gilydd: Un Cyngor, Un Weledigaeth, Un Llais.'***

O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r weledigaeth, ein gwerthoedd craidd a'n hymddygiadau yn ein helpu i wneud y penderfyniad cywir, ac yn llunio sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu gwasanaethau a gwneud y gorau y gallwn.

Mae ein chwe gwerth craidd yn ffurfio'r egwyddorion cyffredinol sy'n gonglfaen i'n hugain ymddygiad. Mae'r ymddygiadau hyn yn disgrifio'r camau a'r ymagweddau unigol ar gyfer sut rydym yn gweithio ac yn trin eraill. Mae ein gwerthoedd fel a ganlyn ond gellir eu gweld yn llawn ynghyd â'n hymddygiadau yma:

- Gweithio fel un tîm;
- Canolbwyntio ar ein cwsmeriaid;
- Gwrando er mwyn gwella;
- Ymdrechu i ragori;
- Gweithredu ag uniondeb;
- Cymryd cyfrifoldeb personol.

## Llywodraethu

Fel Cyngor, mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau bod ein busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol. Rhaid inni sicrhau hefyd y diogelir cyllid cyhoeddus, y rhoddir cyfrif priodol amdano ac y'i defnyddir yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, a sicrhau gwelliant parhaus yn hyn o beth. Rydym yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer Llywodraethu ein gwaith a hwyluso cyflawni ein swyddogaethau'n effeithiol, gan gynnwys bod â threfniadau priodol ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Cyngor yn credu mai Llywodraethu Corfforaethol yw "gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol." Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd sy'n ein cyfarwyddo ac yn ein rheoli, ynghyd â'r modd y mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'n ein galluogi i fonitro i ba raddau y cyflawnwyd ein hamcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gyflawni gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel y'i cynhwysir yn ein Datganiad o Gyfrifon yn manylu ar sut rydym wedi cydymffurfio â gwahanol elfennau ein Fframwaith Llywodraethu.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r Cyngor wedi ymroi i sicrhau ein bod yn deg i bawb ym mhopeth rydym yn ei wneud. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi egwyddorion ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'n amlinellu sut rydym yn bwriadu cyflawni ein cyfrifoldebau fel cyflogwr, darparwr gwasanaeth, ac fel arweinydd cymunedol.

Fel corff cyhoeddus mae angen i ni sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal i'n gwasanaethau ac yn cael eu trin yn gyfartal. Hefyd mae angen i egwyddorion sylfaenol hawliau dynol fod wrth wraidd darparu gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cydraddoldeb mesuradwy trwy welliannau penodol mewn polisïau, a'r ffordd mae ein gwasanaethau a'n swyddogaethau yn cael eu cyflawni.

Rydym wedi ymrwymo i drin ein staff, a phobl Sir Gaerfyrddin, yn deg. Byddwn yn sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd eu hoedran, anabledd, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefydd, cred neu ddiffyg cred, dosbarth cymdeithasol, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, newid rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, cyfrifoldeb am ddibynyddion neu am unrhyw reswm annheg arall.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus rhagorol yn cael eu darparu i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn astudio yn Sir Gaerfyrddin ac sy’n ymweld â'r sir. Caiff hyn ei ategu gan ein pedwar amcan cydraddoldeb ar gyfer 2024/2028:

- Bod yn gyflogwr o ddewis;
- Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda;
- Ymwreiddio Cydlyniant Cymunedol yn ein sefydliad a'n cymuned; a
- Gwarchod a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol.



## Y Cyngor

Yn yr etholiadau lleol yn 2022, pleidleisiodd Sir Gaerfyrddin dros 75 o gynghorwyr sir i gynrychioli ein 51 ward. Mae Cabinet y Cyngor yn cynnwys 10 Cynghorydd, sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor. Mae ganddynt gyfrifoldeb am sicrhau cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant. Mae gan bob aelod o'r Cabinet bortffolio y mae'n gyfrifol amdano.



**Y Cynghorydd Darren Price**

Arweinydd



**Y Cynghorydd Linda Evans**

Diprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi



**Y Cynghorydd Philip Hughes**

Aelod Cabinet dros Drefniadaeth a'r Gweithlu



**Y Cynghorydd Alun Lenny**

Aelod Cabinet dros Adnoddau



**Y Cynghorydd Carys Jones**

Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio



**Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen**

Aelod Cabinet dros Newid, Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd



**Y Cynghorydd Edward Thomas**

Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidaeth, Gwastraff a Seilwaith



**Y Cynghorydd Hazel Evans**

Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth



**Y Cynghorydd Glynog Davies**

Aelod Cabinet dros Addysg a'r Iaith Gymraeg



**Y Cynghorydd Jane Tremlett**

Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

# Am y Cyngor - Ystadegau Allweddol

**75**
o Gynghorwyr Sir yn cynrychioli
**51**
o wardiau cymunedol

Ychydig dros
**8,400**
o weithwyr wedi'u rhannu dros
**5**
adran

Cyllideb o dros
**£900m**
(refeniw a chyfalaf)

Diweddaru ein gwefan (dros
**4.6 miliwn**
o sesiynau defnyddwyr gan y cynhoedd ar ein gwefan y flwyddyn)

Cymryd dros
**179,000**
o alwadau ac ymateb i dros
**26,000**
o ymholiadau electronig yn flynyddol yn ein canolfan gyswllt

Dros
**330,000**
o anfonebau'r flwyddyn

Penderfynu ar gyfartaledd o
**1,300**
o Geisiadau Cynllunio y flwyddyn

Yn gyfrifol am y rhwydwaith priffyrdd o
**3,500 km**
yn Sir Gaerfyrddin

Casglu dros
**84,000**
tunnell o wastraff dinesig yn ystod y flwyddyn

Rydym yn rheoli ychydig dros

**9,300**

o dai cyngor

Cefnogir dros

**3,300**

o gleientiaid gyda phecyn Gofal Cymdeithasol

Mae gennym

**18**

o lyfrgelloedd yn y Sir (gan gynnwys gwasanaethau symudol a chymunedol)

Rydym yn rhedeg

**6**

chanolfan hamdden yn y Sir

Helpu cymaint â phosibl o’n

**8,000**

o fusnesau yn y Sir

**25,000**

o brydau ysgol y dydd

Ar gyfartaledd mae ein cofrestryddion yn cydnodi tua

**2,300** **o farwolaethau,**

**2,600** **o enedigaethau**

a thros

**630**

**o briodasau a phartneriaethau sifil**


**1** ysgol feithrin,
**94** ysgol gynradd,
**12** ysgol uwchradd,
**1** ysgol arbennig ac
**3** uned cyfeirio disgyblion sy’n darparu addysg i dros

**27,000**


o ddisgyblion

# Cyllideb Refeniw 2024/25

## Ffynonellau Cyllid




## Gwasanaethau â Darparwyd




## Cyfanswm Gwariant / Incwm £742m

# Amcan Llesiant 1

## Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda)

### Trosolwg o'r Cynnydd

Mae'r Cyngor yn credu bod pob plentyn yn haeddu'r dechrau gorau mewn bywyd beth bynnag ei gefndir. Mae sicrhau bod gan blant sylfaen gref yn gynnar yn eu rhoi ar lwybr sy'n cyfyngu ar effeithiau anghydraddoldeb ar draws canlyniadau iechyd a llesiant, cyflawniad addysgol, a statws economaidd. I'r Cyngor, beth sydd wrth wraidd gwneud hynny yw darparu'r gefnogaeth gywir i blant a theuluoedd pryd a lle mae ei hangen arnynt, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, darparu mynediad at fentrau iechyd a llesiant sy'n cyfoethogi, a system addysg sy'n helpu plant i fod gystal ag y gallant fod.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi parhau â'i ymdrechion i fynd i'r afael â rhai heriau sylweddol. Er bod lefel y plant mewn tlodi wedi gostwng yn y sir, credir bod tua 30% yn dal i fyw mewn tlodi. Nid yw'r sefyllfa hon yn un sy'n unigryw i Sir Gaerfyrddin, ac rydym wedi ymrwymo i wneud popeth yn ein gallu i leihau effeithiau tlodi ar ein preswylwyr fel y nodir dan amcan llesiant 2. Mae darparu prydau ysgol maethlon am ddim yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac mae 25,000 o brydau bwyd yn cael eu darparu bob dydd yn ysgolion Sir Gaerfyrddin. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod plant yn cadw at ddiet iach a chytbwys. Ymhen amser, dylai hyn gyfrannu'n gadarnhaol at lefel gordewdra yn ystod plentyndod yn y sir, sydd ar hyn o bryd yn 30% ar gyfer plant 4 i 5 oed. Mae'r llu o fentrau chwaraeon a hamdden, fel 'Actif Unrhyw Le ar gyfer Ysgolion' a rhaglen nofio 'Sblash', wedi cynyddu'n sylweddol nifer y plant sy'n gwneud gweithgarwch corfforol, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig.

Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd o dan bwysau oherwydd galw mawr, yn enwedig o achos cymhlethdod y galw hwnnw a phrinder gweithlu. I gydnabod hyn, mae'r Cyngor wedi gwneud buddsoddiadau sylweddol, gan gynnwys rhaglen drawsnewid sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd hirdymor ar gyfer y gwasanaeth. Gan Sir Gaerfyrddin y mae'r nifer leiaf o blant sy'n derbyn gofal o[1] gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, ac roedd ychydig yn llai o blant mewn lleoliadau maeth ar ddiwedd y flwyddyn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae prinder gofalwyr maeth yn lleol ac yn genedlaethol o hyd sy'n effeithio ar sefydlogrwydd lleoliadau. Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hyn yn rhagweithiol trwy ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu. Mae cynnydd da wedi'i wneud mewn Cartrefi Plant, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ofal preswyl yn cael ei ddarparu o fewn y sir erbyn 2026. Mae gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol yn parhau i ddarparu cymorth o ansawdd da sy'n cyflawni canlyniadau da i deuluoedd, er gwaethaf yr heriau sy'n ymwneud â'r galw cynyddol a chymhlethdod yr angen.

Mae'r cynnig gofal plant ledled y sir wedi cynyddu, ac mae cam 2 y broses o ehangu Gofal Plant Dechrau'n Deg wedi'i gyflwyno'n llawn. Bydd cam 3 yn cael ei gyflwyno yn ystod 2025/26.

Er gwaethaf wynebu heriau ariannu ac effeithiau parhaus y pandemig, mae cynnydd da wedi'i wneud o fewn Addysg. Mae'r diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'u cyflwyno, gan ehangu cymorth arbenigol, ac mae'r camau dilynol cadarnhaol wedi arolygiad Estyn yn dangos y cynnydd a wnaed. Ar ben hynny, mae seilwaith ysgolion wedi gweld datblygiadau drwy'r Rhaglen Moderneiddio Addysg, gan gynnwys cyfleusterau newydd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac addysg ADY. Mae datblygu'r cwricwlwm yn unol â Chwricwlwm Cymru hefyd wedi parhau i fod yn flaenoriaeth, gan hyrwyddo dysgu cynhwysol, cymunedol gyda phwyslais ar lythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol.

Mae presenoldeb ysgol yn parhau i fod yn bryder, a chyda'r sir mae'r lefelau presenoldeb isaf yng Nghymru. Mae gan y sir hefyd lefel gymharol uwch o ddysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref sydd angen cymorth wedi'i deilwra. Rydym yn mynd i'r afael â'r heriau hyn yn rhagweithiol trwy farchnata a chymorth wedi'u targedu.



[1] Fesul 10,000 o'r boblogaeth

## Bywydau Iach – Atal/Ymyrraeth Gynnar

## Yn Gryno

Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ledled Cymru dan bwysau i ymateb i'r galw digynsail. Mae hyn wedi cyd-fynd â phrinder yn y gweithlu cenedlaethol, cwymp yn y lleoliadau sydd ar gael i blant, a gostyngiad yn y cyllid gaiff yr Awdurdod Lleol. Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa, mae buddsoddiad nas gwelwyd ei fath erioed o'r blaen wedi'i wneud yn y gweithlu, mewn atal a chostau gofal.

Mae ymateb i hyn yn hanfodol bwysig ac mae Rhaglen Drawsnewid ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi darparu £7.5 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer gwneud gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd, ochr yn ochr â £2 filiwn o fuddsoddiad cyfalaf mewn cartrefi plant newydd. Mae ffrydiau gwaith y Rhaglen yn canolbwyntio ar y meysydd y nodwyd bod angen buddsoddiad ynddynt. Bydd hyn yn helpu i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac yn darparu cymorth i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol. Eleni mae'r ffocws wedi bod ar gyflawni blwyddyn gyntaf y rhaglen drawsnewid hon.

I gydnabod pwysigrwydd bod yn egnïol yn ifanc, rydym wedi gweithredu ystod o fentrau iechyd sy'n anelu at hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac atal datblygiad clefydau cronig yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar addysg iechyd i ddyfnhau ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mesurau iechyd ataliol ac ymyrraeth gynnar.

Mae gweithio ar y cyd a gweithio mewn partneriaeth wedi arwain at ddatblygu gwasanaethau iechyd cynhwysfawr a chefnogaeth i'r gymuned. Hefyd mae ffocws wedi bod ar gynyddu mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys grwpiau cwnsela a chymorth mewn ymateb i'r galw cynyddol.

## Sut ydyn ni'n gwneud?



- Er gwaethaf cynnydd o 36% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin rhwng 2022/23 (190) a 2023/24 (259), gyda ni o hyd mae'r nifer isaf o blant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed yng Nghymru, sef 70.60. Mae hyn yn is o dipyn na chyfradd Cymru o 116.10. Erbyn diwedd 2024/25, roedd y gyfradd wedi cynyddu ychydig i 269. Ni fydd y data cymharol ar gyfer hyn fesul 10,000 o'r boblogaeth ar gael tan ddiwedd 2025, ond rydym wedi bod yn isel yng nghyd-destun awdurdodau lleol eraill ers blynyddoedd lawer.

- Roedd 205 o blant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ar 31 Mawrth 2025, o gymharu â 208 y flwyddyn gynt. Mae prinder gofalwyr maeth yn lleol ac yn genedlaethol o hyd sy'n effeithio ar sefydlogrwydd lleoliadau. Mae'r adran yn cydweithio ar draws y rhanbarth gyda Maethu Cymru, a chafodd ymgyrch genedlaethol i recriwtio gofalwyr maeth lawer o sylw yn y cyfryngau.

## Canlyniad: Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n wynebu plant o gefndiroedd difreintiedig a allai effeithio ar eu cyfleoedd yn nes ymlaen yn eu bywydau.

Mae ein ffocws ar ymyrraeth gynnar ac atal. Mae hyn yn cynnwys lleihau'r anghydraddoldebau sy'n wynebu plant difreintiedig, cefnogi teuluoedd mewn sefyllfaoedd heriol i greu amgylcheddau cartref diogel a sefydlog, a helpu teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau iechyd a llesiant lleol.

**Cartrefi Plant**

Mae hwn yn faes â nifer o heriau cymhleth, ac mae ganddo risgiau sylweddol sydd i gyd yn newid yn gyflym ac yn gofyn am ymatebion creadigol, brys.

Mae ein prif gyflawniadau dros y 12 mis diwethaf yn cynnwys:

- Ymrwymiad i sicrhau bod yr holl ofal preswyl yn cael ei ddarparu o fewn Sir Gaerfyrddin erbyn 2026.
- Mae ein Strategaeth Comisiynu Lleoliadau yn nodi ein bwriad strategol a chynllun manwl ar gyfer gweithredu, gan gynnwys rhagolwg costau ar gyfer pob elfen o'r cynllun.
- Mae'r broses recriwtio yn ein cartrefi plant newydd yn mynd yn dda ac mae 75% o'r swyddi wedi'u llenwi a rheolwyr tîm wedi'u penodi. Mae'r defnydd o staff asiantaeth wedi lleihau'n sylweddol.
- Gwneud y mwyaf o'n capasiti mewnol drwy sicrhau bod cartrefi plant Hafan a Rhodfa Ross yn llawn.
- Cytunwyd ar y dyluniad ar gyfer cartref plant newydd. Mae dau ddyluniad (ar gyfer adeiladau un llawr a deulawr) yn dempledi ar gyfer y rhanbarth cyfan a byddant yn helpu i weithredu'r polisi gwaredu elw. Mae amserlen glir o ddwy flynedd ar gyfer ein cartrefi plant newydd hefyd wedi'i llunio. Mae astudiaeth ddichonoldeb ar y gweill, i'w chwblhau erbyn Mehefin 2025.

**Plant a Phobl Ifanc Digwmni sy'n Ceisio Lloches**

Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi 62 o blant a phobl ifanc digwmni: 19 yn y sir a 43 tu allan i'r sir. Mae gennym 27 o dan 18 oed a 35 dros 18 oed. Mae nifer y bobl dros 18 oed yn cynyddu'n gyflymach na'r rhai dan 18 oed, gan arwain at lai o incwm o'r Swyddfa Gartref. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar ein cyllideb. Mae ein cyflawniadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Creu tîm arbenigol o weithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymorth ac ymgynghorwyr personol.
- Cafodd pum eiddo yn Sir Gaerfyrddin eu sefydlu o'r dechrau, gyda 10 o bobl ifanc yn byw ynddynt.
- Nid oes unrhyw leoliadau a gomisiynir yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw atgyfeiriadau newydd o'r cynllun trosglwyddo cenedlaethol. Mae hyn wedi bod yn her enfawr, ond mae ein timau'n cyflawni.
- Mae canllawiau a phrosesau ymarfer ar waith i gefnogi gwaith y timau.

**Y Gwasanaeth Anabledd**

Rydym yn dal i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl ifanc, gan gynnwys pobl ifanc anabl, yn cael eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad gyda'u teuluoedd a lleihau'r angen am lety â chymorth lle y mae'n ddiogel gwneud hynny.

Ers mis Ionawr 2025, mae cynllun peilot amlasiantaeth yn ei ail gam gweithredu trwy leoli'r tîm yn ein Hwb Cymorth Cynnar. Mae'r cynllun yn dod o hyd i ffyrdd o gyrraedd pobl ifanc a'u teuluoedd yn gynharach, yn helpu perthnasoedd rhag chwalu, ac yn atal digartrefedd ar gyfer pobl ifanc.

**Llwybr Niwroddatblygiadol**

Mae Sir Gaerfyrddin wedi bod yn datblygu a gweithredu Llwybr Niwroddatblygiadol i helpu pobl ifanc niwroamrywiol i gael mynediad at addysg addas a chynhwysol. Mae'r fenter hon yn cynnwys asesu, hyfforddiant ac ymyrraeth uniongyrchol gyda phobl ifanc, eu teuluoedd, a chydweithwyr ar draws Addysg, a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae Model Portsmouth wedi bod yn rhan sylweddol o'r datblygiad hwn ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd darparu'r gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn, heb yr angen am ddiagnosis i ddiwallu anghenion.

Cynhaliwyd cynhadledd Niwroddatblygiadol a oedd yn canolbwyntio ar gymhlethdodau niwroamrywiaeth a phwysigrwydd ystafelloedd dosbarth cynhwysol. Roedd y gynhadledd yn tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu plant niwrowahanol, yn enwedig mewn perthynas â phresenoldeb ysgol. Roedd y gynhadledd hefyd yn cynnwys trafodaethau ar bwysigrwydd meddu ar lens seicolegol i ddeall a chefnogi plant niwroamrywiol.

Rydym wedi sefydlu grŵp cyflawni Niwroddatblygiadol adrannol a fydd yn goruchwylio gweithredu'r llwybr Niwroddatblygiadol. Rydym wrthi'n recriwtio tri Gweithiwr Ymyrraeth Anabledd newydd a Gweithiwr Camfanteisio a fydd yn darparu'r gallu ychwanegol i gyflawni hyn.

## Mentrau Chwaraeon a Hamdden

### Actif Unrhyw Le ar gyfer Ysgolion

Mae prosiect Actif Unrhyw Le ar gyfer Ysgolion wedi rhoi hwb sylweddol i'r niferoedd sy'n gwneud gweithgareddau corfforol ar draws Sir Gâr, gyda 4,677 o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn 288 o gyfleoedd i wneud gweithgareddau drwy sesiynau sy'n cael eu ffrydio'n fyw a rhai ar alw. Bu i sioe deithiol Nadoligaidd, wedi'i ffrydio'n fyw o ganolfannau hamdden ac wedi'i harwain gan Lysgenhadon Ifanc, greu 45 o gyfleoedd gwirfoddoli a gwella sgiliau arwain ieuenctid. Ar y cyfan, mae'r prosiect wedi gwneud cynnydd ystyrlon wrth hyrwyddo gweithgarwch corfforol a datblygiad ieuenctid ledled y sir.

### Chwaraeon a Hamdden Actif

Cynnig a hwyluso mynediad at ystod eang o gyfleoedd i blant a theuluoedd er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant. Mae ein haelodaeth aelwyd yn ychwanegu gwerth enfawr gyda dau oedolyn a hyd at bedwar o blant yn gallu defnyddio'r canolfannau hamdden i gyd. Rydym wedi derbyn £169,000 o gyllid ychwanegol gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i barhau â'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn y gymuned, yn enwedig mewn mannau gwledig/anodd eu cyrraedd yn Sir Gaerfyrddin, i roi cyfle i bawb fod yn egnïol. Yn 2024/25 cynyddodd presenoldeb mewn rhaglenni hamdden mewn cyfleusterau i bobl ifanc i 357,420 o ymweliadau, lan o 331,357 – twf o 8% flwyddyn ar ôl blwyddyn.



### Rhaglen Nofio Sblash

Gan dargedu plant nad ydynt yn gallu symud ymlaen mewn gwersi nofio ysgol, roedd y rhaglen Sblash chwe wythnos hon yn cefnogi 24 o ddysgwyr, y rhan fwyaf o gefndiroedd difreintiedig. Aeth dros hanner ymlaen i'r lefel nesaf, gyda rhai'n parhau i'r rhaglen 'Dysgu Nofio'. Trwy fynd i'r afael â bylchau mewn mynediad at sgiliau bywyd hanfodol fel nofio, helpodd y fenter i leihau anghydraddoldebau iechyd a diogelwch, gan adeiladu hyder a gwytnwch sy'n gallu dylanwadu'n gadarnhaol ar ganlyniadau hirdymor i'r plant hyn.

**Cymorth i Glwb Athletau Llanelli**
Trwy Leoedd Actif, ehangodd Clwb Athletau Llanelli ei ddarpariaeth i gynnwys digwyddiadau neidio, nad oedd modd eu darparu cynt o achos prinder adnoddau. Mae'r gefnogaeth hon wedi cynyddu cyfranogiad plant, yn enwedig rhai o gefndiroedd difreintiedig. Trwy gael gwared ar rwystrau ariannol a strwythurol i chwaraeon, mae'r prosiect yn hyrwyddo mynediad cyfartal at gyfleoedd datblygu corfforol, gan helpu i wneud pethau'n decach a chefnogi ffyrdd o fyw iachach, mwy egnïol sydd o fudd i obeithion plant yn y dyfodol.

**Menter Grymuso Ieuenctid**
Gyda chyllid wedi'i sicrhau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, lansiodd Chwaraeon a Hamdden Actif y fenter Grymuso Ieuenctid—rhaglen ymyrraeth gynnar sydd â'r nod o gefnogi pobl ifanc 11-14 oed sydd mewn perygl o gamddefnyddio sylweddau. Cyflawnwyd y prosiect ataliol hwn mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol gan gynnwys Swansea Foundation, Scarlets Community Foundation, nyrsys y GIG, Choices a People Speak Up. Bu i 39 o ddisgyblion o bob rhan o Sir Gâr gymryd rhan yn y rhaglen 16 wythnos, a oedd yn rhoi cyfleoedd ystyrlon iddynt hunan-ddarganfod trwy brofiadau ymgysylltiol a heriol. Roedd y sesiynau yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol gan ddefnyddio ymagwedd oedd yn canolbwyntio ar y plentyn. Anogwyd y sawl oedd yn cymryd rhan i roi ystyriaeth i'w dewisiadau, cynyddu hunan-gymhelliant, gosod nodau personol, a datblygu hunan-barch. Nod y rhaglen hefyd oedd gwella llesiant cyffredinol trwy greu amgylchedd cefnogol lle gallai pobl ifanc dyfu mewn hyder a gwytnwch.

## Canlyniad: Mae teuluoedd o gefndiroedd difreintiedig yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth iechyd a llesiant yn eu hardaloedd lleol.

**Cefnogaeth Cymorth Cynnar**
Rydym wedi bod yn datblygu cynnig effeithiol o Gefnogaeth Cymorth Cynnar ledled Sir Gaerfyrddin i'n Teuluoedd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu Hwb Cymorth Cynnar sy'n dod â thimau ynghyd i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol er mwyn cynnig cymorth i deuluoedd ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn. Rydym hefyd wedi cynnal adolygiad systemau i nodi meysydd lle gallwn wella ein cynnig. Rydym wedi datblygu ein Strategaeth Cymorth Cynnar sy'n nodi'n glir y weledigaeth sy'n sail i'n gwaith. Rydym yn parhau i ymgorffori'r dull Cymorth Cynnar ar draws ein holl asiantaethau partner a thimau statudol, ac yn dal i ddod o hyd i ffyrdd o gyrraedd teuluoedd cyn gynted ag y bo modd i'w helpu i ddod o hyd i'w datrysiadau a gwneud y newidiadau y maent am eu gwneud.

**Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** (GGD) wedi bod yn diweddaru teuluoedd a gweithwyr proffesiynol am wasanaethau, adnoddau a datblygiadau. Mae gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi'i gwella gyda swyddogaethau newydd fel Hysbysfwrdd Teulu, botwm Hygyrchedd, ffurflenni Adborth, a Chalendr Digwyddiadau. Mae hyn wedi arwain at ragor o ymgysylltu â defnyddwyr. Yn ystod y flwyddyn, ymatebodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i 2,193 o ymholiadau.
Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi hyrwyddo digwyddiadau cymunedol trwy ei dudalen Facebook ac wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau allgymorth ledled y sir gydag amrywiol bartneriaid Awdurdod Lleol a thrydydd sector. Yn ystod gwyliau'r haf, cefnogodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ddigwyddiadau Diwrnod Chwarae Cenedlaethol a Diwrnod Chwarae'r Haf, yn ogystal â'r rhaglen Bwyd a Hwyl yn wyth o ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin. Hefyd cymerodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ran mewn prosiect peilot Trechu Tlodi yn ardal Aman-Gwendraeth, gan gynnig cymorth a gwybodaeth i deuluoedd mewn angen. Yn ogystal, cefnogodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ddau ddigwyddiad llwyddiannus 'Hey Come Play' yn ystod hanner tymor mis Chwefror, a chydweithio ar ddiwrnod galw heibio Cymorth Niwrowahaniaeth Gorllewin Cymru, y daeth 170 o bobl iddo.

**Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**

- Bwyd a Hwyl 2024: Llwyddodd 8 Ysgol Gynradd i gynnal 'Bwyd a Hwyl' dros 12 diwrnod o'r gwyliau haf. Yr ysgolion hyn oedd Y Bedol, Pontyberem, Pen Rhos, Porth Tywyn, Betws, Hen Heol, Myrddin a Llanmilo. Gwnaeth tua 331 o ddisgyblion rhwng 5 ac 11 oed fynychu. Mae 11 ysgol gynradd arall (sy'n cwmpasu 12 carfan) wedi ymrwymo i redeg y rhaglen yn ystod haf 2025.
- Mae 'People Speak Up' wedi cael ei ariannu drwy Grant Gwyliau Playworks i gynnal sesiynau chwarae mynediad agored ledled y Sir. Maent wedi cyflwyno sesiynau yn ystod gwyliau ysgol a rhai penwythnosau. Cynhaliwyd 17 sesiwn ar draws chwe lleoliad ar gyfer 58 o blant unigol yn ystod hanner tymor mis Hydref. Yn ystod gwyliau'r Nadolig, cafodd sesiwn ei chynnal mewn naw lleoliad, gyda 37 o blant unigol yn elwa. Cymerodd 63 o blant unigol ran mewn sesiynau ar benwythnosau yn ystod y tymor ar draws pedwar lleoliad.
- Mae prosiect 'Aros a Chwarae' wedi'i dreialu yn Ysgol Ffairfach, sy'n rhedeg bob dydd Mawrth rhwng 3.30pm a 4.15pm yn ystod mis Mawrth 2025.
- Cefnogwyd Meithrinfa Ddydd Andi Pandy i gynnal Archwiliad Chwarae o'r adnoddau mewn dwy o'u hystafelloedd.
- Ym mis Awst 2024, cynhaliodd y Tîm Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae gyfres o ddigwyddiadau am ddim i deuluoedd ledled y sir i ddathlu Diwrnod Chwarae Cenedlaethol. Aeth tua 400 o blant i 38 o wasanaethau.
- Cafodd Ludicology ei gomisiynu i helpu'r Tîm Chwarae i gwblhau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Cynhaliwyd cyfuniad o ymchwil bwrdd gwaith, grwpiau ffocws, ac ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl wybodaeth yn cael ei chasglu a'i defnyddio i lywio'r asesiad a'r Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, sydd i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin.

**Sesiynau Haf i'r Teulu Actif Llanelli**

Mewn cydweithrediad â phum canolfan deulu leol, cyflwynodd Actif Llanelli sesiynau gweithgareddau wythnosol cynhwysol yn ystod gwyliau'r haf, a chymerodd 810 ran ynddynt. Roedd y sesiynau hyn yn darparu cyfleoedd am ddim, hygyrch i blant o gefndiroedd difreintiedig ddatblygu sgiliau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol mewn amgylchedd diogel, cefnogol. Trwy alluogi brodyr a chwiorydd a theuluoedd i chwarae gyda'i gilydd, mae'r fenter yn meithrin cysylltiadau teuluol cryfach ac yn helpu i leihau'r hyn sy'n rhwystro cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol strwythuredig. Mae hyn yn cyfrannu at gyfleoedd bywyd a llesiant gwell yn y dyfodol.



## Oes unrhyw un ar ei ennill?

### Taith Plentyn Maeth yn Sir Gaerfyrddin

I ddathlu Diwrnod Gofal 2025 ar 21 Chwefror, mae bachgen 10 oed sydd wedi bod mewn gofal maeth yn Sir Gaerfyrddin ers ychydig dros ddwy flynedd, wedi rhannu ei gerdd am ei daith deimladwy.

Yn dwyn y teitl 'Fy Mywyd Maeth' mae'r gerdd yn rhoi cipolwg pwerus ar brofiadau G, o'r ansicrwydd o fynd i ofal i ddod o hyd i sefydlogrwydd, llawenydd a pherthyn mewn cartref gofalgar.

Mae Diwrnod Gofal yn ddathliad o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.



**My Foster Life**

"I'm nervous, I'm anxious, everything's strange,
My sisters are with me, but it's still a change
These people are strangers, I feel so scared,
I wouldn't be here if only they cared.

The rules are different, this life is new,
Things used to be bad, but it's all I knew,
It seems to get easier every day,
Here, for a football team I get to play.

In foster care I don't have to move school,
And I think the food is really cool,
I don't have to move, and I love the days out,
At Christmas time, they went all out.

One year later, its decision time,
And we will stay in care full time,
They found a family for us all,
Altogether we had a ball.

Foster care is scary, but you need to stay strong,
Eventually you will find where you belong,
I love my new family, and they love me,
Each day is awesome and filled with glee"

## Sut gallwn ni wneud yn well?

Byddwn yn cryfhau ein dull o gefnogi plant a theuluoedd drwy ddatblygu Strategaeth Rhianta Corfforaethol newydd, gan sicrhau bod pawb yn y Cyngor yn deall eu rôl o ran helpu plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal i ffynnu. Bydd ein gwasanaethau cymorth cynnar yn cael eu gwella fel y gall teuluoedd gael mynediad at gymorth yn gynt, gan helpu mwy o blant i aros yn ddiogel gartref. Byddwn yn gweithredu'r Polisi Dyrannu Adnoddau'n Deg ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd, gan roi mwy o ddewis a rheolaeth iddynt dros y gefnogaeth maent yn ei derbyn. Yn ogystal â hyn, byddwn ni'n cynyddu capasiti ein gwasanaeth maethu ac yn gwella recriwtio a chadw er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o leoliadau maeth mewnol i ddiwallu anghenion amrywiol plant yn Sir Gaerfyrddin.

## Yn Gryno

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed cynnydd ar draws y gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar:

- Newid polisi allweddol oedd gwaredu'r polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed yn ffurfiol yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant. Bu i'r newid hwn ysgogi ymgysylltu â darparwyr nad ydynt yn cael eu cynnal a thrafodaethau gyda saith ysgol i ehangu eu hystod oedran i ddarparu ar gyfer y galw yn sgil hyn. Bydd hyn yn dechrau o fis Medi 2025 ymlaen.
- Tyfodd y ddarpariaeth gofal plant hefyd, gyda chynnydd i 218 o ddarparwyr cofrestredig yn cynnig 4,502 o leoedd erbyn mis Mai 2025. Cwblhaodd y rhaglen Dechrau'n Deg ei hail gam ehangu a dechrau cyflwyno cam tri, gyda ffocws ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant.
- Cafodd y Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd eu cryfhau trwy strwythur wedi'i ailgynllunio a rolau newydd i wella arferion maethu.
- Roedd ymdrechion i gefnogi Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig yn cynnwys alinio lwfansau â gofalwyr maeth ac integreiddio gofalwyr Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig i strwythur Maethu Cymru Sir Gâr.
- O ganlyniad i waith ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r sector gwirfoddol, gwnaed cynnydd o ran y Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar. Roedd hyn yn cynnwys datblygu pecyn e-ddysgu.
- Ymgysylltwyd â'r gymuned drwy ddigwyddiadau wedi'u hariannu gan y Grant Trechu Tlodi, a oedd o fudd i nifer o blant.
- Cefnogodd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf 9,701 o unigolion drwy 2,704 o atgyfeiriadau, gyda chyfraddau llwyddiant uchel mewn ymyriadau rhianta a chanlyniadau cadarnhaol ar yr Offeryn Pellter a Deithiwyd.
- Er gwaetha'r galw cynyddol a'r cymhlethdod, parhaodd gwasanaethau ymyrraeth gynnar i ddarparu cymorth o safon, er i rai prosiectau adrodd rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau arbenigol fel trais domestig a chymorth therapiwtig. Mae'r rhain yn cael eu rheoli'n weithredol i sicrhau cymorth amserol.

## Sut ydyn ni'n gwneud?

- Bu'n rhaid i 9.7% o blant mewn gofal yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2024/25 symud dair gwaith neu ragor yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 26 o'r 269 o blant, o gymharu ag 8.5% (22 o'r 259) yn 2023/24. Bu cynnydd arall yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth 2025 i 269 o gymharu â 259 y flwyddyn flaenorol.
- Mae 218 o ddarparwyr gofal plant cofrestredig, sy'n cynnig 4,502 o leoedd gofal plant a ddarperir gan warchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, cylchoedd meithrin, Dechrau'n Deg, clybiau ar ôl ysgol, a chlybiau gwyliau.
- 84.3% oedd y gyfradd bresenoldeb yn y lleoliadau gofal plant di-dâl Dechrau'n Deg a neilltuwyd ar gyfer plant cymwys 2-3 oed i'w paratoi ar gyfer yr ysgol, sef gwelliant ar ganlyniad 2023/24 o 78.1%. Gyda'r lefelau isaf o absenoldeb anawdurdodedig a gofnodwyd hyd yn hyn sef 0.88%. Mae'n galonogol gweld teuluoedd yn adrodd absenoldeb ac yn ymgysylltu â lleoliadau gofal plant wrth adrodd absenoldeb.
- Cafodd 179 o deuluoedd sydd ag anghenion llesiant cymdeithasol ychwanegol ac sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg, ymyriadau amser penodol gan y Tîm Dechrau'n Deg ehangach e.e. Gweithiwr Cymdeithasol, Swyddog Cymorth i Deuluoedd, Gweithiwr Prosiect Cam-drin Domestig neu Fydwraig. Mae hyn yn 98% o'r teuluoedd hynny a atgyfeiriwyd ac yn gynnydd ers 2023/24, pryd derbyniodd 149 ymyriadau amser penodol.



## Canlyniad: Gwell argaeledd o ran lleoliadau addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar ar draws y sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig; gyda ffocws penodol ar ddarparu a chryfhau gofal plant cyfrwng Cymraeg.

### Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed

Yn 2018/19 cwblhawyd Adolygiad Gorchwyl a Gorffen gan y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant a chyfleoedd chwarae.
Un o'r casgliadau a nodwyd yn yr adroddiad oedd bod polisi 'Plant sy'n Codi'n 4 oed' yr Awdurdod yn wahanol iawn i awdurdodau lleol eraill cyfagos a bod y 'Cyngor yn cynnal adolygiad ffurfiol o'i bolisi derbyn presennol ar gyfer addysg llawn amser i blant 4 oed (y polisi plant sy'n codi'n 4 oed).'
Ar ôl ymgynghoriad priodol, penderfynwyd gwaredu'r polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed a bydd hynny'n dod i rym ym mis Medi 2025. Rydym wedi ymgysylltu â'r sector nas cynhelir ac mae sawl darparwr wedi mynegi diddordeb mewn darparu addysg feithrin anstatudol naill ai o fewn neu'n agos at rai o'n hysgolion 4-11. Bydd hyn yn ateb y galw a ragwelir yn sgil yr oedi o un tymor cyn gallu dechrau mewn dosbarthiadau derbyn amser llawn o dan y Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed. Mewn meysydd eraill, rydym wedi dechrau trafodaethau gyda saith ysgol i newid eu hystod oedran o 4 i 11 i 3 i 11 lle mae bylchau yn y ddarpariaeth yn parhau. Dylai'r ddwy broses fod wedi'u cwblhau erbyn mis Medi 2026.

### Gofal Plant

Ym Mai 2025 roedd cynnydd yn nifer y darparwyr a'r lleoedd gofal plant, gyda 218 o ddarparwyr gofal plant cofrestredig yn cynnig 4,502 o leoedd gofal plant a ddarperir gan warchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, cylchoedd meithrin, Dechrau'n Deg, clybiau ar ôl ysgol, a chlybiau gwyliau. Ym mis Mehefin 2024, roedd 213 o ddarparwyr a 4,214 o leoedd.Mae adroddiad cryno ein Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant Statudol yn parhau i gael ei rannu gyda darpar-ddarparwyr gofal plant, ac mae hefyd ar gael ar wefan Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

### Gofal Plant Dechrau'n Deg

Mae ail gam ehangu gofal plant Dechrau'n Deg bellach wedi'i gwblhau. Targedwyd meysydd newydd, gan sicrhau bod y darparwyr gofal plant yn cael eu comisiynu i gofrestru plant cymwys ar gyfer gofal plant. Mae teuluoedd cymwys yn cael eu hysbysu trwy dargedu cardiau post ac yna fe'u gwahoddir i lenwi ffurflen hunan-gofrestru. Mae'r holl ardaloedd ehangu bellach wedi'u cofrestru'n llawn yn Dechrau'n Deg. Mae ein swyddog Iaith Gymraeg wedi dechrau gweithio gyda phob darparwr gofal plant ar draws Dechrau'n Deg i hyrwyddo'r iaith, a diwylliant ac amgylcheddau Cymru.
Mae gwaith wedi bod yn digwydd yn barhaus gydag ymweliadau i gefnogi'r darparwyr gofal plant mewn ardaloedd newydd er mwyn hyrwyddo Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin.
Mae Cam 3 o'r gwaith i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg bellach yn cael ei gyflwyno yn ystod 2025/26. Rydym yn rhagweld y bydd pobl yn dechrau manteisio ar hyn ym Mehefin 2025.

## Canlyniad: Cadw plant gartref gyda'u teuluoedd lle bynnag y bo modd.

Ein nod yw atal yr angen am gyfranogiad statudol a chael plant a phobl ifanc i aros gyda'u teuluoedd a'u cymunedau pryd bynnag y mae'n ddiogel gwneud hynny. Os bydd angen cymorth statudol, mae'n flaenoriaeth amddiffyn plant sy'n profi camdriniaeth, esgeulustod, neu niwed arall, neu sydd mewn perygl o'u profi.

### Cymorth i Deuluoedd ac Adnoddau

Mae'r maes hwn ar y trywydd iawn i ddarparu set o wasanaethau cydgysylltiedig, ymatebol sy'n darparu adnodd effeithiol i Weithwyr Cymdeithasol ei ddefnyddio. Mae'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r strwythur newydd ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd wedi'i gynllunio trwy gwblhau'r Adolygiad Meddwl trwy Systemau.
- Lluniwyd swyddi newydd a phenodwyd pobl i wella ein hymarfer a'n perfformiad ym maes maethu.
- Rydym yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn targedau cenedlaethol ar gyfer recriwtio gofalwyr maeth er bod prinder sylweddol o leoliadau maeth o hyd.
- Mae strategaeth farchnata maethu wedi cael ei datblygu ac yn cael ei gweithredu. Mae ymgyrch recriwtio ar waith ar hyn o bryd.

### Gwarcheidwaid Arbennig

Rydym wedi ceisio gwella trefniadau parhad cynnar trwy sefydlu cydraddoldeb ffioedd a lwfansau rhwng gofalwyr Gwarcheidiaeth Arbennig a gofalwyr maeth, i annog gofalwyr cysylltiedig i fod yn Warchodwyr Arbennig. Mae hyn yn cadw plant gyda'u teuluoedd, allan o ofal, ac maent bellach yn cael eu derbyn i strwythur Maethu Cymru Sir Gâr a'u hasesu ynddo.

### Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar

Rydym wedi gweithredu blaenoriaethau allweddol yn y Cynllun Gweithredol Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar, a'r Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Ranbarthol. Rydym yn symud tuag at fodel cyflawni integredig mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r sector gwirfoddol.

### Tîm Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar

Ar hyn o bryd mae 42 o deuluoedd yn derbyn cymorth un-i-un gan Weithwyr Cymorth i Deuluoedd. Mae hyn ar gyfer ystod o anghenion, gan gynnwys anghenion cymdeithasol cymhleth, oedi mewn datblygiad, bwydo babanod, iechyd meddwl rhieni, cymorth tai; neu faterion rhianta cyffredin fel mynd i'r toiled, rheoli ymddygiad, rheoli cysgu neu fod yn ffyslyd wrth fwyta. Cafwyd £15,000 arall o'r Gronfa Fuddsoddi Ranbarthol (RIF) i helpu i gwblhau'r prosiect gordewdra plant. Bu i'r cyllid hwn hwyluso creu cymeriad animeiddiedig o'r enw Gwen, a ddyluniwyd i gyfleu negeseuon allweddol mewn llais plentyn. Bydd y pecyn e-ddysgu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Trawsnewid Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad yn ystod hanner tymor mis Chwefror ar gyfer teuluoedd plant blynyddoedd cynnar. Ariannwyd y digwyddiadau hyn gan Grant Arloesi a Chefnogi Cymunedau Trechu Tlodi. Mynychodd 66 o blant gyda'u teuluoedd, a mynychodd 20 o stondinwyr bob digwyddiad. Mae gwerthusiadau gan deuluoedd yn dangos eu bod yn gwerthfawrogi'r digwyddiadau cymunedol hyn fel ffyrdd o gael gwybodaeth, cwrdd â theuluoedd eraill, a chael mynediad at weithgareddau am ddim i'w plant. Roedd y digwyddiadau'n ddefnyddiol i'r stondinwyr ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd. I gyd, mae 468 o blant wedi elwa ar weithgareddau a ddatblygwyd fel rhan o'r Grant Trechu Tlodi.

## Canlyniad: Caiff teuluoedd sy'n wynebu anawsterau eu cynorthwyo i ddarparu cartrefi sefydlog, diogel a sicr i'w plant.

Mae gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol yn parhau i ddarparu cymorth o ansawdd da sy'n cyflawni canlyniadau da i deuluoedd, er gwaethaf yr heriau sy'n ymwneud â'r galw cynyddol a chymhlethdod yr angen.

Yn 2024/25, o fewn y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf:

- Cafwyd 2,704 o atgyfeiriadau.
- Cefnogwyd 9,701 o unigolion, gyda 5,140 (53%) ohonynt yn unigolion newydd.
- Agorwyd 693 o Ffurflenni Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd un asiantaeth newydd.
- Caewyd 574 Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd un asiantaeth gyda symudiad ymlaen o 518 (90%) ar yr offeryn pellter a deithiwyd.
- Cafodd 19 o achosion un asiantaeth eu camu i fyny a'u derbyn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, a chafodd 127 o achosion eu camu i lawr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Bu i 97% o'r rhieni elwa o ymyrraeth rhianta.

Mae'r prosiectau wedi wynebu heriau, gan gynnwys galw cynyddol am gymorth ac atgyfeiriadau mwy cymhleth gyda nifer o faterion sy'n gofyn am gefnogaeth dros gyfnod hirach. O ganlyniad, mae gan rai prosiectau restrau aros am fathau penodol o gymorth, gan gynnwys cymorth i blant yr effeithiwyd arnynt gan drais domestig, rhianta, a chymorth therapiwtig (therapi Celf a Chwarae). Mae rhestrau aros yn cael eu monitro a'u rheoli gan brosiectau. Cysylltir â theuluoedd i gydnabod bod atgyfeiriad wedi'i wneud a thrafodir cymorth tra byddant yn aros, lle bo'n briodol. Rhoddir sicrwydd y bydd cymorth yn cael ei ddarparu cyn gynted â phosibl.

## Sut gallwn ni wneud yn well?

Er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn, byddwn yn parhau i adolygu dyddiadau derbyn ac ystod oedran ysgolion ledled y sir, ar ôl gwaredu'r polisi Codi'n 4 oed o fis Medi 2025. Byddwn ni'n mynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022-27, gan gynnwys hyrwyddo a datblygu gofal plant cyfrwng Cymraeg. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, byddwn yn cyflwyno Cam 3 ehangu gofal plant Dechrau'n Deg yn ystod 2025/26, gan sicrhau bod mwy o deuluoedd yn gallu cael mynediad at addysg a gofal plant o ansawdd da ble bynnag maent yn byw.



## Yn Gryno

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaeth adran Addysg Sir Gaerfyrddin gynnydd sylweddol o ran hyrwyddo addysg gynhwysol o ansawdd da er gwaethaf pwysau ariannol ac effeithiau parhaus y pandemig.

Mae hyn wedi'i gyflawni yng nghyd-destun heriau sylweddol fel gostyngiad yn nifer disgyblion a phwysau ariannol sylweddol ar draws ein system addysg. Mae hefyd wedi digwydd ar adeg pryd mae galw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig ar ôl y pandemig a chyda newidiadau cymdeithasol ehangach. Mae'r lefelau cynyddol o gymhlethdod ac anghenion plant a phobl ifanc, boed hynny'n Anghenion Dysgu Ychwanegol, Addysg Ddewisol yn y Cartref, presenoldeb, ymddygiad ac ati, yn gofyn am ymateb gwahanol iawn ac yn creu pwysau sylweddol nid yn unig yn ein hysgolion ond yn yr adran Addysg.

Arweiniodd y Gwasanaeth Cynhwysiant y gwaith o gyflwyno diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Llywodraeth Cymru, gan ehangu cymorth arbenigol, yn enwedig ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg ac oedran uwchradd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Rhoddwyd help llaw i'r ysgolion o ran asesu anghenion disgyblion, teilwra cynlluniau dysgu, a chynnwys teuluoedd, gydag Estyn yn canmol gwaith yr Awdurdod.

Roedd addysg ddwyieithog yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda mynediad cyfartal i ddarpariaethau Cymraeg a Saesneg, datblygu adnoddau Cymraeg mewnol, a darparu dysgu proffesiynol dwyieithog.

Roedd mentrau fel y rhaglen Llysgenhadon Chwaraeon Ifanc yn galluogi disgyblion a staff ag ADY i arwain gweithgareddau corfforol cynhwysol.

Fodd bynnag, roedd presenoldeb yn broblem barhaus, gyda Sir Gaerfyrddin yn cofnodi'r cyfraddau isaf yng Nghymru. Gan ymateb, mae'r Cyngor wedi lansio strategaethau a dargedwyd i dynnu sylw at bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd ac mae'n gweithio'n agos gydag ysgolion. Mae nifer y disgyblion sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref hefyd wedi parhau i gynyddu'n raddol yn unol â'r patrwm ledled Cymru dros y degawd diwethaf. Ar ddiwedd 2024/25, roedd 694 o ddysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref wedi'u cofrestru gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.

Cafodd y gefnogaeth i ddysgwyr agored i niwed ei gwella trwy well cydweithio rhwng amlasiantaethau.


Mae datblygu'r cwricwlwm yn cyd-fynd â Chwricwlwm Cymru, gan hyrwyddo dysgu cynhwysol, cymunedol sydd â phwyslais ar lythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol.

Er bod canlyniadau TGAU a Safon Uwch wedi gostwng ychydig yn is na'r lefelau cyn y pandemig, roeddent dal yn gystadleuol yn genedlaethol.

Gwnaed penodiadau allweddol ar ddiwedd 2024/25 i fwrw ymlaen â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP), ac ailsefydlwyd partneriaeth strategol gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Hefyd gwelodd y seilwaith ysgolion welliannau gyda buddsoddiadau'n cael eu gwneud drwy'r Rhaglen Moderneiddio Addysg, gan gynnwys cyfleusterau newydd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ADY.

## Sut ydyn ni'n gwneud?

- Mae'r Cyngor yn cynnal 1 ysgol feithrin, 94 ysgol gynradd, 12 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig. Mae'r rhain yn darparu addysg i dros 27,000 o ddisgyblion.
- Ar ddiwedd mis Mawrth 2025 roedd gan gyllidebau ysgolion ddiffyg net cyffredinol o £1.8m er gwaethaf gwarchod cyllidebau ysgolion yn gymharol dros y degawd diwethaf. Rhagwelir y bydd y pwysau hwn ar y gyllideb yn cynyddu ymhellach.
- Ymatebodd ychydig dros 3,500 i'n harolwg preswylwyr 2024. Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr yn cytuno bod ysgolion lleol yn darparu addysg dda i blant a phobl ifanc, gyda sgôr[2] o 0.27. Serch hynny, mae'r sgôr wedi gostwng yn sylweddol o'r flwyddyn flaenorol (0.41), gydag 20% o'r ymatebwyr yn anghytuno.
- Mae nifer y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn ystod 2024/25 wedi cynyddu eto gyda 2.4% (51 allan o 2,083) o gymharu â 2.3% (46 allan o 1,987) y flwyddyn flaenorol.



Cynnydd yn erbyn Canlyniadau

### Canlyniad: Mae disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu cefnogi'n llawn.

**Addysg**

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn rhan annatod o wasanaeth rheng flaen yr Awdurdod Lleol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n wasanaeth sydd â chyfrifoldebau statudol ac sy'n darparu cymorth ac ymyrraeth lle bo angen.

Mae'r Cyngor wedi gweithredu rhaglen trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru i gefnogi system ADY newydd sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n cefnogi dysgwyr drwy ddysgu wedi'i bersonoli, er mwyn cyflawni canlyniadau effeithiol. Fodd bynnag, mae hyn mewn sefyllfa o gyni ariannol ac o adfer yn dilyn covid. Mae tîm cymorth canolog y Cyngor yn sicrhau bod ysgolion yn meithrin capasiti i nodi anghenion yn gynnar, gwneud y ddarpariaeth gywir, ac yna monitro ac adolygu'r ddarpariaeth hon. Mae ysgolion wedi bod angen cymorth sylweddol gan yr Adran ADY i gyflawni'r disgwyliad hwn oherwydd toriadau cyllidebol a disgwyliadau newydd ar Gydlynwyr ADY ac athrawon dosbarth. Roedd y galw cynyddol ac annisgwyl am leoliadau awtistig wedi golygu bod angen defnyddio adnoddau adrannol a nodwyd ar gyfer twf i ddarparu ymateb amserol i ddatblygu darpariaeth arbenigol newydd. Roedd y ddarpariaeth newydd yn llenwi'r bylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth arbenigol anhwylder sbectrwm awtistiaeth cyfrwng Cymraeg ac uwchradd. Mae'r sefyllfa hon wedi golygu bod adnoddau i gefnogi adeiladu capasiti yn ein hysgolion prif ffrwd i ddiwallu anghenion dysgwyr wedi'u cyfeirio at ddarpariaeth arbenigol, gan effeithio ar allu'r adran i gyrraedd targedau ar gyfer cryfhau arferion cynhwysol.

[2] Y Sgôr Mynegai Cyfartalog: Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dynodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.

Mae strategaeth y Cyngor ar ADY yn datgan bod addysg gynhwysol yn golygu bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael cwricwlwm wedi'i bersonoli a rhwydweithiau cymorth priodol. Rydym wedi ymrwymo i'r gred mai 'dysgu cynhwysol' yw'r arfer gorau mewn addysgu a dysgu. Rydym yn rhoi pwyslais cryf ar gefnogi ysgolion yn y meysydd allweddol canlynol:

- Asesu cryfderau ac anghenion yn fanwl;
- Cynllunio'n effeithiol i adeiladu ar gryfderau ac i fynd i'r afael â'r meysydd lle mae angen;
- Mabwysiadu dulliau addysgegol o optimeiddio dysgu unigol;
- Cynnwys plant wrth osod eu nodau dysgu a gwerthuso eu cynnydd tuag at dargedau y cytunwyd arnynt;
- Cadw mewn cysylltiad â rhieni er mwyn rhoi gwybod iddynt am gynnydd eu plentyn, a'u cynnwys wrth iddynt gefnogi dysgu eu plentyn;
- Gwerthuso cynnydd plentyn unigol a chynnydd grwpiau a dosbarthiadau;
- Mireinio'r dull o addysgu a dysgu gan roi ystyriaeth i werthuso;
- Cadw cofnodion systematig i adrodd cynnydd ac i alluogi ymarfer myfyriol.

Mae llwyddiant yn cael ei dystiolaethu gan fod ysgolion yn gwneud dyfarniadau sy'n statudol gywir mewn perthynas ag ADY ac yn gweithio'n dda gyda theuluoedd a dysgwyr. Mae hyn yn golygu mai prin yw'r achosion pan fo'n rhaid i'r Cyngor ailystyried penderfyniadau.

Lluniodd Estyn Adroddiad Thematig ar y system ADY yng Nghymru ym mis Tachwedd 2024, gan dynnu sylw at arfer da mewn ADY yn ysgolion Sir Gaerfyrddin.[3]

[3] Adroddiad Thematig ESTYN: Y system anghenion dysgu ychwanegol: Cynnydd ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol wrth gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Sir Gaerfyrddin yn awdurdod lleol dwyieithog, lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael statws cyfreithiol cyfartal a chydraddoldeb. Wrth ystyried y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion, boed hynny mewn ysgolion dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg, cytunir bod y ddwy iaith yn cael eu hystyried yn unol ag anghenion y plentyn.

Mae darpariaeth arbenigol gan yr awdurdod lleol drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog. Yn ddiweddar, maent wedi agor tri dosbarth arbenigol cynradd i ddisgyblion ag awtistiaeth mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, sy'n darparu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog.

Mae cyfran sylweddol o ddisgyblion ag ADY yn cael addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn cynnwys disgyblion o gartrefi Cymraeg iaith gyntaf, dwyieithog, di-Gymraeg ac amlieithog. Er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn nodi proffil iaith ac anghenion plant a phobl ifanc yn glir, mae pob disgybl yn cynnal asesiad gwaelodlin i sicrhau bod man cychwyn eu taith ddysgu yn cyd-fynd yn iawn ag anghenion iaith a dysgu y plentyn.

Mae'r asesiad hwn yn cael ei gynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r awdurdod lleol yn darparu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, gan ddiwallu anghenion iaith disgyblion unigol.

Fel sy'n digwydd yn genedlaethol, mae'r awdurdod lleol yn nodi bod mynediad at adnoddau ac asesiadau Cymraeg yn rhwystr parhaus. Fodd bynnag, mae Sir Gaerfyrddin wedi goresgyn hyn yn llwyddiannus, trwy greu adnoddau yn fewnol neu gyfieithu adnoddau i gefnogi ysgolion a lleoliadau addysgol eraill. Dros nifer o flynyddoedd mae wedi datblygu llyfrgell o adnoddau a dogfennau sy'n rhoi cyngor/arweiniad er mwyn cefnogi ysgolion i ddarparu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r holl ddysgu proffesiynol yn cael ei gyflwyno yn ddwyieithog gan yr adran ADY a chynhwysiant.

Lle mae gwasanaethau allanol yn darparu hyfforddiant na ellir ei gyflwyno'n ddwyieithog, maent yn darparu gwasanaethau cyfieithu, ac mae'r holl ddogfennaeth a sleidiau cysylltiedig yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Mae Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu ei dosbarthiadau arbenigol o 38 lle i 62. Mae gan y rhan fwyaf o leoliadau arbenigol staff sy'n gallu cynnig cymorth os oes angen drwy gyfrwng y Gymraeg neu gellir ystyried gwella'r cymorth a gynigir drwy gyllid ychwanegol. Nid yw disgyblion yn eu dosbarthiadau arbenigol yn cael eu heithrio rhag y Gymraeg, defnyddir dull gwahaniaethol sy'n canolbwyntio ar y disgybl yn unol â'r modd yr addysgir pob pwnc.

## Mentrau Chwaraeon a Hamdden

### Rhaglen Llythrennedd Corfforol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Tîm Pobl Ifanc Egnïol Actif wedi parhau â'i waith effeithiol yn cefnogi Unedau ADY Cynradd, tra hefyd yn ehangu i Unedau ADY Uwchradd. Mae'r fenter hon yn mabwysiadu dull ysgol gyfan i wella hyder a chymhwysedd staff wrth ddarparu sesiynau gweithgarwch corfforol cynhwysol trwy'r Rhaglen Llythrennedd Corfforol. Trwy gyfuniad o hyfforddiant a mentora, mae staff ysgol wedi datblygu'r sgiliau a'r sicrwydd sydd eu hangen i deilwra sesiynau gweithgarwch corfforol i anghenion amrywiol eu disgyblion. O ganlyniad, mae wyth uned ADY ychwanegol wedi elwa ar y gefnogaeth hon yn ystod y flwyddyn.



Rhannodd un o'r unedau sy'n cael eu cefnogi ei gwerthfawrogiad:
*“Diolch i chi am eich mewnbwn a'ch adnoddau, sydd wedi gwella ein sesiynau Addysg Gorfforol yn fawr.”— Canolfan Amanwy*

Mae'r adborth hwn yn dangos llwyddiant y rhaglen wrth rymuso addysgwyr a chyfoethogi'r profiad addysg gorfforol i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol.

### Rhaglen Llysgenhadon Chwaraeon Ifanc

Mae'r Tîm Pobl Ifanc Egnïol Actif wedi lansio menter arweinyddiaeth gynhwysol newydd sydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer disgyblion ag ADY ledled Sir Gaerfyrddin. Mae'r rhaglen hyfforddi Llysgenhadon Chwaraeon Ifanc yn darparu cyfleoedd cyfartal i fyfyrwyr ADY ymgymryd â rolau arwain mewn chwaraeon, gan hyrwyddo hyder, cyfrifoldeb a chynhwysiant. Mae'r rhaglen bwrpasol hon wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion amrywiol disgyblion ADY, gan gynnig lefelau amrywiol o gyfrifoldeb a hyfforddiant ymarferol mewn arwain gweithgareddau corfforol. Mae'r dull wedi'i gynllunio i rymuso myfyrwyr trwy adeiladu eu hyder a'u galluogi i gyfrannu'n ystyrlon yn eu cymunedau ysgol.
Mae'r canlyniadau cychwynnol yn addawol. Yn Uned Elfed Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth, cwblhaodd dau fyfyriwr eu hyfforddiant fel Llysgenhadon ym mis Ionawr 2025. Ers hynny, maent wedi mynd ati i drefnu a chyflwyno sesiynau chwaraeon, gan gynnwys digwyddiadau criced bwrdd a gemau pêl-droed cynhwysol yn ystod amseroedd egwyl. Mae eu cyfranogiad nid yn unig wedi gwella eu sgiliau arwain ond hefyd wedi meithrin empathi, gwaith tîm, ac ymdeimlad o berthyn ymhlith eu cyfoedion. Mae'r llwyddiannau cynnar hyn yn amlygu potensial y rhaglen i greu effaith barhaol.
Golyga'r mentora parhaus gan staff Actif a'r brwdfrydedd cynyddol ymhlith cyfranogwyr fod Llysgenhadon Chwaraeon Ifanc sydd ag ADY yn datblygu i fod yn fodelau rôl cadarnhaol yn eu hysgolion.
Wrth edrych ymlaen, y nod yw ehangu'r rhaglen i gynnwys unedau ADY o bob ysgol gynradd ac uwchradd ledled y sir, gan sicrhau bod pob disgybl yn gallu arwain, ysbrydoli a ffynnu trwy chwaraeon.

### Hyfforddiant Llythrennedd Corfforol

Mae Tîm Pobl Ifanc Actif wedi parhau i gryfhau hyder staff ysgolion cynradd wrth ddarparu chwaraeon ysgol ac addysg gorfforol o safon drwy Hyfforddiant Llythrennedd Corfforol. Ers lansio'r rhaglen, mae'n cyrraedd 20% yn ychwanegol, gyda 70% o ysgolion bellach yn elwa ar hyfforddiant a mentora pwrpasol. Mae'r gefnogaeth hon wedi bod yn allweddol wrth wella capasiti staff a'r ddarpariaeth gyffredinol o ran addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion.
Wrth edrych ymlaen, bydd y ffocws ar gynnal y cynnydd hwn trwy gynnig cymorth parhaus trwy adnoddau wedi'u diweddaru a chyfleoedd hyfforddiant gloywi.

## Canlyniad: Cynyddu cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion a mynediad i addysg ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed.

**Presenoldeb**

Mae lefelau presenoldeb yn ysgolion Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn bryder. Ar hyn o bryd rydym yn safle 22 allan o 22 awdurdod lleol ar gyfer cyfraddau presenoldeb. Mae amryw ddulliau strategol ar waith, gyda'r nod o helpu ysgolion i wella eu cyfraddau presenoldeb disgyblion.

| | 2022/23 Blwyddyn Academaidd | 2023/24 Blwyddyn Academaidd | Mawrth 2025 Amodol | Cymru Mawrth 2025 Amodol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | 91.1% | 91.6% | 92.7% | 92.9% |
| Ysgolion Uwchradd | 86.4% | 86.8% | 88.0% | 89.0% |
| Pob ysgol | 89.3% | 89.6% | 89.4% | 91.0% |

**Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion**

Darperir cefnogaeth sylweddol i ysgolion, disgyblion a theuluoedd, wedi'i thargedu at y rheiny sydd fwyaf agored i niwed. Mae Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd gan sicrhau bod yr holl 'gymorth cynnar' sydd ei angen ar gael.

**Gwaith Ieuenctid mewn Ysgolion**

Yn ôl ysgolion, mae effaith y gweithwyr ieuenctid yn sylweddol o ran cefnogi dysgwyr i gymryd rhan mewn bywyd ysgol. Mae'r gwasanaeth hwn a ariennir gan grant yn cael effaith sylweddol ar atal plant a phobl ifanc rhag ymwneud â'r system gyfiawnder hefyd. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth mewn perygl oherwydd toriadau mewn grantiau.

**Ffocws Bugeiliol**

Mae cynnydd wrth adolygu systemau bugeiliol yn parhau, gyda'r nod o greu gwell ymdeimlad o berthyn ymhlith dysgwyr. Mae hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol yn cael ei ddatblygu, gan ganolbwyntio ar gywirdeb systemau cofrestru, yn ogystal ag ar ethos arferion bugeiliol i ennyn ymdeimlad o 'berthyn.' Mae'r tîm cymorth ymddygiadol yn parhau i ddarparu ystod o gymorth ar sail dulliau adfer a dulliau sy'n ystyriol o drawma. Mae'r holl benaethiaid uwchradd wedi cael cyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol ag arweinydd y tîm i amlinellu pryderon a'r gefnogaeth sydd ei hangen. Yn ogystal mae'r Tîm sy'n ymwneud â Disgyblion, Rhieni ac Ysgolion (TAPPAS), ymateb amlasiantaethol i anghenion strategol neu unigol disgyblion, yn parhau i gryfhau yn unol â blaenoriaethau ysgolion unigol. Mae gweithgor sy'n myfyrio ar y defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion yn parhau i adeiladu momentwm, gan greu pecyn cymorth i ysgolion ei ddefnyddio wrth fynd i'r afael â phryderon ynghylch cyfryngau cymdeithasol a defnyddio ffonau symudol.

**Ymgysylltu â Dysgwyr**

Mae cyfleoedd cwricwlwm sy'n anelu at ennyn diddordeb dysgwyr yn parhau i esblygu, gan gryfhau gwaith sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'r effaith ar ddisgyblion sy'n cymryd rhan yn gadarnhaol. Mae gwaith datblygu cwricwlwm ehangach dan arweiniad y Cyngor, sy'n cynnwys gweithio yn yr awyr agored, yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan athrawon ac mae'n parhau i gryfhau profiadau dysgu a dulliau addysgol. Mae rhannu digwyddiadau ac annog dysgu gan gymheiriaid rhwng ysgolion, yn dal i fod yn agwedd allweddol ar y strategaeth hon.

**Llais y Dysgwr**

Mae gweithgor strategol dan arweiniad y gwasanaeth Ieuenctid wedi'i sefydlu, gyda'r nod o ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc i ddeall eu barn am bresenoldeb yn yr ysgol a diffyg presenoldeb yn yr ysgol. Bydd eu barn yn cael eu hystyried wrth ddatblygu gweithredoedd a strategaeth gefnogol.

**Gweithgarwch Marchnata**




Cynhaliodd yr Adran Addysg ymgyrch **Colli Ysgol: Colli Cyfle** ar ddechrau'r Flwyddyn Academaidd ym mis Medi.  Cynlluniwyd yr ymgyrch i danlinellu i rieni bwysigrwydd presenoldeb ysgol, ac roedd negeseuon yr ymgyrch yn cynnwys:

- Nod yr ymgyrch hon yw atgoffa ac annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd nad yw'n dderbyniol colli ysgol ar ddiwrnod penodol, neu am gyfnod penodol o amser.
- Dylai plentyn fynychu'r ysgol am nifer o resymau, gan gynnwys cwrdd â'i ffrindiau, meithrin perthnasoedd, a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddysgu a datblygu.
- Mae presenoldeb ysgol rhagorol yn caniatáu i blentyn ddatblygu fel dysgwr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu trwy gydol ei fywyd.
- Bydd mynd i'r ysgol yn helpu plentyn i fod yn gyfrannwr mentrus a chreadigol, sy'n barod i weithio a byw mewn modd cyflawn, ac yn ei alluogi i aeddfedu fel dinesydd moesegol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.
- Mae plant a phobl ifanc hefyd yn fwy tebygol o ddod yn unigolion iach a hyderus os ydynt yn mynychu'r ysgol, yn barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
- Mae'r Cyngor Sir yn deall bod gan rai plant anghenion cymhleth a rhesymau penodol pam ei bod ar rai adegau yn anodd iddynt fynychu’r ysgol. Gall pob un o'n hysgolion gefnogi plentyn a rhiant/rhieni neu warcheidwaid i fynd i'r afael â'r anawsterau hynny.

Yn Sir Gaerfyrddin, nid yw presenoldeb ysgolion mor uchel eto ag yr oedd cyn COVID. Trwy'r ymgyrch 'Colli Ysgol: Colli Cyfle' bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda rhieni a gwarcheidwaid, ysgolion, athrawon a staff cymorth i wella presenoldeb ysgolion er lles Sir Gaerfyrddin, ein plant a'n pobl ifanc yn y dyfodol.

**Dysgwyr agored i niwed**

Er bod pob ysgol yn cael cefnogaeth i adolygu'r cynnydd a wnaed gan bob disgybl, mae gan y Cyngor systemau cadarn i nodi a mesur y cynnydd a wnaed gan grwpiau penodol o blant. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Yn ystod y flwyddyn, mae gwaith wedi bod yn digwydd i ddatblygu ffordd fwy effeithiol o allu ystyried defnyddio'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed i gynorthwyo i adnabod dysgwyr 'agored i niwed' perthnasol. Mae'r trafodaethau wedi cynnwys uwch-reolwyr ar draws yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant.

Mae'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed yn hanfodol i'r modd mae Sir Gaerfyrddin yn gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Chynnydd Ieuenctid. Ceir Cydlynydd Ymgysylltu a Chynnydd dynodedig sy'n gweithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid e.e. Gyrfa Cymru, ysgolion, a dysgu seiliedig ar waith, er mwyn casglu a gwirio data misol i nodi pobl ifanc 16 i 18 oed perthnasol sydd angen cymorth i gael cyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Bwriad y dull adnabod cynnar hwn yw cefnogi a chynorthwyo dysgwyr a allai gyflwyno ystod o anghenion. Y nod yw gweithio fel partneriaid i geisio mynd i'r afael ag anghenion cymorth (iechyd, teulu, perthnasoedd, presenoldeb, ac ati) i gyflawni canlyniadau mwy ffafriol.

**Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad (TCCY)**

Mae'r Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad wedi meithrin cysylltiadau â'i ysgolion dynodedig, ac mae gan bob un athro arbenigol cyswllt a chynorthwyydd addysgu arbenigol cyswllt. Trwy TAPPAS a chyfarfodydd ymgynghori ar y cyd â'n cydweithwyr Addysg a Seicoleg Plant, mae ysgolion yn cynllunio ac yn nodi'r hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Mae gan ysgolion hefyd fynediad uniongyrchol i drafod anghenion newydd sy'n dod i'r amlwg trwy gydol y flwyddyn. Mae prosesau casglu data a sicrhau ansawdd bellach ar waith. Mae hyn yn caniatáu dadansoddi anghenion hyfforddi a'r galw ar draws y Sir i sicrhau bod y tîm yn gallu cynllunio a darparu hyfforddiant a chymorth, ar ôl ystyried tueddiadau a ddaw i'r amlwg ymlaen llaw. Mae cyngor ac arweiniad am wahardd yn cael ei groesawu gan ysgolion trwy ein Rheolwr Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad Cam 2. Yn ei dro, mae'r rôl hon yn cael cefnogaeth ac arweiniad gan banel newydd o uwch-swyddogion a rheolwyr – y Panel Cyngor ar Wahardd. Maent yn rhoi arweiniad o ran y gwaharddiad ei hun ac yn cefnogi'r opsiynau sydd ar gael i ddiogelu'r rhai sy'n gysylltiedig er mwyn lliniaru unrhyw risg yn y dyfodol. Mae'r Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion ar weithredu Asesiadau Risg Unigol a Chynlluniau Cymorth Bugeiliol.

**Addysg a Llesiant**

Mae'r Tîm Addysg a Llesiant yn sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael mynediad at addysg briodol mewn lleoliad lle maent yn ddiogel, a lle mae eu hanghenion yn cael eu diwallu. Mae'r Tîm wedi rhoi hyfforddiant i 205 o unigolion, gan gynnwys : staff ysgol, llywodraethwyr ysgol, gofalwyr maeth, Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA), a gweithwyr cymdeithasol, i ddatblygu dealltwriaeth o effaith trawma ar ddysgu a rhoi strategaethau ymarferol i gefnogi dysgwyr sy'n Blant sy'n Derbyn Gofal yn yr ysgol. Mae'r tîm yn darparu cymorth wythnosol i ysgolion, gan uwchsgilio a chefnogi staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'n dysgwyr sy'n Derbyn Gofal, i'w helpu gyda strategaethau i ymdopi'n well yn yr ystafell ddosbarth, trefnu eu gwaith, a deall eu hemosiynau. Trwy dymor yr haf, fe wnaethom nodi dysgwyr a fyddai'n pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, a sicrhau bod y plant hyn yn cael ymweliadau ychwanegol, yn cwrdd â staff newydd, ac yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn eu lleoliad newydd. Rydym mewn cysylltiad agos â'r tîm ymadael â gofal ac yn cwrdd yn rheolaidd i rannu gwybodaeth am ein dysgwyr sy'n agosáu at ddiwedd eu haddysg orfodol. Rydym yn sicrhau bod gan bob un ohonynt gynllun unigol a chynorthwyydd personol sy'n cyd-fynd yn dda i'w cefnogi gyda'r camau nesaf yn eu taith ddysgu a gwaith. Mae'r Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion yn cefnogi'r disgyblion i oresgyn rhwystrau pan fydd eu presenoldeb mewn ysgolion yn disgyn o dan 80%. Maent hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r person ifanc, gan drefnu cyfarfodydd rhwng rhieni, y disgybl, a'r ysgol, cefnogi teuluoedd gyda threfniadau a strwythur, a'r cyfan wrth fynd i'r afael â'r pryderon presenoldeb.






**Dysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref**

Mae nifer y plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru wedi tyfu'n sylweddol o 1.6 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2009/10 i 13.0 fesul 1,000 yn 2023/24. Ar hyn o bryd, mae gan Sir Gaerfyrddin 694 o ddysgwyr addysg ddewisol yn y cartref wedi'u cofrestru.

- Mae'r strategaeth 'Addysg Ddewisol yn y Cartref' yn cael ei diweddaru ar hyn o bryd gan y tîm Ysgolion, Myfyrwyr ac Athrawon (SSAT).
- Mae rheidrwydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod disgyblion nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgolion yn derbyn addysg addas, i asesu addasrwydd addysg a ddarperir gan rieni, ac i gydweithio ag adrannau eraill i roi cymorth.
- Mae ymgynghorwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref yn cadw mewn cysylltiad â theuluoedd i sicrhau addysg o safon ac i fynd i'r afael â phryderon. Nid oes dim Gorchmynion Presenoldeb Ysgol wedi'u cyflwyno yn ystod y tair blynedd diwethaf, sy'n dangos cydweithrediad gan deuluoedd.
- Darperir dosbarthiadau ac adnoddau amrywiol i gefnogi dysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref, a ariennir gan Grant Addysg yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau a deunyddiau dysgu i wella profiadau addysgol.
- Mae addysg hyblyg yn caniatáu i blant fynychu'r ysgol yn rhan-amser tra'n cael eu haddysgu gartref. Fodd bynnag, mae'r trefniant hwn yn ôl disgresiwn y pennaeth ac nid yw'n cael ei warantu.
- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau blynyddol i gefnogi ymgynghorwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref ac i gynorthwyo teuluoedd gyda chostau addysgol, gan sicrhau hyblygrwydd i ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref.

## Canlyniad: Cyflwyno cwricwlwm cyflawn sy'n codi safonau addysgol.

**Cwricwlwm**

- Wedi'i gyd-gynllunio gan athrawon a disgyblion, mae cwricwlwm dysgu sy'n seiliedig ar Gwricwlwm Cymru bellach wedi'i sefydlu ledled Sir Gaerfyrddin. Mae profiadau dysgu yn ein hysgolion yn gynhwysol ac yn bwrpasol, ac yn anelu at leihau effaith tlodi.
- Yn fwyfwy, mae profiadau dysgu yn cael eu cysylltu'n bwrpasol â'r gymuned leol, 'ein cynefin', gan sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gyfoethog o'u hardal leol a'u treftadaeth.
- Mae gennym gysylltiadau cryf ers meitin â Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin ac Oriel Myrddin. Mae'r cymorth cydweithredol, trawsadrannol hwn yn cynnwys rhannu gwybodaeth ag ysgolion am raglenni addysg sydd ar ddod a chysylltu'n uniongyrchol â swyddogion addysg yn Amgueddfa Sir Gaerfyrddin ac Archifau Sir Gâr.
- Mae ein hysgolion yn helpu plant a phobl ifanc yn effeithiol i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau, tra'n datblygu eu sgiliau dwyieithog Cymraeg a Saesneg yn effeithiol. Mae ystod eang o brofiadau dysgu yn sicrhau bod ein plant a phobl ifanc yn datblygu eu sgiliau menter a meddwl creadigol, gan sicrhau eu bod yn wybodus am Gymru a'r byd.
- Mae ymgysylltu â phrofiadau a gweithgareddau dysgu yn sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn datblygu fel unigolion hyderus ac iach, gan fwyhau cyfleoedd i ddysgu yn yr ysgol, tu allan, ac yn ein hamgylchedd lleol.
- Mae'r meysydd dysgu a phrofiad yn cynnwys ffocws ar ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; gwyddoniaeth a thechnoleg; mathemateg a rhifedd; celfyddydau mynegiannol; y dyniaethau; ac iechyd a llesiant.

- Mae'r cwricwlwm hefyd yn datblygu gwybodaeth disgyblion am hawliau dynol, perthnasoedd priodol a rhywioldeb, amrywiaeth, a pharchu gwahaniaethau, yn ogystal â darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth am yrfaoedd a'r gweithle.

Mae ysgolion yn cael eu cefnogi i gryfhau eu harferion addysgu a sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu'n effeithiol. O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu yn gadarn neu'n well mewn llawer o ysgolion, gan sicrhau bod cynnydd disgyblion yn unol â disgwyliadau uchel athrawon. Mae cynnydd a safonau disgyblion yn cael eu monitro ar y cyd, ac mae ysgolion yn derbyn cymorth i sicrhau eu bod yn gallu mynd i'r afael â'u blaenoriaethau datblygiadol. Y meysydd ffocws allweddol o hyd yw datblygu sgiliau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a digidol, gan gynnwys sut maent yn defnyddio'r sgiliau hyn ar draws ystod eang o feysydd pwnc. Mae cynnydd disgyblion unigol yn parhau i fod yn ffocws allweddol, gyda chynllunio sy'n canolbwyntio ar y person yn sail i brofiadau dysgu ar draws llawer o ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY ac mewn grwpiau penodol, yn gwneud cynnydd da dros amser wrth ddatblygu sgiliau yn eu blynyddoedd cynnar, mewn rhifedd, llythrennedd, a sgiliau digidol.
Ein blaenoriaethau diwygiedig ar gyfer 2024/25 oedd:

- Cryfhau cynnydd ac ymgysylltiad disgyblion trwy systemau bugeiliol effeithiol, addysgu, a chwricwlwm diddorol, yn enwedig yn y sector uwchradd;
- Datblygu sgiliau arwain ar bob lefel wrth werthuso cynnydd sgiliau disgyblion, ac wrth gynllunio a chyflawni cynnydd disgyblion;
- Datblygiad proffesiynol Athrawon Newydd Gymhwyso, Cynorthwywyr Addysgu, ac arweinwyr y dyfodol;
- Ffocws sylweddol gan y Tîm Gwella Ysgolion ar hunanwerthuso a monitro dysgu proffesiynol.

**Canlyniadau**

Mae'r Tîm Gwella Ysgolion, sy'n cynnwys Ymgynghorwyr Cymorth Addysg ac Ymgynghorwyr Cymorth Addysg Cysylltiol, yn gweithio ochr yn ochr â phenaethiaid, uwch-arweinwyr, athrawon a llywodraethwyr ysgol yn ystod eu prosesau hunanwerthuso. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth gref o gryfderau'r ysgol, meysydd datblygu, ac effaith addysgu ar gynnydd a dysgu disgyblion.






### Crynodeb o Ganlyniadau Estyn 2017-2025

Cyflwynodd Estyn fframwaith arolygu newydd ym mis Mawrth 2022 ac nid yw bellach yn darparu dyfarniadau crynodol ar gyfer meysydd arolygu unigol. Gall arolygwyr barhau i osod ysgol mewn Adolygiad Estyn os ydynt yn barnu y byddai'r ysgol yn elwa o gyfnod byr i wella rhai agweddau ar ei gwaith. Mae'r ddau gategori statudol o gamau dilynol yn parhau heb newid. Dyma pryd mae angen gwelliant sylweddol ar ysgolion neu lle mae angen mesurau arbennig arnynt.

Rydym eisiau lleihau cyfran yr ysgolion sydd angen camau dilynol ar ôl arolygiad Estyn.

| Blwyddyn Academaidd | Nifer yr Arolygiadau | Dim camau dilynol | Adolygiad Estyn[1] | Gwelliant Sylweddol | Mesurau Arbennig |
|---|---|---|---|---|---|
| 2021/22 Ail-ddechrau Arolygiadau Fframwaith Newydd | 13 | 11 | | 1 | 1 |
| 2022/23 | 21 | 17 | 3 | | 1 |
| 2023/24 | 19 | 15 | | 1 | 3 |
| 2024/25 | 10 | 8 | | 1 | 1 |

- Ym mis Mawrth 2022, ailgychwynnodd Estyn arolygiadau ysgolion yn dilyn y pandemig. Mae llawer o'n hysgolion heb fod yn destun unrhyw waith dilynol, a phrin yw'r rhai mewn categori. Bron ym mhob achos, mae canlyniadau Estyn a dealltwriaeth yr adran o gryfderau ysgolion a'r meysydd i'w gwella yn cyd-fynd yn agos.
- Cafodd ysgol ychwanegol ei harolygu ym mis Mawrth 2025, ond ni chyhoeddwyd yr adroddiad tan fis Mai 2025. Nid yw'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn y tabl uchod.
- Nodwyd pedair astudiaeth achos arfer da yn ein harolygiadau rhwng Medi 2024 a Mawrth 2025.
- Bernir bod yr ysgol a roddwyd mewn Gwelliant Sylweddol ym mis Medi 2023 yn gwneud cynnydd da ond mae'n parhau i fod yn y categori oherwydd arweinyddiaeth ansefydlog. Mae'r tri a roddwyd mewn Mesurau Arbennig yn 2023/24 yn parhau i fod yn y categori ond bernir eu bod yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u hargymhellion.

### Cyrhaeddiad

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da dros amser. Mae lefel yr her yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu'n sylweddol fel y gwelir yn y cyd-destun isod. Dyma ganlyniadau data arholiadau 2024.

Cyd-destun:
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim:

| | Sir Gaerfyrddin | Cymru |
|---|---|---|
| **2019 (Cyn y pandemig)** | 16.4% | 16.4% |
| **2024** | 22.5% | 20.3% |

Yn 2024, mae'r lefel prydau ysgol am ddim ar gyfer Sir Gaerfyrddin 6.1 pwynt canran yn uwch na 2019, ond ledled Cymru dim ond 3.9 pwynt canran yw'r cynnydd hwn wedi bod.


**TGAU**

- Yn 2024, mae canlyniadau yn Sir Gaerfyrddin yn uwch na chanlyniadau cenedlaethol Cymru ar raddau A* i C, a dim ond ychydig yn is na'r canlyniadau cenedlaethol ar raddau A* i A.
- A* i C oedd 66.9% o'r graddau yn 2024, sy'n ostyngiad bach o 0.9 pwynt canran o gymharu â 2023. Mae hyn yn llai na'r gostyngiad ledled Cymru o 2.8 pwynt canran. Fodd bynnag, mae canlyniadau A* i C yn is nag yn 2019 (cyn y pandemig).
- Mae 20.2% o'r graddau yn rhai A* i A sydd ond ychydig yn is na 2019 a'r data cenedlaethol cyfredol o 20.6%. Mae hyn yn adlewyrchu'n dda yr her prydau ysgol am ddim ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin.



**Safon Uwch**

- Mae'r graddau ar draws yr holl ddangosyddion wedi gostwng.Mae hyn yn adlewyrchu'r duedd genedlaethol. Mae graddau cenedlaethol yn is nag yn 2023, gan ddychwelyd yn fras i'r hyn oeddent cyn y pandemig. Mae'r canlyniadau ychydig yn is na 2019 (cyn y pandemig), a ddylai fod yn feincnod inni.
- Mae'r gostyngiad mwyaf yn y graddau A* i A, gyda'r gostyngiad ychydig yn uwch na'r gostyngiad cenedlaethol.Mae'r canlyniadau o gymharu â Chymru gyfan ychydig yn is, fel y patrwm a welwyd yn 2019. Fodd bynnag, mae bwlch o 7 pwynt canran rhwng A* ac A, lle mae'n ymddangos bod disgyblion ledled Cymru yn perfformio'n well.
- Mae'r gostyngiad ar raddau A* i C yn is na'r gostyngiad cenedlaethol.
- Yn genedlaethol, nid oedd unrhyw ostyngiad mewn canlyniadau ar raddau A* i E. Yn Sir Gaerfyrddin, roedd y gostyngiad yn 1.1 pwynt canran.



## Canlyniad: Prydau ysgol maethlon am ddim i bob disgybl ysgol gynradd.

Mae ein Gwasanaeth Arlwyo yn gyfrifol am ddarparu prydau ysgol yn holl ysgolion Sir Gaerfyrddin, gan weini tua 25,000 o brydau bob dydd. Rydym yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol gan gynnwys bwyta'n iach, hylendid bwyd, ac alergenau. Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth brecwast am ddim yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd.
Rydym yn cynnig bwydlen sy'n cydymffurfio â rheoliadau Llywodraeth Cymru ac sy'n cyflawni'r radd uchaf sydd ar gael ar gyfer cydymffurfiaeth a chydbwysedd maethol. Caiff bwydlenni eu dadansoddi'n faethol gan ddefnyddio meddalwedd datblygu ryseitiau Saffron.

Rydym yn parhau i weithio gyda rhieni, ysgolion, a rhanddeiliaid allanol i reoli dietau arbennig ac alergeddau. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau gofal unigol i ddisgyblion, cyfarfodydd un-i-un gyda rhieni, a system waith gadarn i sicrhau amgylchedd bwyta iach, diogel. Rydym yn mynd y tu hwnt i'r canllawiau a'r gwaith cyfredol i gynnwys disgyblion nad ydynt yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd yn y grwpiau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhai â hawl i fwydlen deiet arbennig. Er enghraifft, disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, disgyblion â phroblemau synhwyraidd, ac ati.

**Prydau Ysgol am Ddim**

Roedd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ymestyn yr hawl i Brydau Ysgol Am Ddim i bob plentyn ysgol gynradd yn gofyn am gynllunio sylweddol, cyllid a buddsoddiad i adeiladu capasiti a pharatoi i weithredu'r ymrwymiad.




Darperir prydau ysgol ar gyfer ein 97 lleoliad trwy dair cegin gynhyrchu ganolog – 85 o geginau cynhyrchu ynghlwm wrth leoliadau, yn ogystal â danfoniadau rhwng ceginau cynhyrchu, a 15 canolfan fwyta.

Ers Ebrill 2024 cynigiwyd Prydau Ysgol am Ddim i Bob Disgybl Ysgol Gynradd i'r holl ddisgyblion amser llawn yn Sir Gaerfyrddin. Rydym hefyd yn arloesi wrth ddatblygu cadwyni cyflenwi cynaliadwy lleol yng Nghymru.

**Fferm Bremenda Isaf**

Rydym hefyd wedi buddsoddi'n helaeth mewn creu ein model cynhyrchu bwyd ni ein hunain ar un o'n Ffermydd Sirol. Fferm Bremenda Isaf oedd y cyntaf yn y DU lle mae'r Cyngor yn cyflogi'n uniongyrchol staff sy'n gyfrifol am gynhyrchu bwyd ar y plât cyhoeddus. Drwy ddatblygu a lansio Bwydlen Cenedlaethau'r Dyfodol mewn Ysgolion Cynradd, rydym hefyd yn cefnogi Awdurdodau Lleol eraill ledled Cymru. Drwy fwydlen seiliedig ar y tymhorau ac argaeledd cynnyrch Cymreig, bydd gwella'r model hwn yn cynyddu gwytnwch cadwyn gyflenwi leol Sir Gaerfyrddin yn uniongyrchol. Ar yr un pryd, rydym yn gwella ac yn defnyddio ein ffermydd sirol i leihau ein heffaith amgylcheddol wrth gaffael bwyd ac yn cynyddu'r gwerth economaidd a gedwir gan y Cyngor.

Rydym yn edrych ar sut gall Bremenda Isaf fod yn ganolfan arloesi i gefnogi'r system fwyd leol yn Sir Gaerfyrddin – popeth o gynhyrchu bwyd amrywiol i addysg, iechyd a llesiant. Ceisir buddsoddiad ar gyfer y gofynion seilwaith angenrheidiol, ochr yn ochr ag ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid lleol sy'n canolbwyntio ar sut y gellid cyflawni'r model orau.

## Canlyniad: Mwy o addysg ddwyieithog ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Ein gweledigaeth yw sicrhau cynnydd o’r ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, i fyd gwaith neu addysg bellach ac uwch. Rydym yn cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â dynodiadau newydd Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth i ddysgwyr drwy Ganolfannau Iaith gyda darpariaeth benodol ar gyfer hwyrddyfodiaid a thrwy wella safonau. Rydym yn sicrhau bod dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael yr un cyfleoedd ieithyddol â'u cyfoedion. Mae ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) a'n cynllun gweithredu wedi'u trefnu o dan saith prif nod neu ganlyniad:

1. Mwy o blant tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Mwy o blant pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i gam arall.
4. Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau yn y Gymraeg - fel pwnc, a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.
6. Cynnydd yn y ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn unol â'r dyletswyddau a nodwyd gan y ddeddfwriaeth.
7. Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg fel pwnc, ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Categoreiddio Ieithyddol Ysgolion**




Fe wnaethom gydweithio ag ysgolion i'w trosglwyddo i'r system categoreiddio ieithyddol newydd. Yn unol â'r canllawiau, rydym wedi cymryd yr awenau trwy nodi categori sy'n adlewyrchu categori cyfredol pob ysgol orau. Rydym hefyd wedi gosod categori i bob ysgol anelu amdano o fewn 10 mlynedd. Mae ysgolion yn dal i ddatblygu yn unol â'u categoreiddiad Cymraeg wrth baratoi i gyflwyno Bil Addysg a'r Gymraeg.

## Canlyniad: Ysgolion ar gyfer dysgu cymunedol cynaliadwy sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

**Cyflwr Adeiladau Ysgol**

Mae 90% o adeiladau ysgol Sir Gaerfyrddin yn cael eu graddio fel "Da" neu "Foddhaol", o gymharu â 72% yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae hyn oherwydd newid yn meini prawf asesu Llywodraeth Cymru. Rydym bellach yn dilyn methodoleg wrthrychol, gan ddefnyddio proses bwysoli a sgorio. Mae hyn yn rhoi gradd cyflwr cyffredinol gywirach, a gellir cymharu eiddo ar draws yr holl bortffolios. Mae'r fethodoleg newydd hon yn rhoi hyder i ni fod cyflwr adeilad yn briodol. Mae buddsoddiad pellach yn heriol gan fod cost gwella neu adeiladu ysgolion newydd wedi cynyddu'n sylweddol, gan roi mwy o bwysau ar gyllideb gyfalaf gyfyngedig. Bydd yn amhosibl cyflawni holl ddyheadau'r Cyngor.

**Y Rhaglen Moderneiddio Addysg:**

Ar ôl cymeradwyo Strategaeth ddiwygiedig y Rhaglen Moderneiddio Addysg ym mis Tachwedd 2024, rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein hadeiladau ysgol. Ar hyn o bryd mae prosiect 'byw' parhaus gwerth £15m ar waith i ddatblygu mannau addysgu gwyddoniaeth ac ystafelloedd dosbarth newydd, ynghyd â chynllun gwella cyfleusterau chwaraeon cymunedol yn Ysgol Gyfun Bryngwyn, Llanelli. O dan Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru, cymeradwywyd ein Rhaglen Amlinellol Strategol yn ffurfiol ym mis Awst 2024. Mae cyfanswm o £60.9m ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf sy'n cynnwys darpariaeth ADY yn Llanelli, Ysgol Dewi Sant, a darpariaeth addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Cydweli a Llanismel. Rydym hefyd yn defnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru i ddatblygu Canolfan Trochi Iaith ar gyfer y Gymraeg yn Ysgol Gyfun y Strade a phrosiectau amrywiol i wella cyfleusterau cymunedol ar draws rhwydwaith yr ysgolion. Mae'r holl gynlluniau yn cael eu datblygu'n unol â chanllawiau cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u cynllunio i wneud ysgolion mor effeithlon o ran ynni â phosibl.

Ar hyn o bryd rydym yn bwrw ymlaen â sawl cynllun i ddatblygu cyfleusterau chwaraeon cymunedol mewn ysgolion uwchradd. Y bwriad yw cwblhau'r gwaith hwn yn ystod haf 2025. Bydd yr holl gyfleusterau yn yr ysgolion hyn ar gael at ddefnydd cymunedol ehangach, yn ogystal â gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddisgyblion. Cynlluniau pellach i'w datblygu'n unol â'r cyllid grant newydd sydd ar gael yn 2025/26.

Rydym wedi cwblhau adolygiad cynhwysfawr o gyfrifiadau capasiti ysgolion mewn partneriaeth â'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd, er mwyn cyfrannu at y Polisi Derbyniadau newydd ar gyfer 2026/27.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

**Agor adeilad newydd Ysgol Pen-bre yn swyddogol**

Cafodd adeilad newydd Ysgol Pen-bre ei agor yn swyddogol gan Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin, y Cynghorydd Darren Price, mewn seremoni yr oedd plant, athrawon, a staff yr ysgol yn bresennol ynddi ddydd Mercher, 17 Gorffennaf 2024.

Mae'r adeilad ysgol gynradd newydd sbon hwn, a gostiodd £8.25m, wedi'i godi ar dir ger safle'r hen ysgol, ac mae lle i 270 o ddisgyblion cynradd 3-11 oed, a 30 o leoedd meithrin. Cyflawnwyd y cynllun hwn fel rhan o fuddsoddiad B and B Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru a Sir Gaerfyrddin. Adeiladwyd yr adeilad gan gontractwyr lleol, TRJ (Betws) Ltd.

Gan gymryd lle'r hen adeilad, mae'r safle newydd yn cynnwys cyfleuster Dechrau'n Deg (a oedd gynt mewn ystafell ddosbarth symudol ar wahân) o dan yr un to. Mae wedi trawsnewid y ddarpariaeth addysg yn ardal Pen-bre trwy ddarparu cyfleusterau ac adeilad o'r radd flaenaf i ddisgyblion a staff, yn ogystal ag amgylchedd dysgu addas ar gyfer addysg yn yr 21ain ganrif.

Mae'r cyfleuster modern a newydd hwn ar gyfer yr ysgol a chymuned Pen-bre yn cael ei gyflawni dros ddau gam. Y cam cyntaf oedd gweld y plant, yr athrawon a'r staff yn symud i'r ysgol newydd ym mis Chwefror 2024.

Mae'r gwaith ar yr ail gam yn mynd yn dda, lle dymchwelir hen adeilad yr ysgol i greu cae chwaraeon at ddefnydd cymunedol, ardal gemau amlddefnydd (MUGA), ysgol goedwig ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, a gwaith tirlunio a seilwaith cysylltiedig.



Ar ôl ei gwblhau, bydd y cae chwaraeon newydd yn cael ei drosglwyddo i ddwylo Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn, yn lle'r cyfleusterau cymunedol a gollwyd ar y tir lle mae'r ysgol newydd. Bydd y cae yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol yn ystod oriau ysgol ac ar gael i'r gymuned y tu allan i'r oriau hyn.

## Sut gallwn ni wneud yn well?

Mae ein ffocws yn parhau i fod ar gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy weithredu diwygiadau ADY yn llawn ac adolygu trefniadau trafnidiaeth i sicrhau mynediad teg. Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i fynd i'r afael â diffygion ariannol, cryfhau llywodraethu, a datblygu ein Rhaglen Moderneiddio Addysg, gan gynnwys prosiectau cyfalaf, adolygiadau ysgolion, a chynigion i newid ystod oedran sawl ysgol gynradd. Mae gwella presenoldeb a chefnogi disgyblion sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth, fel y mae diweddaru ein hymagwedd at Addysg Ddewisol yn y Cartref. Byddwn hefyd yn annog ysgolion i hunanwerthuso eu Hymagwedd Ysgol Gyfan at Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl, gan nodi cryfderau a gosod camau gweithredu ar gyfer gwella.

# Amcan Llesiant 2

## Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda)

**Trosolwg o'r cynnydd**

Mae patrwm demograffig Sir Gaerfyrddin yn newid mewn modd cadarnhaol. Mae pobl yn byw'n hirach oherwydd datblygiadau mewn gofal iechyd a gwelliant cyffredinol mewn safonau byw. O gofio hynny, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda.

Er bod incwm wythnosol gros yn parhau i wella, credir bod tua 30% o aelwydydd yn byw mewn tlodi, ac mae'r costau byw cynyddol yn parhau i fod yn bryder i lawer o bobl ein sir. Mewn ymateb i hyn, mae gwaith y Grŵp Ymgynghorol Trechu Tlodi yn parhau ar gyflymder, gyda'n Cynllun Trechu Tlodi yn llywio'r gweithgarwch. Aed i ymdrech fawr i sicrhau bod preswylwyr yn gallu cael mynediad at y cymorth mae hawl ganddynt iddo drwy ein canolfannau Hwb a gwasanaeth Hwb Fach y Wlad.

Yn fwyfwy mae argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da, yn ogystal â chynnal buddsoddiad parhaus mewn tai presennol, yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae mynediad at dai addas i'r diben yn hyrwyddo iechyd a llesiant ac yn sylfaen i well safonau byw. Mae ffocws ar gaffael eiddo sector preifat, ailddefnyddio cartrefi gwag, a datblygu tai newydd wedi golygu bod 361 o gartrefi ychwanegol wedi'u hychwanegu at y stoc dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cynnydd da wedi'i wneud yn yr ymdrechion i ddatgarboneiddio'r stoc dai bresennol, sy'n lleihau allyriadau carbon a thlodi tanwydd.

Mae disgwyliad oes iach yn y Sir wedi gostwng yn achos dynion (59.2 mlynedd) a menywod (57.9 mlynedd). Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau yn y dyfodol. I gydnabod hyn, rydym yn parhau â'n hymdrechion o ran ymyrraeth gynnar ac atal, sydd wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn derbyniadau i'r ysbyty, gwell canlyniadau iechyd, ac arosiadau byrrach yn yr ysbyty. Mae hyn yn galluogi unigolion i ddychwelyd adref yn gynt gyda'r cymorth cywir ar waith. Mae lleihau dibyniaeth ar ofal preswyl yn flaenoriaeth allweddol, ac mae ffocws cryf ar ehangu opsiynau byw â chymorth sy'n hyrwyddo annibyniaeth.

Mae llu o fentrau iechyd a llesiant ar gael i'n preswylwyr, gan ganolbwyntio ar gynyddu hygyrchedd a sicrhau bod ein cynnig yn diwallu anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaeth. Mae mentrau iechyd a llesiant yn parhau i gael eu cyflwyno mewn ffyrdd arloesol i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at fentrau ataliol. Mae nifer y preswylwyr yn Sir Gaerfyrddin sydd â dau ymddygiad iach neu fwy o ran eu ffordd o fyw yn parhau i gynyddu. Mae'r ymddygiadau hyn yn lleihau'n sylweddol y risg o glefydau cronig fel clefyd y galon, diabetes, a rhai canserau, ac yn cynyddu disgwyliad oes unigolion. Yn ei dro, dylai hyn leihau'r galw ar ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

I gydnabod bod iechyd meddwl yn bryder cynyddol ac yn flaenoriaeth i bob un ohonom, mae'r gwasanaeth llesiant iechyd meddwl yn darparu cymorth ymyrraeth gynnar ac atal hanfodol. Mae cymorth iechyd meddwl hefyd yn cael ei ystyried trwy fentrau chwaraeon a llesiant, o ystyried pa mor bwysig yw cynnal a gwella iechyd meddwl.




## Yn Gryno

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cymryd camau sylweddol i drechu tlodi trwy ystod eang o fentrau wedi'u targedu:

- Cyrhaeddodd prosiect Lleoedd Actif dros 117,000 o bobl gyda rhaglenni iechyd a llesiant cynhwysol, gan gynnwys cymorth i iechyd meddwl, oedolion hŷn, a'r digartref.
- Canolbwyntiodd y Panel Ymgynghorol Trechu Tlodi ar ymgyrchoedd cymorth gaeaf ac ymwybyddiaeth o fudd-daliadau.
- Datblygodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin y fenter 'Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif' (MECC), gan hyrwyddo iechyd a llesiant trwy ryngweithiadau bob dydd a hyfforddiant cydgysylltiedig.
- Helpodd ymgynghorwyr Hwb bron 6,000 o breswylwyr i hawlio dros £7.5m mewn budd-daliadau. Yn ogystal, sicrhaodd gwaith refeniw rhagweithiol y Cyngor fod teuluoedd yn cael mynediad at gymorth ariannol hanfodol, gan gynnwys Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai a grantiau atal digartrefedd.
- Cefnogodd y Tîm Cyn-Lety dros 750 o denantiaid newydd, gan sicrhau dros £730,000 mewn cynilion, ac estyn cefnogaeth i'r sector rhentu preifat trwy hyfforddiant wedi'i dargedu a mynediad at fudd-daliadau.
- Aethpwyd ati i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi trwy ôl-osod, inswleiddio a gosodiadau ynni adnewyddadwy, tra bo'r cynllun ECO Flex wedi gwella gwresogi ac inswleiddio yn achos cannoedd o gartrefi.
- Bu timau caffael a datblygu economaidd yn ymgysylltu â busnesau lleol trwy gymorthfeydd a digwyddiadau, gan wella mynediad at gontractau'r sector cyhoeddus.
- Mae prentisiaethau a rhaglenni cyflogadwyedd fel Fit2Employ yn rhoi sgiliau a llwybrau gyrfa i bobl ifanc.
- Ehangodd Dysgu Oedolion yn y Gymuned fynediad at sgiliau hanfodol ac addysg ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill), gydag Estyn yn nodi cynnydd cryf.
- Roedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi cefnogi miloedd o ran hyfforddiant a chymwysterau, tra bo'r Rhwydwaith Heneiddio'n Dda wedi hwyluso cais Sir Gaerfyrddin i fenter Cymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).
- Darparodd Hwb Fach y Wlad wasanaethau gwledig hanfodol, a gwellodd Theatrau Sir Gâr fynediad diwylliannol drwy gynlluniau tocynnau gostyngol.
- Er gwaethaf gostyngiad bach mewn llwyddo i atal digartrefedd, cyflwynwyd strategaethau ymyrraeth gynnar newydd ac ymdrechion i ymgysylltu â landlordiaid. Fe wnaethom hefyd ddod â 239 o gartrefi gwag yn ôl i ddefnydd a sicrhau cyllid sylweddol ar gyfer gwelliannau safle Sipsiwn a Theithwyr.
- Cefnogodd y cynllun peilot 'Fy Lle Diogel' (My Safe Place) oroeswyr cam-drin domestig drwy wneud gwelliannau diogelwch i'w cartrefi, ac fe wnaeth rhaglen Wallich gyfuno ffitrwydd ac addysg i gefnogi unigolion sy'n ddigartref. Mae'r cyd-ymdrechion hyn yn adlewyrchu dull cynhwysfawr, cymunedol o leihau tlodi a chefnogi preswylwyr agored i niwed ledled y Sir.

## Sut ydyn ni'n gwneud?

- Mae 30.7% o holl aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi. Mae hyn yn cyfateb i tua 25,800 o aelwydydd. Mae hyn yn ostyngiad ers y llynedd (34.6%) sy'n adlewyrchu tueddiadau a welwyd yn genedlaethol.
- Bu cynnydd sylweddol pellach yn yr Enillion Wythnosol Gros cyfartalog yn Sir Gaerfyrddin, o £617.80 (2022) i £664.20 (2023) i £700.00 (2024). Gyda'r 6ed ffigwr uchaf yng Nghymru, mae ffigurau Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn uwch na Chymru (£684.40) ond yn parhau i fod yn is na'r DU (£728.3).
- Dangosodd ein harolwg preswylwyr 2024 fod cytundeb cyffredinol â'r datganiad; 'Mae tlodi yn broblem yn fy ardal i'.




## Cynnydd yn erbyn Canlyniadau

### Canlyniad: Help a chefnogaeth i liniaru effeithiau'r argyfwng 'costau byw' a thlodi yn y Sir.

**Prosiect Lleoedd Actif**

Wedi'i ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, fe wnaeth prosiect Lleoedd Actif roi hwb i iechyd a llesiant yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig drwy ehangu mynediad at weithgarwch corfforol a rhaglenni cynhwysol. Roedd mentrau allweddol yn cynnwys Symudiad Meddylgar ar gyfer iechyd meddwl, mynediad i'r gampfa i'r digartref, Motiview i oedolion hŷn, a ffitrwydd sy'n pontio'r cenedlaethau. Trwy welliannau digidol cynhaliwyd dosbarthiadau rhithwir, a bu i bartneriaethau fynd i'r afael ag unigrwydd a dementia. Gan gyrraedd dros 117,000 o bobl, creodd y prosiect 13 menter a gosod sylfaen ar gyfer rhaglenni iechyd cynaliadwy, cynhwysol ar draws llawer o ardaloedd difreintiedig y Sir.

**Y Panel Ymgynghorol ynghylch Trechu Tlodi**

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod prysur a chynhyrchiol i'r Panel Ymgynghorol ynghylch Trechu Tlodi, a fu wrthi'n ddiwyd yn cefnogi preswylwyr ar draws Sir Gaerfyrddin drwy ystod o fentrau.

Mae mynd i'r afael â'r heriau sy'n ymwneud â thaliadau tanwydd y gaeaf, mannau cynnes, a chanolfannau cymunedol wedi bod yn ffocws allweddol, gan sicrhau bod gan breswylwyr amgylcheddau diogel, cefnogol yn ystod y misoedd oerach. Mae'r Panel wedi gweithio'n agos gyda gwasanaethau Hwb a Hwb Fach y Wlad y Cyngor, yn ogystal â chefnogi ymgyrchoedd ymwybyddiaeth fel 'Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi', sy'n rhoi gwybod i bobl am y budd-daliadau a'r hawliadau sydd ar gael iddynt. Mae ein partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi bod yn ddefnyddiol iawn, gyda chyflwyniadau i'r Panel yn gwella dealltwriaeth aelodau o Gredyd Cynhwysol a'u galluogi i gefnogi pobl yn well. Ar yr un pryd, mae Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi y Cyngor wedi'i adolygu a'i ddiweddaru'n llawn i adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu cyfredol.

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin**

Sefydlodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif a'r gwasanaethau Hwb fel rhan o'i Amcan Llesiant i fynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau. Canolbwyntiodd y grŵp ar:

- gwerthuso cyfleoedd a heriau Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif ar draws sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus,
- ymchwilio i'r cyfleoedd a'r rhwystrau ynghylch cyngor a chefnogi darpariaeth,
- deall y materion allweddol sy'n wynebu preswylwyr a chymunedau, yn enwedig y rhai sy'n delio ag anfanteision economaidd-gymdeithasol a grwpiau gwarchodedig,
- adolygu sut mae gwahanol sefydliadau'n trechu tlodi a'u cynlluniau gweithredu.

Mae Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif yn defnyddio rhyngweithiadau bob dydd i gefnogi newidiadau cadarnhaol mewn iechyd corfforol a meddyliol trwy rannu awgrymiadau am ffyrdd iach o fyw yn ystod sgyrsiau dyddiol yn y gwaith neu yn y gymuned. Mae'n grymuso staff, yn enwedig mewn gwasanaethau iechyd a sefydliadau partner, i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chefnogi newid ymddygiad. Nid yn unig ar gyfer cleientiaid neu gleifion, ond hefyd ar gyfer ffrindiau, teuluoedd a chydweithwyr.

Cytunodd aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu presenoldeb ar y cyd ar y we i sicrhau bod gwasanaethau cymorth a chyngor a ddarperir ar draws sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu hyrwyddo a'u cydlynu, a bod staff rheng flaen allweddol o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu hannog i gwblhau'r hyfforddiant Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif Lefel 1 (e-ddysgu).

**Cymorth a Chyngor**

Yn ystod y 18 mis diwethaf mae tîm penodol o ymgynghorwyr Hwb wedi helpu 5,745 o bobl, a gafodd eu cyfeirio i'w wasanaeth, i hawlio dros £7.5m mewn taliadau cymorth a budd-daliadau. Mae ymgynghorwyr Hwb wedi cefnogi ceisiadau am nifer o gynlluniau cymorth gan y Cyngor a thrydydd partïon. Ymhlith y rhain mae bathodynnau glas ar gyfer parcio i bobl anabl, gostyngiadau ar y dreth gyngor, taliadau annibyniaeth personol, a grantiau i helpu rhieni i brynu hanfodion ysgol, fel gwisg ysgol.

Yn ogystal â chefnogi'r preswylwyr sy'n cael eu cyfeirio i'n hymgynghorwyr, mae'r Cyngor hefyd wedi darparu ar gyfer bron i 90,000 o ymweliadau gan bobl sydd am gyngor yn ein tair prif ganolfan Hwb yng Nghaerfyrddin, Rhydaman, a Llanelli; cymorthfeydd Hwb Bach y Wlad; a digwyddiadau penodol.

**Gwaith Rhagweithiol Refeniw ar gyfer rhai mewn Tlodi**

Rydym yn cefnogi teuluoedd i hawlio'r holl gymorth ariannol mae hawl gyda nhw iddo ac rydym yn mynd ati i ganfod y wybodaeth sydd ei hangen i brosesu hawliadau Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor mor effeithlon ag sy'n bosibl. Rydym hefyd yn hyrwyddo Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai, gan weithio'n agos gyda'r Adran Tai a Chymdeithasau Tai i annog pobl i fanteisio arnynt. Dyrannwyd £31,000 ychwanegol i gronfa'r Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai ar gyfer 2024/25.

Rydym yn sicrhau bod cyfeirio ac atgyfeirio priodol yn digwydd fel y gall teuluoedd gael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mewn cydweithrediad â'r tîm Tai, rydym yn gwneud atgyfeiriadau amserol ar gyfer ceisiadau i'r Grant Atal Digartrefedd—cynllun dewisol a weinyddir gan y tîm Tai.

Mae ein Swyddog Cyllidebu Personol yn darparu cymorth uniongyrchol i unigolion sy'n wynebu caledi ariannol. Mae hyn yn cynnwys ymgyrchoedd wedi'u hanelu at breswylwyr a allai fod yn ei chael hi'n anodd, yn seiliedig ar eu hanes talu. Rydym yn cynnal partneriaethau cryf gyda chydweithwyr yn y canolfannau Hwb a'r trydydd sector i gyfeirio cwsmeriaid at wasanaethau priodol fel banciau bwyd, elusennau dyled, a'r Gronfa Cymorth Dewisol.

Rydym yn cadw at Gynllun 'Breathing Space' y DU ac yn gweithio gyda chwsmeriaid i sefydlu trefniadau talu fforddiadwy a chynaliadwy ar gyfer ôl-ddyledion y Dreth Gyngor, yn unol â Phrotocol y Dreth Gyngor Llywodraeth Cymru.

**Caffael**

Mae caffael wedi cefnogi cydweithwyr yn datblygu economaidd i benodi cyflenwr ar gyfer cynhyrchion urddas mislif. Mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar drefniant tymor hwy ar gyfer gwasanaeth tanysgrifio a chynhyrchion am ddim mewn ysgolion, ac, o bosibl, lleoliadau eraill ledled y sir.

**Cymorth cyn-llety**

Roedd rhan hanfodol gan y Tîm Cyn-Llety o ran cynnal tenantiaethau a sicrhau bod tenantiaid yn cael yr holl yr oedd hawl ganddynt eu hawlio. Yn ystod 2024/25, cefnogodd y tîm 751 o denantiaid newydd ar draws gwahanol ddeiliadaethau, gan eu helpu i sicrhau cyfanswm o £731,063 mewn arbedion wedi'u cefnogi drwy fwyhau incwm, grantiau a hawl i fudd-daliadau.

Rhoddodd staff gymorth uniongyrchol gyda manteisio i'r eithaf ar incwm a chwblhau nifer o geisiadau am fudd-daliadau a gafodd effaith ariannol sylweddol ar denantiaid. Fel partneriaid dibynadwy Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru, trefnodd y tîm grantiau ar gyfer nwyddau gwyn, tanwydd oddi ar y grid, a Thaliadau Cymorth Brys a ddaeth i gyfanswm o £145,668. Yn ogystal, fel aseswyr gwiriedig ar gyfer Dŵr Cymru, rydym wedi galluogi aelwydydd cymwys i gael ardrethi dŵr gostyngol a ddaeth i gyfanswm o £70,106.

Ymestynnwyd cymorth hefyd i'r Sector Rhentu Preifat, lle cynhaliwyd 97 o denantiaethau drwy gyllid y Grant Cymorth Tai.

Mae gan Swyddogion Cymorth Rhentu Preifat slotiau penodedig mewn Canolfannau Gwaith, sy'n derbyn atgyfeiriadau gan unigolion sy'n hawlio am Gredyd Cynhwysol ac sydd â chostau tai, gan ddarparu cymorth iddynt i'w hatal rhag mynd i drafferthion ariannol. Fe wnaethom ddarparu hyfforddiant penodol i:

- 31 o bobl ifanc agored i niwed sy'n wynebu risg
- 28 o bobl mewn llety dros dro.
- 8 o bobl ifanc agored i niwed sydd mewn llety dros dro neu lety a rennir
- 28 o aelwydydd o atgyfeiriadau gan y Porth, Ymgynghorwyr Dewisiadau Tai, neu asiantaethau eraill.

Yn ogystal darparwyd hyfforddiant parodrwydd i gynnal cartref mewn ysgolion, gan gyrraedd dros 1,000 o ddisgyblion o Ysgol Maes y Gwendraeth, Ysgol y Strade, Ysgol Bro Myrddin, a chynlluniau mynediad ieuenctid.

Darparwyd cymorth hefyd i 1,603 o ymgeiswyr â dyletswydd ddigartref, gan eu galluogi i ddefnyddio'r system a chael llety sefydlog.

Llwyddodd y Tîm Rhaglenni Cynlluniedig Tai i becynnu a chyflawni ystod o brosiectau adeiladu mawr gyda'r nod o wella cadernid strwythurol a lefelau perfformiad ynni ar draws cannoedd o eiddo. Yn ogystal â chyfrannu at welliannau i effeithlonrwydd ynni, mae'r mentrau hyn hefyd wedi cefnogi datblygu cynaliadwy ar draws y rhanbarth. Mae'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Cwblhau gwaith ôl-osod manwl dan y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio gydag adnewyddiadau cyflawn, gan wella effeithlonrwydd ynni'n sylweddol mewn 15 eiddo a gosod meincnod ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.
- Gosod Deunydd Inswleiddio Waliau Allanol (EWI) a gwelliannau cysylltiedig ar 50 eiddo, gan leihau'r gwres a gollir a gwella cysurwch i breswylwyr.
- Ail-doi a gosod systemau ffotofoltäig (PV) ar dros 120 eiddo ledled y sir, gan gyfuno gwelliannau i adeiladau ag atebion ynni adnewyddadwy er mwyn lleihau ôl troed carbon.

### Cynllun ECO Flex

Mae'r cynllun ECO Flex yng Nghymru (ECO4 Flex) yn fenter gan y llywodraeth ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni yn nhai'r sector preifat. Y nod yw helpu i leihau tlodi tanwydd, yn enwedig ar gyfer aelwydydd incwm isel a bregus. Mewn partneriaeth â Chymru Gynnes, rydym wedi cyflawni 641 o gynlluniau ECO Flex, gan greu £110,000 o incwm ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r cynlluniau hyn wedi cefnogi gwelliannau o ran inswleiddio a gwresogi mewn cartrefi preifat a rhent, gan wella amodau byw a lleihau costau ynni i breswylwyr. Disgwylir y bydd oddeutu 900 eiddo yn elwa ar y Cynllun ECO4, gyda thua £16m yn cael ei fuddsoddi yn nhai'r sector preifat.

## Canlyniad: Caiff pobl eu cynorthwyo i fanteisio ar gyfleoedd lleol boed hynny trwy ddechrau busnes, ennill cymwysterau neu gael gwaith ystyrlon.

### Cymorthfeydd Caffael a Busnes

Ymgysylltodd Timau Caffael a Datblygu Economaidd y Cyngor â mentrau bach a chanolig (BBaChau) lleol a sefydliadau'r trydydd sector drwy fenter ymgysylltu â chyflenwyr - Cymorthfeydd Caffael a Busnes ledled Sir Gaerfyrddin. Roedd cysylltiad rhwng y Gymhorthfa Ymgysylltu â Chyflenwyr a Menter Datblygu Economaidd "Deg Tref" y Cyngor sy'n anelu at gefnogi adferiad economaidd trefi gwledig ar draws y sir.

Pwrpas y cymorthfeydd yw cynnig cyngor caffael proffesiynol, arweiniad, a chymorth i fusnesau/sefydliadau sydd â diddordeb ynghylch cyllid, hyfforddiant, prosiectau a mentrau cymorth busnes, ac opsiynau atgyfeirio i bartneriaid. Nod y sesiynau hyn yw sicrhau bod cyflenwyr yn gallu cystadlu am unrhyw fusnes posibl i wella eu masnachu. Trwy ddatblygu cyswllt caffael rhwng swyddogion perthnasol y Cyngor a chontractwyr, cyflenwyr a darparwyr, gallwn wneud cyflwyniadau perthnasol, gan ddod â darpar brynwyr a gwerthwyr at ei gilydd.

Yn 2024/25, cynhaliwyd y Cymorthfeydd ym mis Mai, Mehefin a Gorffennaf gan ddilyn llwyddiant y cymorthfeydd gynhaliwyd tua diwedd 2023/24 ym mhrif drefi Caerfyrddin a Llanelli. Cynhaliwyd y cymorthfeydd yn 2024/25 yn nhrefi llai, mwy gwledig Cydweli, Llandeilo a Llanymddyfri ac aeth 22 o fusnesau i’r tair cymhorthfa wledig.

### Datblygu Economaidd

Parhaodd y tîm Datblygu Economaidd i gefnogi'r Uned Caffael Corfforaethol a gwahanol wasanaethau i godi ymwybyddiaeth o'n tendrau / contractau ymhlith y gymuned fusnes. Cysylltir trwy e-bost, ein cylchlythyr busnes a galwadau ffôn achlysurol. Mae contractau diweddar yn cynnwys contract sylweddol Gwaith Eiddo lle ymgysylltodd y tîm busnes â'r dwsinau o fusnesau y dyfarnwyd contractau iddynt. Mae astudiaethau achos i'w llunio o'r canlyniadau cadarnhaol.

Rydym yn parhau i weithio ar ymarferion tendro yn y dyfodol i'w hyrwyddo i fusnesau lleol a allai fod â diddordeb. Rydym hefyd yn rhannu ein rhaglen waith bob chwarter i nodi cyfleoedd pellach i hyrwyddo'r cyfleoedd hyn i fusnesau Sir Gaerfyrddin.

**Rhaglen Fit2Employ – Llanelli a Chaerfyrddin**

Roedd y rhaglen Fit2Employ, a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Chymunedau am Waith a Mwy, yn cefnogi pobl ifanc yn Llanelli a Chaerfyrddin i ennill sgiliau ymarferol ac archwilio llwybrau gyrfa. Derbyniodd y cyfranogwyr hyfforddiant mewn Rygbi TAG a Chymorth Cyntaf, gan wirfoddoli mewn digwyddiadau lleol a chymryd rhan mewn taith 'Byd Gwaith' yng Nghanolfan Hamdden Llanelli. Mae'r profiadau hyn wedi helpu i adeiladu hyder, datblygu sgiliau cyflogadwyedd, a chynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwaith lleol. Mae dau gyfranogwr bellach yn dilyn cymwysterau yn y diwydiant hamdden, gyda chefnogaeth barhaus i helpu eraill i gael mynediad at wirfoddoli, hyfforddiant a chyflogaeth - gan eu grymuso i fanteisio ar gyfleoedd gyrfa yn y dyfodol.

## Canlyniad: Gwell cyfleoedd i'r holl breswylwyr wella eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol er mwyn cael swyddi.

**Adolygiad Ôl-16**

Rydym wedi cwblhau adolygiad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar draws y Sir sydd wedi symud i gam cynllunio gweithredol cadarnhaol iawn. Rydym yn y broses o wireddu'r argymhelliad i ddatblygu cydweithio seiliedig ar glwstwr ar draws ein chweched dosbarth. Byddwn yn parhau ag ymagwedd gyfannol at ddatblygu profiadau gan gynnwys gyrfaoedd, ac ymgysylltu gwleidyddol lleol a byd-eang.

**Dysgu Oedolion yn y Gymuned**

Yn dilyn yr arolygiad llwyddiannus o'r ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned ym mis Tachwedd 2023, dychwelodd Estyn ym mis Rhagfyr 2024 i adolygu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ddau argymhelliad. Daeth Estyn i'r casgliad canlynol:

> *'Mae'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn Sir Gaerfyrddin wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ei gweithdrefnau a'i harferion strategol yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Tachwedd 2023. Mae wedi sefydlu grŵp strategol, sy'n cynnwys aelodau partneriaeth craidd o'r awdurdod lleol, Coleg Sir Gâr, y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol a Gyrfa Cymru. O fewn yr awdurdod lleol, mae dysgu oedolion yn y gymuned yn rhan o'r gyfarwyddiaeth addysg, sy'n ei alluogi i gael ei weld fel rhan werthfawr a hanfodol o'r continwwm dysgu gydol oes.'*

Yn ogystal, canfu Estyn fod cyfathrebu gwell ar y wefan yn darparu porth 'hawdd ei ddefnyddio' i ddarpar ddysgwyr, gan alluogi mynediad clir i'r ystod o gyfleoedd dysgu sydd ar gael.
Nodwyd bod yr arsylwadau ar y cyd o ddarpariaeth ddysgu ar draws y bartneriaeth yn fuddiol, gan sicrhau disgwyliadau uchel. Hefyd nodwyd bod y cynnydd cadarn mewn perthynas â datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg a rhaglenni dysgu fel teulu yn hynod ddefnyddiol.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu ar draws y Sir gan gefnogi dysgu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill o ystod o gefndiroedd gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn ogystal â dysgwyr sy'n gwella eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae carfan o Blant Digwmni sy'n Ceisio Lloches yn astudio ar un o'n pum cwrs amser llawn. Mae dysgwyr ar raglenni llythrennedd a rhifedd yn astudio hyd at lefel TGAU a gallant gymryd cymwysterau eraill sy'n briodol i'w lefel.

Mae amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer sgiliau digidol yn parhau i gael eu cynnig gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cynaliadwyedd (e.e. defnyddio Vinted) ac ar gyfer llesiant (e.e. gweithio gyda MIND). Mae dosbarthiadau ymgysylltu sy'n defnyddio crefftau yn parhau i fod yn boblogaidd eleni ac maent bellach ar gael yn ddwyieithog. Cydweithiodd y gwasanaeth â'r tîm Herio ar waddol a phontio, gan gynnwys diwrnodau agored ac ymweliadau â dosbarthiadau Herio i annog dysgwyr i symud ymlaen i ddosbarthiadau dysgu oedolion.


Un prosiect arwyddocaol yw'r prosiect Dysgu fel Teulu/Rhif Cryf, sy'n defnyddio gweithgareddau ac adnoddau gwaddol Herio i weithio gyda rhieni a chynorthwywyr addysgu mewn ysgolion. Mae'r tîm sgiliau hanfodol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn hyrwyddo'r gwasanaeth drwy'r Canolfannau Hwb, Hwb Bach y Wlad, diwrnodau agored a chyfarfodydd cymunedol, diwrnodau agored y coleg, a chyfleoedd rhwydweithio fel y Digwyddiad Cymorth Niwroamrywiaeth.

Mae Llysgenhadon Dysgwyr Newydd yn ymgymryd â hyfforddiant ac yn cymryd rhan yn y bartneriaeth strategol. Mae casglu a gweithredu ar lais y dysgwr yn flaenoriaeth uchel i'r gwasanaeth o ran darparu darpariaeth i ymgysylltu â dysgwyr newydd ac ar gyfer cyfleoedd priodol i wneud cynnydd. Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd i gyfeirio dysgwyr rhwng partneriaid er mwyn gwneud cynnydd ac er mwyn tynnu sylw at yr holl ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr ledled y Sir.

Mae gan ddysgwyr ar gyrsiau'r Cyngor fynediad at gyngor am yrfaoedd, Cymunedau am Waith a Mwy a Gweithffyrdd ar gyfer paratoi at gyflogaeth achymorth.

**Y Gronfa Ffyniant Gyffredin**

Yn 2024/25, mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi cyfrannu drwy gefnogi preswylwyr Sir Gaerfyrddin yn y ffyrdd canlynol:



## Canlyniad: Cydnabod a cheisio cyfyngu ar y rhwystrau anghymesur y mae grwpiau ymylol yn eu hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau a chymorth sy’n caniatáu iddynt fyw a heneiddio’n dda.

**Rhwydwaith Heneiddio'n Dda**

Nod menter Cymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yw creu amgylcheddau sy'n cefnogi heneiddio'n iach ac yn egnïol. Mae hyn yn cynnwys gwneud dinasoedd a chymunedau'n fwy cynhwysol a hygyrch i oedolion hŷn, gan sicrhau eu bod yn gallu byw'n ddiogel, mwynhau iechyd da, a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

Gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, mae ein Swyddog Polisi Cymunedau Oed-gyfeillgar wedi bod yn gweithio i gwblhau'r strategaeth a'r cynllun gweithredu a fydd yn rhan o'r cais i ennill aelodaeth i Rwydwaith Byd-eang Dinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd yn ystod 2025/26. Mae ein rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys tua 1,200 o aelodau Rhwydwaith Heneiddio'n Dda Sir Gaerfyrddin, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, ac eraill yr ydym wedi ymgysylltu â nhw drwy amrywiol ddigwyddiadau ac ymgynghoriadau.

**Hwb Bach y Wlad**

Ers ei lansio ym Medi 2023, mae Hwb Bach y Wlad wedi rhagori ar ddisgwyliadau gan gefnogi dros 11,646 o gwsmeriaid a chynnal mwy na 484 o ymweliadau cymunedol ar draws Sir Gaerfyrddin. Mae'r prosiect wedi rhoi cymorth hanfodol i gymunedau gwledig, gan gynnig ystod eang o wasanaethau sydd wedi cael effaith fawr ar fywydau ei gwsmeriaid.
Mae'r prosiect yn cynnig gwasanaethau allweddol megis budd-daliadau tai, cymorth gyda'r dreth gyngor, gwybodaeth am wastraff ac ailgylchu, ymholiadau mewn perthynas â thai, cymorth safonau masnach, ac adnoddau cyflogadwyedd.

Yn ogystal, mae Hwb Bach y Wlad wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy ei raglen "Hawliwch yr Hyn sy’n Ddyledus i Chi", gan helpu unigolion i ddeall a hawlio eu buddion ariannol a llesiant. Y tu hwnt i hyn, mae'r tîm wedi trefnu parseli bwyd brys, trafnidiaeth ar gyfer apwyntiadau meddygol, a chymorth hanfodol yn ystod argyfyngau iechyd meddwl ac ansicrwydd ynghylch tŷ. Mae'r dull hwn sydd wedi'i deilwra wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod pob cwsmer yn cael y cymorth penodol sydd ei angen arnynt.

Un o brif ysgogwyr llwyddiant y prosiect fu ei gydweithrediad agos ag ystod eang o bartneriaid lleol a chenedlaethol. Gan weithio ochr yn ochr â nifer o sefydliadau partner, mae Hwb Bach y Wlad wedi gallu cynnig pecyn gofal cynhwysfawr i'r rhai mewn angen. Mae ymweliadau rheolaidd â hybiau cymunedol fel banciau bwyd, canolfannau hamdden a martau ffermwyr lleol wedi gwneud y gwasanaethau hyn yn hygyrch iawn.









**Theatrau Sir Gâr**

Mae Theatrau Sir Gâr yn gweithio gyda dros 50 o sefydliadau lleol ledled Sir Gaerfyrddin i wneud y theatr yn fwy hygyrch i unigolion a allai wynebu rhwystrau i fynychu. Boed y rheiny'n rhai ariannol, corfforol, cysylltiedig ag iechyd meddwl, neu oherwydd canfyddiad nad yw theatr ar eu cyfer nhw.

Yn allweddol i'r ymdrech hon mae'r Cynllun Tocynnau Cymunedol, sy'n cynnig tocynnau gostyngol am £5.50 yn unig, beth bynnag fo'r pris gwreiddiol, ar gyfer 20 sioe bob dau fis. Ers ei lansio ym mis Tachwedd, mae dros 500 o docynnau wedi'u prynu'n rhan o'r cynllun, ac mae'r adborth gan y gymuned wedi bod yn hynod gadarnhaol.



## Canlyniad: Lleihau digartrefedd a gweithio tuag at ddod ag ef i ben.

**Atal Digartrefedd**

Roedd dirywiad yng nghanran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref yn ystod 2024/25 gyda 69.1%. Mae hyn yn llai o gymharu â 72.1% yn 2023/24 ond mae'n parhau i fod yn uwch na chyfradd Cymru am 2023/24 o 57.9%.

Yn ystod 2024/25 roedd heriau sylweddol, yn enwedig wrth ddatrys perthnasoedd oedd yn chwalu ac atal digartrefedd yn y sector rhentu preifat. Mae'r materion hyn wedi tynnu sylw at rai meysydd allweddol y mae angen eu gwella a rhoi sylw iddynt. Trwy ailddyrannu adnoddau, sefydlwyd Tîm Ymyrraeth Gynnar i gynnal asesiadau fforddiadwyedd manwl, datblygu pecynnau cymorth pwrpasol wedi'u teilwra i anghenion landlordiaid preifat, a chynnig cymorth cynhwysfawr i atal perthnasoedd rhag chwalu.

Mae ymgysylltu â landlordiaid wedi bod yn allweddol trwy gynnig cymorth a chymhellion ar gyfer cynnal tenantiaethau a gweithredu mesurau rhagweithiol i nodi a mynd i'r afael â phroblemau posibl cyn iddynt waethygu. Credwn y bydd y camau hyn yn gwella ein gallu i atal digartrefedd a chefnogi'r rhai sydd yn y sector rhentu preifat. Trwy ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a chymorth wedi'i deilwra, rydym yn anelu at greu system fwy cadarn ac ymatebol sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd.

**Cynnig Landlordiaid**

Mae ein Tîm Tai Sector Preifat yn parhau i wneud cynnydd cryf, yn enwedig drwy weithredu'r 'Cynnig Landlordiaid.' Mae'r fenter hon wedi'i chynllunio i gadw landlordiaid preifat presennol tra hefyd yn denu rhai newydd i helpu i gwrdd â'r galw parhaus am dai. Mae'r cynnig yn cynnwys cymorth ac ymgysylltu wedi'u teilwra i annog cyfranogiad hirdymor yn y farchnad dai leol trwy gryfhau perthnasoedd â landlordiaid a gwella cymorth tenantiaeth.

**Tai Gwag**

Trwy ymyrraeth a chymorth uniongyrchol, fe wnaethom lwyddo i ddod â 239 eiddo gwag preifat yn ôl i ddefnydd, sy'n welliant o 130% ar berfformiad y flwyddyn flaenorol. O ganlyniad, mae cyfanswm y tai gwag ar draws Sir Gaerfyrddin wedi'i ostwng i fod yn is na'r lefelau targed.

**Fy Lle Diogel - Prosiect Peilot**

Mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, gwnaethom gyflawni prosiect peilot Fy Lle Diogel. Mae'r fenter hon yn galluogi goroeswyr cam-drin domestig i aros yn ddiogel yn eu cartrefi trwy osod mesurau diogelwch pwrpasol fel cloeon, larymau a ffensys. Rhwng Ebrill a Hydref 2024, cefnogodd y cynllun 76 o unigolion ar draws gwahanol ddeiliadaethau tai. Wedi'i ariannu trwy'r fenter Strydoedd Mwy Diogel a chyllid cyfatebol gan y Cyngor, mae'r prosiect yn mynd i'r afael â bwlch nodedig yn achos rhai mewn tai preifat neu rent. Mae wedi derbyn adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac mae'n cael ei ystyried fel model ar gyfer strategaethau atal cam-drin domestig yn y dyfodol. Mae'r fenter yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau Sir Gaerfyrddin ynghylch atal digartrefedd, ymyrraeth gynnar, a diogelwch cymunedol.

**Rhaglen Tai, Iechyd a Llesiant y Wallich**

Mewn partneriaeth â'r Wallich, rhoddodd Actif Llanelli fynediad wythnosol i'r gampfa i unigolion digartref, a oedd yn gysylltiedig â chymryd rhan mewn sesiynau addysgol. Roedd y rhaglen wyth wythnos yn hyrwyddo trefn arferol, iechyd corfforol a chynhwysiant cymdeithasol tra'n cefnogi dysgu am gyllidebu, tai a llesiant. Dywedodd cyfranogwyr fod eu hiechyd meddwl ac arferion ffordd o fyw wedi gwella, gyda rhai'n parhau â'u teithiau ffitrwydd trwy aelodaethau corfforaethol. Mae'r fenter hon yn dangos sut gall mynediad hamdden cynhwysol helpu unigolion agored i niwed i ailadeiladu eu bywydau.

**Gweithredu'r Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol**

Gan adeiladu ar lwyddiant y Polisi Dyrannu Brys, fe wnaethom weithredu'r Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol yn llwyddiannus, gan ein galluogi i baru'n uniongyrchol y tai sydd ar gael ag unigolion a theuluoedd sydd â'r angen tai mwyaf. Mae rhan allweddol gan yr ymagwedd hon sydd wedi'i thargedu mewn lleihau digartrefedd ar draws y sir.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae prosiect Pêl-droed Stryd y Cyngor wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr yng Ngwobrau Chwaraeon Cymdeithas Chwaraeon Cymru 2025.



Dechreuodd y prosiect hwn, sydd ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Menter Effaith Gymdeithasol Orau, yn 2024 ac mae'n cael ei gydlynu gan Chwaraeon a Hamdden Actif. Sefydlwyd y prosiect i gefnogi unigolion sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref drwy ddefnyddio grym chwaraeon i wella eu llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol.

Ond mae sesiynau'n mynd y tu hwnt i bêl-droed trwy gynnig gofod diogel a chynhwysol lle gall cyfranogwyr nid yn unig fod yn egnïol ond hefyd ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau partner sy'n mynychu sesiynau i gynnig help a chefnogaeth gyda thai, cymorth iechyd meddwl, a gwasanaethau eraill y gallai fod eu hangen ar yr unigolion hyn. Mae'r sesiynau'n galluogi cyswllt wythnosol rhwng ymgynghorwyr tai a chyfranogwyr i gynnal cymorth cyson. Mae pob sesiwn hefyd yn cynnwys pryd o fwyd wedi'i goginio.

**Cymorth a Chyngor - Canolfannau Hwb**

**Astudiaeth Achos: Mrs H**

Erbyn hyn mae Mrs H £800 y mis yn well ei byd ar ôl gofyn am gyngor gan ein hymgynghorwyr Hwb. Yn fam sengl i dri o blant, Mrs H yw perchennog y cartref ac mae'n derbyn taliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA), Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP) a budd-dal plant. Aeth Mrs H i'r Hwb i siarad ag ymgynghorydd gan ei bod yn cael trafferth talu'r biliau. Drwy'r ymgynghorydd Hwb, cafodd Mrs H wybod ei bod yn gymwys i gael gostyngiad i'r dreth gyngor, a chafodd gwerth tri mis o daliadau eu hôl-ddyddio iddi. Roedd hi hefyd yn gymwys i gael gostyngiad person sengl, a chafodd ad-daliad o £1,200, credyd cynhwysol, PIP ar gyfradd uwch, bathodyn glas, prydau ysgol am ddim i'w phlant, a grant gwisg ysgol o £200.

**Astudiaeth Achos: Mr S**

Aeth Mr S i'r Hwb ar ôl cael strôc yn ddiweddar, ac roedd yn dibynnu ar ffrind i'w helpu i wneud cais am gredyd cynhwysol. Gan fod y ffrind yn ddibrofiad yn llenwi'r ffurflenni perthnasol, cafodd Mr S ei farnu'n ffit i weithio. Roedd ymgynghorydd Hwb wedi gallu helpu Mr S i wneud cais llwyddiannus am daliad disgresiwn at gostau tai, a wnaeth glirio £600 mewn ôl-ddyledion. Cafodd gostyngiad dros dro i'r dreth gyngor ei ailgyfrifo, a chafodd ei ddyled dreth gyngor o £1,440 ei chlirio drwy ostyngiad ar gyfer nam meddyliol difrifol. Rhoddwyd bathodyn glas a thocyn bws pobl anabl i Mr S, a nawr mae'n derbyn £400 yn fwy bob 4 wythnos ar ôl i'w allu i weithio gael ei ailasesu. Hefyd rhoddwyd cyfradd PIP uwch o £184 yr wythnos iddo

## Sut gallwn ni wneud yn well?

Byddwn yn parhau i weithredu a diweddaru'r Cynllun Trechu Tlodi drwy'r Panel Ymgynghorol Trechu Tlodi, gan sicrhau bod ein camau'n ymateb i'r heriau presennol mae preswylwyr a chymunedau'n wynebu. Mae hyn yn cynnwys cefnogi pobl i gael mynediad at y budd-daliadau a'r gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt, gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cymorth wedi'i dargedu, a defnyddio adborth gan y panel i lunio mentrau yn y dyfodol.

## Yn Gryno

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwasanaeth Tai wedi cyflawni cynnydd nodedig, gyda ffocws cryf ar gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella ansawdd a chynaliadwyedd cyffredinol tai ledled y Sir. Roedd rhaglen 2024/25 wedi cyfrannu 361 o gartrefi ychwanegol, gan ganolbwyntio ar brynu eiddo sector preifat, ailddefnyddio tai gwag, a datblygu unedau newydd, yn cynnwys trosi hen adeilad yr YMCA yn Llanelli yn wyth fflat.

Eleni mae cyllid grant sylweddol wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys dros £17,000,000 mewn Grant Tai Cymdeithasol. Mae'r arian hwn wedi bod yn allweddol o ran cyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol.

Mae'r Rhaglen Datblygu Adfywio Tai yn parhau i ysgogi'r weledigaeth o ddarparu dros 2,000 o dai erbyn 2027, gan alinio â blaenoriaethau adfywio ehangach fel Canol Trefi, Deg Tref Wledig, a phrosiectau strategol fel Pentre Awel a Tyisha.

Yn ogystal, mae ailgomisiynu'r gwasanaeth cymorth hyblyg ledled y Sir wedi arwain at £500,000 mewn arbedion dros bedair blynedd, gan alluogi ailfuddsoddi mewn llety â chymorth dros dro. Mae cynnig Rheoli Ystadau a Thenantiaeth newydd hefyd wedi'i gyflwyno, gan wella ymgysylltiad â thenantiaid a boddhad tenantiaid trwy fod yn fwy gweladwy ac ymweliadau rheolaidd ag ystadau gan swyddogion tai.


## Sut ydyn ni'n gwneud?

- Ar gyfartaledd, cymerwyd 20 diwrnod calendr i gwblhau'r holl atgyweiriadau i'r tai Cyngor yn ystod 2024/25. Mae hyn yn uwch na'r disgwyl wrth i'r galw am atgyweiriadau ymatebol barhau i gynyddu, ac mae'n effeithio ar ein gallu i gyrraedd y targed. Mae cynllun gwella gwasanaeth newydd wedi'i ddatblygu a fydd yn mabwysiadu ymagwedd cam wrth gam i sicrhau bod y modd y darperir y gwasanaeth yn gynaliadwy i'r dyfodol. I ddechrau bydd hyn yn cynnwys gwaith manwl i ddeall y galw presennol a'r ôl-groniad o atgyweiriadau ymatebol, mwy o ffocws ar fân waith wedi'i becynnu, ac ail-alinio'r adnoddau presennol i fodloni blaenoriaethau a risgiau cyfredol.
- Daethpwyd â 239 eiddo sector preifat yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi bod yn wag am fwy na chwe mis yn ôl i ddefnydd drwy weithredu uniongyrchol yn ystod 2024/25. Roedd 1,868 eiddo yn Sir Gaerfyrddin a oedd wedi bod yn wag am chwe mis neu fwy ar ddiwedd mis Mawrth 2025, o gymharu â 2,144 ar ddiwedd mis Mawrth 2024. Mae hwn yn ostyngiad o 13%.
- Mae canran y rhent sy'n cael ei golli oherwydd bod eiddo'r Cyngor yn wag bellach wedi gostwng yn 2024/25 i 1.9%, o gymharu â 2.2% y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y sylfaen contractwyr wedi estyn drwy'r Fframwaith Gwaith Eiddo newydd. Mae hyn wedi gwella'r capasiti cyffredinol o ran contractwyr yn sylweddol.



## Canlyniad: Argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da ac ynni-effeithlon yn y Sir.

Rydym wedi darparu tua 2,500 o dai fforddiadwy ychwanegol ers dechrau ein cynllun uchelgeisiol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn y sir. Tai fforddiadwy o ansawdd da yw sylfaen cymunedau iach a chynaliadwy. Rydym wedi parhau i ragori ar dargedau bob blwyddyn trwy gynyddu ein cyflenwad o dai gan ddefnyddio ystod o atebion i wneud y mwyaf o gyfleoedd cyllido allanol a diwallu anghenion tai. Byddwn yn parhau gyda'r ymagwedd hon, ond ein ffocws yw sicrhau bod gan raglen adeiladu newydd y Cyngor rôl fwy sylweddol wrth ddatblygu safleoedd mawr o fwy na chant o gartrefi ar gyflymder.




### Rhaglen Datblygu Adfywio Tai

Mae ein rhaglen datblygu adfywio tai yn pennu'r weledigaeth i gefnogi'r gwaith o ddarparu dros 2,000 o dai i'w rhentu a'u gwerthu dros y 5 mlynedd nesaf (Chwef 2022 hyd at Rhag 2027). Mae'r cynllun yn seiliedig ar ddiwallu angen tai ac ysgogi twf economaidd ledled y Sir gan greu swyddi, adeiladu cymunedau cynaliadwy cryf, a thyfu'r economi werdd. Roedd rhaglen 2024/25 wedi darparu 361 o gartrefi ychwanegol, gan ganolbwyntio ar brynu eiddo sector preifat at ddefnydd cyffredinol ac arbenigol o ran tai, ailddefnyddio tai gwag, a datblygu tai newydd, yn cynnwys trosi hen adeilad yr YMCA yn Llanelli yn wyth fflat.

Mae'n bwysig bod y cynllun hwn yn cysylltu â blaenoriaethau corfforaethol ac adrannol ehangach fel Canol Trefi, Deg Tref Wledig a phrosiectau adfywio allweddol e.e. Pentre Awel, Tyisha, Gorllewin Caerfyrddin a Thŷ Wauniago (Caerfyrddin). Mae swm sylweddol o arian grant ychwanegol hefyd wedi'i dynnu i lawr gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol, ac mae hyn yn cynnwys dros £17m o Grant Tai Cymdeithasol a £12.1m o gyllid grant arall gan gynnwys Llety Trosiannol a Chyllid Rhaglen Gyfalaf a Thai ar gyfer Gofal.

### Datblygu Adeiladau Newydd

Dros y pum mlynedd nesaf, bydd yr hyn sydd gan y Cyngor ar y gweill o ran datblygu tai newydd yn darparu dros 900 o dai. Bydd ein tai newydd yn diwallu anghenion unigol ein cymunedau ac yn cynnwys tai, byngalos a fflatiau ar gyfer unigolion a theuluoedd. Mae ein holl dai sy'n cael eu codi o'r newydd yn dilyn set glir o egwyddorion dylunio sy'n creu cymunedau newydd cynaliadwy, gydag ymdeimlad gwirioneddol o le.

### Gwasanaeth Cymorth

Rydym wedi llwyddo i ailgomisiynu'r gwasanaeth cymorth hyblyg ledled y sir, gan gyflawni arbedion o £500,000 dros bedair blynedd. Bydd yr arbedion hyn yn cefnogi darparu opsiynau llety cymorth dros dro newydd o fewn y rhaglen Grant Cymorth Tai, a thrwy hynny leihau baich y Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ar ddarparu llety dros dro.

### Cynnig Rheoli Ystadau a Thenantiaethau

Mae cynnig Rheoli Ystadau a Thenantiaethau newydd yn cael ei ddarparu, gyda'r nod o wella ymgysylltiad â thenantiaid a boddhad tenantiaid. Mae'r ymagwedd hon yn cynyddu gwelededd a hygyrchedd swyddogion tai ar ystadau, sef rhywbeth y mae tenantiaid wedi'i nodi fel blaenoriaeth allweddol. Trwy ymweliadau gwiriwr cartref ac ystadau rheolaidd, mae'r gwasanaeth yn sicrhau presenoldeb mwy cyson o fewn cymunedau.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

### Profiad Preswylydd yn Dilyn Gwelliannau i'w Cartref

“Ers cwblhau'r gwelliannau i fy nghartref, mae fy nghartref yn gynhesach am hirach, sy'n golygu fy mod wedi bod yn defnyddio llai o wres. Mae'r tŷ yn gyfforddus, ac rwy'n edrych ymlaen at weld pa mor gynnes fydd e trwy'r misoedd oerach.

Mae'r newid o olew i nwy wedi bod yn hwylus. Roeddwn i eisiau nwy ers sbel, felly roeddwn i'n falch o'i gael o'r diwedd. Rwy' hefyd yn defnyddio ap Solis Cloud i fonitro faint o ynni mae fy nghartref yn ei gynhyrchu a'i ddefnyddio - mae'n syml unwaith rydych chi'n ei ddeall.

Ni chymerodd y gwaith ei hun gymaint â hynny, ac roedd y tîm yn wych - fe wnaethon nhw lanhau ar ôl eu hunain a gwneud yn siŵr fy mod i'n gwybod beth oedd yn mynd ymlaen drwy'r amser. Oedd, roedd rhywfaint o sŵn a llwch, ond roedd y canlyniad yn bendant werth ychydig wythnosau o darfu.

Yn ystod y 6 mis diwethaf, rwy' wedi arbed £714 ar fy miliau ynni. Ar ddiwrnod heulog yn ddiweddar, dim ond 46c wnes i wario er gwaetha' defnyddio'r ffrïwr aer, peiriant golchi, sychwr, a'r holl ddyfeisiau arferol. Rwy'n gyffrous i weld cyfanswm yr arbedion ar ôl blwyddyn lawn.

A fydden i'n ei argymell? Yn sicr. Mae wedi bod yn rhywbeth cadarnhaol i mi."





Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r Rhaglen Buddsoddi mewn Tai Cyngor i fodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023, yn seiliedig ar arolygon cyflwr stoc a'n Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2025–28. Byddwn yn parhau i weithredu camau i wella amseroedd ar gyfer gwneud atgyweiriadau ac addasiadau a llenwi tai gwag, a byddwn yn penodi tîm mewnol i gyflawni addasiadau bach yn fwy effeithlon. Byddwn hefyd yn cefnogi Gofal a Thrwsio i gynorthwyo perchnogion tai preifat. Yn ogystal, byddwn yn ehangu mynediad at dai fforddiadwy trwy ddatblygu ystod ehangach o opsiynau perchnogaeth cartref cost isel, gan gyfrannu at ddarparu dros 2,000 o gartrefi ychwanegol ledled y sir fel rhan o'n Strategaeth Tai Fforddiadwy.

## Yn Gryno

- Mae gostyngiad sylweddol wedi bod mewn derbyniadau i'r ysbyty, gwell canlyniadau iechyd, ac arosiadau byrrach yn yr ysbyty, gan alluogi unigolion i ddychwelyd adref yn gynt gyda'r cymorth cywir yn ei le.
- Mae ymyrraeth gynnar ac atal yn ganolog i'n hymagwedd. Mae ein mentrau yn adlewyrchu hyn yn glir, gan sicrhau bod unigolion yn derbyn cymorth amserol cyn i anghenion gynyddu a chyn bod angen ymyrraeth statudol.
- Mae lleihau dibyniaeth ar ofal preswyl yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, ac mae ffocws cryf ar ehangu opsiynau byw â chymorth sy'n hyrwyddo annibyniaeth, dewis personol, a chanlyniadau hirdymor gwell.
- Mae ystod eang o fentrau cynhwysol a chymunedol wedi hyrwyddo gweithgarwch corfforol, llesiant meddwl, ymgysylltu diwylliannol, a dysgu gydol oes ledled Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn cefnogi cymunedau iachach, mwy cysylltiedig.



## Sut ydyn ni'n gwneud?

- Rydym yn parhau i fod mewn sefyllfa sefydlog gyda gostyngiad yn y niferoedd sy'n aros yn yr ysbyty am ofal cartref (pump o bobl hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025). Mae hyn er bod ein llwythi achosion yn fwy cymhleth. Mae hyn yn dangos bod ein llwybrau cymunedol ataliol yn gweithio i reoli'r galw sy'n dod drwy'r system. Bu i'r cyllid her 50 diwrnod a ddyfarnwyd drwy Lywodraeth Cymru ddiwedd 2024/25 gyfrannu at greu capasiti ychwanegol yn y system sydd wedi, yn ei dro, leihau'r niferoedd sy'n aros am ofal cartref.
- Cafwyd 1,460 o atgyfeiriadau i'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yn ystod 2024/25. Ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol (1,537), ond mae'r niferoedd yn parhau i fod yn uchel. Yn anffodus, dim ond 43% (233/542) o'r rhai a ddechreuodd y cynllun a gwblhaodd y rhaglen 16 wythnos yn ystod 2024/25 o gymharu â 70.2% (316/450) yn 2023/24.
- Mae nifer y diwrnodau calendr, ar gyfartaledd, a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn dal i fod yn uchel sef 272 o ddiwrnodau yn ystod 2024/25. Gwelliant bach iawn ar 273 o ddiwrnodau'r flwyddyn flaenorol. Mae dileu'r prawf modd ym mis Chwefror 2022 wedi cynyddu'n sylweddol y galw am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Er mwyn rheoli gwariant, fe wnaethom gyflwyno Cymeradwyo Oedi Cyn Talu. Fodd bynnag, mae'r mesur hwn hefyd wedi arafu pa mor gyflym mae contractwyr yn cwblhau prosiectau, gan effeithio ar amseroedd cyflawni yn 2025/26. Mae ailgyflwyno'r prawf modd yn ddiweddar wedi lleihau nifer y ceisiadau newydd am Grant Cyfleusterau i'r Anabl, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 wedi cynyddu. Bydd y galw'n parhau i gael ei reoli o fewn y gyllideb sydd ar gael.

## Canlyniad: Gwasanaethau integredig di-dor rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r Llwybr Gartref yn Gyntaf Integredig yn enghraifft o integreiddio rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei orau. Mae'r llwybr Gartref yn Gyntaf yn ceisio gwneud tri pheth:

1. Darparu dewisiadau eraill diogel yn lle derbyn i'r ysbyty.
2. Cefnogi rhyddhau o'r ysbyty (yn enwedig pan fo unigolyn angen asesiad ar gyfer gofal a chymorth parhaus, ac nad oes angen i'r asesiad hwnnw gael ei gynnal mewn gwely ysbyty acíwt).
3. Cael unigolion allan o wasanaethau statudol ac i mewn i wasanaethau ataliol a fydd yn sicrhau bod pobl yn gallu bod mor annibynnol ag sy'n bosib.

Mae'r llwybr yn darparu un pwynt mynediad ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y gymuned, sef tîm amlddisgyblaethol wedi'i gyd-leoli yn gweithio ochr yn ochr â'r swyddogaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wrth y drws ffrynt. Maent yn darparu sgrinio a brysbennu cadarn ar gyfer pob atgyfeiriad sy'n cyrraedd y ganolfan Gartref yn Gyntaf. Partneriaeth yw hon ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector, Llesiant Delta, a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Mae Gartref yn Gyntaf yn llwyddo i gefnogi tua 225 o bobl bob mis, sy'n gyfuniad o rai sydd wedi osgoi derbyn, rhai sydd wedi'u rhyddhau o'r ysbyty â chymorth, a rhai sy'n destun asesiad ward rhithwir (gall pobl nad oes angen triniaeth yn yr ysbyty arnynt, ond mae angen goruchwyliaeth feddygol arnynt, gael cymorth i aros gartref gyda'r ward rithwir).

Mae diddordeb enfawr wedi bod gan Lywodraeth Cymru ac ardaloedd Byrddau Iechyd ac awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae wedi ennill dwy Wobr GIG Cymru (Gofal Integredig sy'n Canolbwyntio ar y Person ac Enillydd Cyffredinol mewn Trawsnewid Iechyd a Gofal) a gwobr National Improvement and Efficiency Social Enterprise (iESE).

**Gofal Cymdeithasol**

- Mae'r Gwasanaeth Llesiant Iechyd Meddwl yn parhau i ddarparu cymorth ymyrraeth gynnar ac atal hanfodol. Yn hydref 2024, lansiwyd Gwasanaeth Celcio newydd mewn cydweithrediad â phartneriaid y trydydd sector. Mae'r model hwn yn profi'n llwyddiannus o ran atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu.
- Rydym wedi cryfhau ein partneriaethau gyda chydweithwyr iechyd, tai a'r trydydd sector i gefnogi ymagwedd fwy cydgysylltiedig o gomisiynu. Mae'r Grŵp Comisiynu Rhanbarthol yn dwyn ynghyd gomisiynwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r tri awdurdod lleol. Drwy'r Bwrdd rydym yn parhau i gydweithio ar ofal tymor hir a gwasanaethau i oedolion. Mae'r grŵp hwn yn cyfrannu at y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, sy'n rhan o strwythur llywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Ar 19 Mawrth 2025, cynhaliwyd digwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhagnodi Cymdeithasol yn y Ganolfan Byw'n Dda, Parc Dewi Sant. Gan dynnu sylw at effaith rhagnodi cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin, daeth y digwyddiad â chleifion, partneriaid atgyfeirio, sefydliadau cymunedol a staff ynghyd i rannu profiadau ac amlygu llwyddiannau ar y cyd.

## Canlyniad: Gwasanaethau hygyrch, cynhwysol a chynaliadwy, sy'n hyrwyddo ac yn hwyluso dysgu, diwylliant, treftadaeth, gwybodaeth, llesiant a hamdden.

**Cyfleoedd Dydd**
Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda phrosiectau cymunedol lleol, gwasanaethau hamdden, a sefydliadau'r trydydd sector fel Gofal Celf i ledaenu mynediad i gyfleoedd dydd i unigolion ag anableddau dysgu a materion iechyd meddwl. Mae cyfleoedd dydd yn weithgareddau strwythuredig sydd wedi'u dylunio i adeiladu sgiliau, hyder ac annibyniaeth. Ein prif nod yw cynyddu nifer y cyfleoedd a'r amrywiaeth ohonynt i alluogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon, datblygu cysylltiadau cymdeithasol, a gweithio tuag at nodau personol. Mae hyn wedi arwain at saith unigolyn ag anabledd dysgu yn cael profiad gwerthfawr drwy wirfoddoli yng Nghaffi Llyn Llech Owain.

**Y Fenter Pasbort i Hamdden**
Drwy'r fenter hon roedd gofalwyr yn gallu cael mynediad am ddim i gyfleusterau hamdden ar draws Sir Gaerfyrddin. Mae'r fenter yn rhan o strategaeth ehangach i wella llesiant, lleihau ynysu, a chynnig seibiant rhag cyfrifoldebau gofalu. Yn ystod 2024, galluogodd hyn 78 o ofalwyr i gael mynediad at wasanaethau hamdden y Cyngor, gan arwain at dros 700 o ymweliadau. Bu rhai cyfranogwyr yn edrych ar weithgareddau newydd, tra bo eraill wedi gwneud newidiadau sylweddol, hirdymor i'w ffordd o fyw. Dywedodd 100% o'r gofalwyr fod eu llesiant yn well, eu bod yn teimlo'n llai ynysig, a'u bod yn gwbl hapus â'r cynnig.

**Lleihau Dibyniaeth ar Ofal Preswyl**
Un o brif amcanion Gofal Cymdeithasol i Oedolion yw lleihau'r ddibyniaeth ar ofal preswyl trwy ddatblygu ystod ehangach o opsiynau llety â chymorth a fyddai'n gwella canlyniadau ac yn hyrwyddo annibyniaeth a dewis i unigolion.Dros y tair blynedd diwethaf, mae naw lleoliad byw â chymorth newydd wedi'u datblygu, gyda saith arall ar y gweill ar hyn o bryd. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae 45 o unigolion wedi symud yn llwyddiannus i fyw â chymorth.

Mae gwasanaeth lleoli oedolion Cysylltu Bywydau wedi ehangu ar draws y rhanbarth ac yn gweithio i drosglwyddo unigolion o leoliadau preswyl i drefniadau Cysylltu Bywydau. Mae'r ymagwedd hon yn cynnig dewis arall mwy personol a chymunedol yn hytrach na gofal traddodiadol, ac yn cefnogi'n uniongyrchol ein nod o leihau dibyniaeth ar ofal preswyl.

Mae'r Tîm Defnyddio Sylweddau ac Adfer wedi mabwysiadu dulliau arloesol, sydd wedi helpu i gefnogi unigolion â niwed i'r ymennydd cysylltiedig ag alcohol i gamu i lawr o ofal preswyl trwy ddefnyddio llety'n greadigol. Mae gweithio mewn partneriaeth barhaus â thai a sefydliadau'r trydydd sector yn galluogi datblygu tŷ adfer i wella opsiynau camu i lawr ymhellach ar gyfer pobl sydd â phroblemau defnyddio alcohol a defnyddio sylweddau.

Yn ogystal, mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn gwella'r cynllunio a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n symud o'r Gwasanaethau Plant i'r Gwasanaethau Oedolion. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni mewn cydweithrediad agos â'r timau Gwasanaethau Plant, Tai a Chomisiynu i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu aros yn eu cymunedau eu hunain a chael mynediad at y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Mae sawl cynllun byw â chymorth newydd wedi'u sefydlu, sy'n cynnig lleoliadau mwy annibynnol a phenodol ar gyfer pobl ifanc wrth iddynt bontio.

Fel rhan o'n cynnig seibiant ehangach, mae Y Caban wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer seibiannau byr. Mae'n darparu cymorth hyblyg sy'n canolbwyntio ar y person i unigolion a'u gofalwyr. Mae'r fenter hon yn cefnogi ein hymrwymiad i gynnig dewisiadau amgen i ofal preswyl a sicrhau cymorth amserol, cymunedol yn ystod cyfnodau o angen cynyddol.

### Gwasanaethau Ar-lein

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y preswylwyr a'r busnesau sy'n cael gafael ar wybodaeth, cymorth a gwasanaethau'r Cyngor ar-lein. Trwy gydol 2024/25, mae nifer y sesiynau ar ein gwefan wedi cynyddu unwaith eto i dros 4.5 miliwn.

Mae hygyrchedd gwybodaeth yn bwysig iawn i ni. Eleni, buom yn gweithio gyda'r Ganolfan Hygyrchedd Digidol i archwilio ein gwefan i sicrhau bod ein cynhyrchion a'n gwasanaethau digidol yn gallu cael eu defnyddio'n hwylus ac yn cydymffurfio lle bynnag y bo modd â lefel AA Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe (WCAG 2.2). Darparu hyfforddiant yn unol â gofynion y Siarter CSC ar gyfer Hyfforddwyr. Mae'n bwysig cofio bod preswylwyr, ymwelwyr a busnesau bellach yn cyrchu'r wefan mewn gwahanol ffyrdd, ac mae 62.9% yn defnyddio dyfais symudol. Mae hyn yn allweddol wrth ystyried sut i gyflwyno gwybodaeth i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chynulleidfa mor eang â phosibl. Rydym hefyd yn monitro ein gwefannau trwy Silktide, platfform sy'n sganio hygyrchedd a chynnwys gwefannau'n awtomatig.

## Mentrau Chwaraeon a Hamdden

### Cynllun Cerdyn Aur Actif

Mae Cynllun 'Cerdyn Aur' Sir Gaerfyrddin yn caniatáu i breswylwyr sy'n cynrychioli ein gwlad, fel athletwyr sydd heb fod yn cael tâl yn eu camp ddewisol, gael mynediad i gyfleusterau yng Nghanolfannau Hamdden Actif, yn rhad ac am ddim, i ategu eu rhaglen hyfforddi bresennol. Yn ystod 2024/25 derbyniodd Actif 94 o geisiadau am Gerdyn Aur, a rhoddwyd 79 ohonynt. Mae'r ceisiadau yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o chwaraeon sydd ar gael yn y Sir, gan fod 26 o wahanol chwaraeon yn rhan o hyn.

### Atgofion Chwaraeon y Scarlets – 'Straeon y Scarlets'

Cefnogodd Actif Llanelli sesiynau Atgofion Chwaraeon yn wythnosol ym Mharc y Scarlets, lle mynychodd dros 520, a chynnig rygbi cerdded bob tair wythnos. Mae'r fenter yn brwydro yn erbyn unigrwydd, dementia, ac arwahanrwydd trwy chwaraeon, adrodd straeon, a rhyngweithio cymdeithasol. Mae cyfranogwyr wedi ffurfio cysylltiadau cymunedol cryf, gan drefnu teithiau a gweithgareddau y tu hwnt i'r sesiynau. Mae'r prosiect hwn yn enghraifft o sut y gall rhaglenni cynhwysol, diwylliannol wella llesiant, cadw treftadaeth, a meithrin ymgysylltiad gydol oes mewn bywyd hamdden a chymunedol.

### Foothold Cymru - Cynnal a Chadw Beiciau a Mynediad i Feicio

Cydweithiodd Actif Llanelli â Foothold Cymru i wella mynediad i feicio ac addysg mewn ysgolion lleol. Dechreuodd y fenter yn Ysgol Heol Goffa, lle cafodd beiciau wedi'u haddasu eu trwsio a lle cafodd disgyblion hyfforddiant cynnal a chadw beiciau ymarferol, gan roi iddynt sgiliau ymarferol. Roedd hyn yn cefnogi trafnidiaeth gynaliadwy a ffyrdd o fyw egnïol. Hefyd fe wnaeth Actif Llanelli ariannu prynu beiciau newydd, a gafodd eu dosbarthu i ysgolion ledled Llanelli yng Ngwanwyn 2025. Roedd y prosiect yn hyrwyddo dysgu cynhwysol, llesiant, ac ymgysylltu hirdymor â beicio, sef camp y rhoddir sylw penodol iddi tan 2027.

### Hwb Cymunedol Llanybydder – Mynediad i Ffitrwydd Digidol

Cyflwynodd neuadd gymunedol Llanybydder ddosbarthiadau ffitrwydd digidol trwy seilwaith newydd, gan gynnig mynediad am ddim fel rhan o'r aelodaeth. Arweiniodd hyn at fwy yn cymryd rhan ac at gynaliadwyedd ariannol, gyda saith aelod newydd yn ymuno yn yr wythnos gyntaf. Mae'r fenter yn hyrwyddo mynediad cynhwysol, lleol at wasanaethau iechyd a llesiant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac mae'n cefnogi hyfywedd hirdymor cyfleusterau cymunedol. Cynllunnir sesiynau wyneb yn wyneb yn y dyfodol i ymgysylltu ymhellach.

**Codi Pwysau i Fenywod a Merched / Addysg Menopos**
Mae'r rhaglen Dysgu Codi Pwysau yn grymuso menywod a merched 14 oed a hŷn i adeiladu cryfder a hyder mewn amgylchedd cefnogol. Mae'r sesiynau'n herio stereoteipiau, yn hyrwyddo iechyd esgyrn, ac yn annog cyfranogiad rhwng cenedlaethau. Mae llawer wedi symud ymlaen i ddosbarthiadau uwch. Mae partneriaeth newydd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn treialu addysg a ffitrwydd sy'n canolbwyntio ar y menopos, gan dynnu sylw at botensial y rhaglen i gefnogi iechyd menywod ym mhob cyfnod o fywyd ac i ehangu cyfleoedd ffitrwydd cynaliadwy a chynhwysol.

**Beicio i Bobl Hŷn – Cynllun Peilot Motiview**

Cyflwynodd Lleoedd Actif Motiview, sef technoleg feicio rithwir ar gyfer pobl hŷn, sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol a therapi atgofion. Mae cyfranogwyr yn beicio trwy dirweddau cyfarwydd, gan ysgogi sgwrs, hiraeth, a gwell symudedd. Mae'r cynllun peilot wedi dangos potensial cryf ar gyfer gwella llesiant mewn lleoliadau gofal. Bydd cynlluniau i ddatblygu llwybrau penodol i Sir Gaerfyrddin yn cynyddu ymgysylltiad lleol a pherthnasedd diwylliannol, gan gefnogi hamdden cynaliadwy a chynhwysol i oedolion hŷn.

**Rhaglenni Atgyfeirio ac Atal Iechyd**

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd, rydym wedi ehangu ein rhaglenni atgyfeirio ac atal iechyd ledled y Sir. Mae'r rhaglenni'n cynnwys Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS), Atal Codymau a Chyn-Diabetes.

**Rhaglenni Therapi Dyfrol a Ffitrwydd**

Mae Good Boost wedi derbyn cefnogaeth werthfawr gan y Bwrdd Iechyd, sy'n cydnabod ei ddull arloesol o wella iechyd cyhyrysgerbydol (MSK) trwy ymarfer corff dyfrol ac ar dir sydd wedi'i bersonoli, gyda chymorth technoleg. Mae'r rhaglen yn defnyddio sesiynau sydd wedi'u cynllunio'n glinigol i gefnogi unigolion â chyflyrau fel arthritis, poen cronig, a'r rhai sy'n aros neu'n gwella ar ôl cael cymal newydd neu anaf. Yn nodedig, mae cyfuniad o Therapi Dyfrol a Good Boost eisoes wedi arwain at arbedion gwirioneddol i'r GIG, gyda rhai cyfranogwyr yn gweld y fath welliant fel eu bod wedi eu tynnu o'r rhestri aros am gymal newydd. Ers hynny, mae'r unigolion hyn wedi cynnal eu ffordd o fyw egnïol trwy barhau â gweithgareddau ehangach Actif mewn canolfannau hamdden ac yn y gymuned, gan elwa ar fanteision hirdymor y rhaglen ar gyfer llesiant personol a'r galw am ofal iechyd. Mae'r cymorth a gynigir gan y GIG bellach wedi galluogi Actif i gychwyn rhaglen gymunedol i gynorthwyo i reoli cyflyrau MSK mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd anodd eu cyrraedd.

Rhaglen ymyrraeth iechyd 16 wythnos yw 'Mae eich Iechyd yn Bwysig', sy'n cefnogi oedolion i wella eu llesiant corfforol a meddyliol. Wedi'i gyflwyno gan hyfforddwyr ac arbenigwyr gwadd, mae 'Mae eich Iechyd yn Bwysig' yn cyfuno addysg, ymarfer corff, meddylgarwch a chyngor dietegol, gyda mynediad i Actif Unrhyw Le a gweithgareddau lleol. Gan dargedu cyflyrau y gellir eu hatal fel diabetes math 2 a salwch sy'n gysylltiedig ag ysmygu, cyflawnodd ganlyniadau nodedig:

- llesiant meddwl 94% o'r cyfranogwyr wedi gwella,
- maint gwast 76% ohonynt wedi lleihau, a
- mynegai màs y corff 70% ohonynt wedi gostwng neu aros yr un peth.

Ar y cyfan, collwyd 81.6 cilogram, ac fe wnaeth y cyfartaledd pwysau gwaed wella. Dywedodd y cyfranogwyr fod mwy o hyder gyda nhw, llai o grefu am bethau, a'u bod yn cynnal arferion iachach. Cryfder allweddol oedd yr amgylchedd grŵp cefnogol. Yn adborth y cyfranogwyr amlygwyd effaith gyfannol y rhaglen, gan newid ffocws o golli pwysau i newid ffordd o fyw. Defnyddiwyd cofnodion a sesiynau un-i-un misol i annog cyrraedd nodau ac olrhain cynnydd unigol. Parhaodd llawer â gweithgareddau corfforol ar ôl y rhaglen, gyda thrawsnewidiadau personol ysbrydoledig a gwell iechyd meddwl yn dangos gwerth ymyriadau iechyd cefnogol, wedi'u targedu.

**Gwasanaeth Actif Unrhyw Le**

Lansiwyd gwasanaeth Actif Unrhyw Le fel platfform ar-lein dwyieithog i gefnogi ysgolion a chymunedau gwledig ledled Sir Gaerfyrddin. Gan gynnig ystod eang o ddosbarthiadau a gweithgareddau allgyrsiol, mae'r platfform wedi'i ddatblygu ymhellach gyda chefnogaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae hyn yn helpu i sicrhau mynediad at gyfleoedd iachâd a llesiant beth bynnag fo'u lleoliad.

**Rhaglenni Cyfleuster Chwaraeon a Hamdden Actif**



Mae cynnig cynhwysfawr o sesiynau wedi'u rhaglennu a rhai talu a chwarae ar gael ym mhob safle er mwyn i bobl fod yn egnïol a gwella ansawdd bywyd, iechyd a llesiant cyffredinol. Mae poblogrwydd cynlluniau aelodaeth wedi gweld twf o 8.5% i'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 a lefel aelodaeth gyfan o 8,720. Cynyddodd ymweliadau'r grŵp oedran 18 i 59 28% i 673,069.

**Theatrau Sir Gâr**

Mae Theatrau Sir Gâr wedi parhau i hyrwyddo cynhwysiant yn y celfyddydau drwy bartneriaethau a rhaglenni arloesol. Mewn cydweithrediad ag InclusAbility Swansea a Breaking the Box, fe wnaethom ddatblygu offer i wneud y theatr yn fwy hygyrch i unigolion ag anableddau a gorbryder. Gan gydnabod bod amgylchedd theatrau traddodiadol yn gallu bod yn ormod i rai, fe wnaethom gyflwyno bagiau synhwyraidd am ddim. Maent ar gael yn y swyddfa docynnau, ac yn cynnwys stori weledol o'r theatr, amddiffynwyr clust, sbectol haul, ac eitemau bigitan. Rydym hefyd yn datblygu mannau ymlacio yn ystod perfformiadau safonol, sy'n rhoi man tawel, diogel lle gall unigolion leihau tensiwn a dychwelyd i'r perfformiad pan fyddant yn barod. Nod yr ymdrechion hyn yw adeiladu ymddiriedaeth a sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cefnogi yn ein lleoliadau.

Yn ogystal, cynhaliodd Theatrau Sir Gâr The Ancient Oak of Baldor gan Frozen Light – profiad theatr amlsynhwyraidd a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog. Mynychodd dros 80 o westeion a'u gofalwyr, llawer ohonynt yn profi theatr am y tro cyntaf mewn gofod a grëwyd yn bwrpasol ar eu cyfer.

**CofGâr**

Lansiodd CofGâr ei wasanaeth atgofion newydd, Cofio. Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio Blychau Cof wedi'u curadu'n ofalus sy'n llawn eitemau cyfarwydd o'r 1950au, 60au, a 70au i sbarduno myfyrio a sgwrsio ystyrlon. Wedi'u cynllunio i'w defnyddio mewn grwpiau cymorth, cartrefi gofal, a chyfarfodydd cymunedol, mae'r blychau'n cynnwys gwrthrychau hanesyddol, deunyddiau printiedig, ysgogiadau trafod, a chwisiau i annog rhyngweithio diddorol a phleserus. Mae CofGâr eisoes wedi cyflwyno sesiynau ledled y Sir, gan gynnwys partneriaeth lwyddiannus gyda'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd, lle defnyddiwyd blychau cof yn ystod dawnsfeydd te ar thema'r 1940au yng ngwanwyn 2025.

## Canlyniad: Gwell gwasanaethau ataliol i fodloni gofynion poblogaeth sy'n heneiddio.

- Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gwasanaethau Integredig wedi llwyddo i weithredu cynlluniau gofal wedi'u personoli ar gyfer dros 5,000 o breswylwyr. Mae hyn wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol mewn derbyniadau i'r ysbyty, gwell canlyniadau iechyd, ac arosiadau byrrach yn yr ysbyty - gan alluogi unigolion i ddychwelyd adref yn gynt gyda'r gefnogaeth gywir yn ei lle.
- Mae'r Tîm Gartref yn Gyntaf, sef tîm amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl sy'n gadael yr ysbyty, wedi sefydlu trefniant brysbennu llwyddiannus sy'n cael effaith ar lif ysbytai ac yn lleihau rhestri aros.
- Rydym yn parhau i gefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol cyn hired â phosibl, gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a gofal personol. Mae ein dull "rhyddhau amser i ofalu" yn sicrhau bod y cymorth lleiaf ymwthiol posibl yn cael ei ddarparu, gan ryddhau capasiti i eraill. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 851 awr o ofal wedi'u rhyddhau, gan helpu i leihau rhestrau aros gofal cartref i'w lefel isaf ers blynyddoedd ac arwain at 30 yn llai o bobl mewn gofal preswyl er gwaethaf y galw cynyddol.
- Mae dros £1 miliwn o gyllid grant ychwanegol wedi'i sicrhau i gefnogi'r agenda ataliol ymhellach. Bydd y buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i dargedu materion fel gwella hygyrchedd gwasanaethau i gymunedau amrywiol, mynd i'r afael â bylchau trafnidiaeth a gwella diogelwch cymunedol trwy ddarparu pecynnau technoleg pwrpasol.

### Gwasanaeth Rhagnodi Cymdeithasol

Mae ein gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol yn elfen hanfodol o'n strategaeth ataliol, sy'n cysylltu cleifion ag adnoddau cymunedol i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r Rhagnodwyr Cymdeithasol yn rhan annatod o'r timau cymunedol lleol, gan weithio'n agos gydag unigolion sydd naill ai'n hunan-gyfeirio, neu'n cael eu nodi gan eu meddygon teulu, neu aelodau o'r Tîm Adnoddau Cymunedol a chontractwyr gofal sylfaenol ehangach, fel rhai mae angen cymorth arnynt i gysylltu â'u cymunedau er mwyn hyrwyddo hunan-werth ac integreiddio, gan ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar gleifion ac sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant ymysg poblogaeth Sir Gaerfyrddin.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cysylltu unigolion â chymorth di-glinigol i wella eu hiechyd a'u llesiant, fel grwpiau cymunedol, gweithgareddau corfforol, a gwasanaethau sy'n rhoi cyngor. Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, derbyniodd y gwasanaeth dros 1,100 o atgyfeiriadau, yn bennaf ar gyfer cymorth iechyd meddwl lefel isel (68%) ac arwahanrwydd cymdeithasol (50%). Cefnogodd y gwasanaeth unigolion rhwng 18 a 100 oed, ac roedd y grŵp mwyaf rhwng 55 a 64 oed. O'r rhai a gwblhaodd ffurflen profiad claf, roedd 95% yn teimlo bod eu llesiant wedi gwella.

### Cysylltu Sir Gâr

Partneriaeth yw Hybiau Cymunedol Cysylltu Sir Gâr o sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaeth cymorth ataliol sydd wedi'i gynllunio i helpu preswylwyr ledled Sir Gaerfyrddin i gael gafael ar gyngor, cymorth ac adnoddau lleol yn haws. Mae hyder yn y gwasanaeth yn parhau i dyfu, gyda dros 4,500 o atgyfeiriadau wedi'u gwneud yn ystod 2024/25.
Mae platfform digidol Cysylltu Sir Gâr wedi parhau i esblygu drwy gydol 2024/25. Mae gwelliannau meddalwedd parhaus wedi canolbwyntio ar: ehangu ymarferoldeb, gwella profiad y defnyddiwr; a theilwra'r platfform yn seiliedig ar adborth preswylwyr. Mae gan y platfform 213 o weithgareddau cymunedol a 1,341 o aelodau cofrestredig. Yn 2024/25, derbyniodd y bartneriaeth anrhydeddau mewn pedair seremoni wobrwyo.

### Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn rhoi'r grym i unigolion sy'n gymwys i gael gofal a chymorth reoli eu gwasanaethau trwy dderbyn taliadau arian parod i drefnu gofal sy'n diwallu eu hanghenion asesedig. Mae'r ymagwedd hon yn hyrwyddo hyblygrwydd, annibyniaeth, a dewis personol. Ers dod â'r Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol yn fewnol yn 2021, mae'r defnydd ohono wedi cynyddu 51%. Mae'r gwasanaeth yn parhau i esblygu i sicrhau arfer gorau, cydymffurfiaeth gyfreithiol a gwerth am arian, wrth gefnogi unigolion i reoli eu trefniadau yn hyderus ac yn effeithiol. Mae'r prif gerrig milltir yn 2024/25 yn cynnwys:

- Lansio Polisi Taliadau Uniongyrchol ar ei newydd wedd, sy'n darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer cyflawni.
- Cyflwyno gwasanaethau Micro-fentrau, ehangu'r farchnad ofal a gwella dewis a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth.

### Prosiect Catalyddion Gofal

Mae'r prosiect yn helpu Catalyddion Gofal i sefydlu eu gwasanaethau gofal bach, annibynnol eu hunain – o'r enw micro-fentrau. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig gofal personol, cymunedol, sydd yn aml wedi'u haddasu i anghenion lleol. Yn 2024, mae 63 o ficro-fentrau yn gweithredu yn Sir Gaerfyrddin, gyda 73% yn darparu gofal personol. Mae'r prosiect wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn rhestrau aros Gofal Cartref, gan wella mynediad a hyblygrwydd yn y ddarpariaeth ofal.

### Datblygu Cartrefi Gofal

Mae cynlluniau wedi'u cyhoeddi i ailddatblygu hen gartref gofal Plas y Bryn yng Nghwmgwili yn gyfleuster nyrsio a gofal preswyl 60 gwely newydd i'w gofrestru'n ddeuol – y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Yn amodol ar gyllid rhannol drwy Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso Llywodraeth Cymru, bydd y datblygiad arfaethedig yn dyblu capasiti'r cartref gwreiddiol ac yn mynd i'r afael â bwlch sylweddol yn narpariaeth gofal yr awdurdod lleol. Bydd y cyfleuster newydd yn cael ei ddylunio hyd at safonau Carbon Sero Net, gan gefnogi uchelgais y Cyngor i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Yn ogystal ag ehangu capasiti gofal, disgwylir i'r prosiect ddarparu buddion cymunedol ehangach, gan gynnwys cyflogaeth leol a datblygu sgiliau. Mae Ymgynghoriad Cyn-ymgeisio wedi'i drefnu ar gyfer Rhagfyr 2025, a disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau ym mis Hydref 2026.

### Byw'n Dda yn Sir Gaerfyrddin

Wrth lunio Strategaeth Byw'n Dda yn Sir Gaerfyrddin, cynhaliwyd chwe digwyddiad cymunedol yng nghymunedau gwledig Sir Gaerfyrddin, a oedd yn cynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd i ddeall beth oedd ystyr byw'n dda iddyn nhw. Daeth y digwyddiadau hyn ag ystod eang o wasanaethau ynghyd sy'n canolbwyntio ar atal, llesiant a hunan-ofal, gan helpu unigolion i ddeall y cymorth sydd ar gael i'w helpu i gadw'n iach a byw'n annibynnol gartref. Daeth 260 o bobl i'r digwyddiadau. Dywedodd y sefydliadau gymerodd ran fod hwn wedi bod yn gyfle gwych i rwydweithio a chodi proffil eu gwasanaethau ymhlith gweithwyr proffesiynol eraill, yn ogystal â'r cyhoedd. Bu i'r adborth gan y cyhoedd ganmol yr amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael gydag un yn dweud:
'Dwi wedi cael gafael ar wybodaeth hynod ddefnyddiol am waredu eitemau meddygol, wedi cael gwiriad iechyd, fydda i'n cael fy larwm tân wedi'i wirio a chymorth i rwystro galwadau niwsans.'

**Astudiaeth Achos**

Mae'r Tîm Llesiant yn wasanaeth cymorth ac ataliol cynnar sy'n cefnogi oedolion a'u gofalwyr ag anghenion iechyd meddwl a llesiant. Mae'r tîm yn gweithio ar draws y sir ac yn cydweithio â meddygon teulu, gwasanaethau tai, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Heddlu Dyfed-Powys, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ac amryw sefydliadau'r trydydd sector, fel Mind a Gweithredu Gorllewin Cymru dros Iechyd Meddwl.

Eleni mae'r tîm wedi helpu unigolyn a wynebai sefyllfa lle roedd ei gartref ar fin cael ei adfeddiannu. Gyda'r gefnogaeth a ddarparwyd, llwyddwyd i atal yr adfeddiannu gan ei fod yn cael effaith negyddol dros ben ar ei iechyd meddwl. Rhoddwyd help i'r unigolyn gyfathrebu â'i gwmni morgeisi, a phenderfynodd werthu ei gartref.

Roedd gan yr unigolyn dueddiadau celcio hefyd, ac roedd ei gartref yn orlawn o eitemau. Ar yr adegau rhoddwyd cymorth, trefnodd y Tîm Llesiant fwy o gymorth iechyd meddwl tymor byr. Helpodd y tîm fe i drefnu a didoli'r hyn oedd ganddo trwy gefnogaeth ymarferol ac emosiynol.

Mae cefnogaeth barhaus wedi'i darparu gan y Tîm Llesiant. Hefyd mae'r unigolyn wedi mynychu grŵp cymorth celcio yn Mind, lle cafodd gefnogaeth gan eraill sydd mewn sefyllfaoedd tebyg, yn ogystal ag arweiniad gan weithwyr proffesiynol sy'n arwain y grŵp. Mae hyn wedi rhoi'r gallu iddo adael ei gartref yn rheolaidd i fynychu'r sesiynau, lle mae'n cysylltu ag eraill ac yn parhau i wneud cynnydd yn ei daith.

**Gwasanaethau Atal a Monitro Galwadau Niwsans Seraphim trueCall©**

Mae 238 o breswylwyr agored i niwed yn destun gwasanaethau gwell i atal twyll telefarchnata o dan raglen atal twyll telefarchnata trueCall© Safonau Masnach. Mae dyfeisiau rhwystro galwadau niwsans trueCall© y preswylwyr yn cael eu monitro'n fisol gan ddefnyddio Seraphimbeta©, sef datrysiad meddalwedd arloesol a ddyluniwyd gan Safonau Masnach i rybuddio swyddogion lle ofnir bod preswylwyr agored i niwed wedi bod mewn cyswllt â throseddwyr telefarchnata.

Y llynedd, rhwystrodd y rhaglen 31,374 o alwadau niwsans, ac o'r rhain roedd 6,756 ohonynt o rifau cysylltiedig â throseddwyr telefarchnata. O hynny, cymerwyd 2,421 o gamau monitro a arweiniodd at 74 o rybuddion ymyrraeth llesiant, gan sbarduno ymyriadau cyswllt uniongyrchol gan y tîm.

Amcangyfrifir bod y rhaglen wedi atal tua 40 o achosion o dwyll telefarchnata ac wedi creu arbedion o £184,554 i aelwydydd agored i niwed. Arweiniodd hyn at ostyngiad o £109,297 mewn costau gwasanaeth cyhoeddus (GIG, Gofal Cymdeithasol a'r Heddlu).

# Oes unrhyw un ar ei ennill?



Roedd dau o breswylwyr Sir Gaerfyrddin, Mark a Lesley, sydd wedi elwa o daliadau uniongyrchol drwy wasanaethau Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Caerfyrddin, yn westeion anrhydeddus yn Seremoni Cydsyniad Frenhinol y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ddydd Llun, 24 Mawrth, ym Mharc Cathays, Caerdydd.

Mae tystiolaeth bwerus Mark a Lesley am eu profiadau cadarnhaol gyda thaliadau uniongyrchol yn Sir Gaerfyrddin wedi cael dylanwad ar ddatblygiad y ddeddfwriaeth nodedig hon. Cydnabuwyd eu cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru, a'u gwahoddodd i fod yn dyst i'r digwyddiad hanesyddol hwn, lle rhoddodd Prif Weinidog Cymru, Eluned Morgan AS, y sêl yn ffurfiol i'r Llythyrau Patent, gan ddeddfu'r gyfraith newydd.

Roedd Mark a Lesley yng nghwmni eu cynorthwyydd personol, wedi'i ariannu trwy daliadau uniongyrchol, a'u huwch-weithiwr cymdeithasol, Catherine James, a oedd wedi eu cefnogi trwy gydol eu taith. Roedden nhw'n teimlo ei bod yn bwysig bod y rhai a oedd wedi chwarae rhan allweddol yn eu gofal yn bresennol i rannu'r foment. Dywedodd Lesley:"Roedd yn anrhydedd i ni gael ein gwahodd i'r Seremoni Cydsyniad Brenhinol a gwybod bod rhannu ein stori wedi helpu i lunio deddf a fydd yn rhoi'r un annibyniaeth a dewis i eraill ag yr ydym wedi'i gael. Mae'n galonogol gweld ein profiad yn cael ei werthfawrogi yn y modd hwn ac rydym yn falch o rannu'r seremoni gyda'r ddau unigolyn sydd mor allweddol wrth ganiatáu i ni fyw ein bywydau gorau posibl."

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn cyflwyno diwygiadau sylweddol, gan gynnwys rhoi terfyn ar elw preifat mewn gofal preswyl a gofal maeth i blant, gan olygu mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i ddeddfu'r newid hwn. Mae hyn wedi galluogi cyflwyno taliadau uniongyrchol o fewn gofal iechyd parhaus y GIG, gan roi mwy o reolaeth dros eu gofal i bobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor.

# Sut gallwn ni wneud yn well?

Byddwn yn parhau i wrando ar ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnal digwyddiad "Fe ddwedsoch chi, fe wnaethom ni" i rannu cynnydd a llunio gwelliannau yn y dyfodol. Bydd ein Polisi Addasiadau newydd yn ein helpu i gyflawni addasiadau cartref amserol, gan gefnogi byw'n annibynnol a rhyddhau o'r ysbyty yn gyflymach. Byddwn hefyd yn cryfhau ein gwaith atal hunanladdiad mewn ymateb i bryderon cynyddol, ac yn adolygu gwasanaethau yn unol ag Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, i sicrhau bod blaenoriaethau'n dal i gyd-fynd ag anghenion cyfredol. Mae hyn yn cynnwys gwella gofal maeth, ehangu'r ddarpariaeth gartref, buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol, parhau â'n rhaglen Cysylltu Bywydau sy'n tyfu, cynyddu capasiti cartrefi gofal arbenigol, a chryfhau gofal cartref a chymunedol.

# Amcan Llesiant 3

## Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)

### Trosolwg o'r cynnydd

Mae economi sefydlog sy'n gweithio'n dda yn sail ar gyfer twf, cymunedau ffyniannus, a safonau byw gwell, lle gall pawb fanteisio ar gyfle. Mae cyfleoedd cyflogaeth amrywiol a diogel, canol trefi a busnesau ffyniannus, a marchnad lafur fedrus yn allweddol i sicrhau economi iach, ac rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo hyn trwy ystod o ymyriadau. Mae economi Sir Gaerfyrddin wedi adfer yn dda dros y blynyddoedd diwethaf, ond nid yw'n rhydd rhag pwysau a heriau allanol. Mae incwm gwario aelwydydd yn parhau i fod yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol ac mae cyfraddau anweithgarwch economaidd dal yn uwch na'r cyfartaledd.

Mae mewnfuddsoddiad a chyllid allanol sylweddol wedi'u sicrhau i gefnogi prosiectau cymunedol, busnesau, creu swyddi, ac adfywio canol trefi. Mae nifer o brosiectau strategol a phrosiectau cyhoeddus naill ai ar y gweill neu wedi'u cwblhau a fydd yn gwella canol trefi ac ardaloedd cyfagos er budd cymunedau lleol. Mae'r gwaith ym Mhentre Awel yn parhau acha rât gyda manteision i'r ardaloedd cyfagos eisoes yn cael eu gwireddu drwy gymunedau.

Mae ein dwy raglen gyflogadwyedd wedi parhau i gefnogi'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur i gael mynediad at gyflogaeth, cyfleoedd gwirfoddoli, neu hyfforddiant. Mae'r cyfleoedd hyn wedi'u cynllunio i gynyddu hyder ac arfogi pobl â'r sgiliau i gael swyddi a fydd yn gwella eu rhagolygon.

I gydnabod mai busnesau'r sir yw sylfaen ein heconomi, mae gwaith yn parhau i gynnig cefnogaeth trwy ystod o ymyriadau, gyda ffocws ar wella mynediad i ofod masnachol, darparu cyfleoedd rhwydweithio, cyfeirio at gyfleoedd cyllido sydd ar gael, a chefnogi busnesau i fanteisio ar gadwyni cyflenwi lleol trwy gyfleoedd caffael.

Amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin yw un o'i hasedau mwyaf. Mae'r Cyngor wedi datgan ei ymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a bydd yn parhau i weithio tuag at fod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030, gan fynd i'r afael â'r materion sy'n sbarduno dirywiad yn ein bioamrywiaeth ac yn cefnogi adferiad natur. Rydym wedi gweld gostyngiad o 37% yn yr allyriadau carbon a dargedwyd yn y Cynllun Sero Net. Mae tair strategaeth arwyddocaol wedi'u datblygu i gefnogi bioamrywiaeth. Rydym hefyd wedi cymryd nifer o gamau i liniaru effeithiau llifogydd.
Rydym wedi gweld cynnydd da yn y Gwasanaethau Gwastraff, lle bu gwelliant parhaus mewn perfformiad o ran ailddefnyddio ac ailgylchu, gostyngiad yn y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, a gostyngiad yn y gwastraff fesul person nad yw'n cael ei ailgylchu. Ategir hyn gan y ffaith i'r Gwasanaethau Gwastraff gael y lefelau boddhad uchaf yn yr arolwg preswylwyr ar gyfer 2024.

Mae ein Sir yn gadarnle strategol i'r Gymraeg, gyda bron i 40% o'r preswylwyr yn siaradwyr Cymraeg. Mae ein cymunedau Cymraeg yn wydn; fodd bynnag, mae gostyngiad wedi bod yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Cyngor wedi arwain ar ddatblygu cynlluniau i gefnogi gwneud y Gymraeg yn norm mewn meysydd fel annog ei defnydd gyda phlant oedran cyn-ysgol, cynyddu cyfran y teuluoedd sy'n trosglwyddo'r iaith yn llwyddiannus gartref, a chynyddu nifer y preswylwyr sy'n dysgu Cymraeg.

Mae lefelau troseddu yn Sir Gaerfyrddin yn gymharol isel. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned, ond mae rhywfaint o anghysondeb ar draws y Sir. Mae gwaith partneriaeth effeithiol wedi parhau dros y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar gydlyniant cymunedol a gwaith cymunedol wedi'i dargedu.

Mae'r Cyngor yn cynnal rhwydwaith priffyrdd helaeth o dros 3,500km ar draws ardaloedd lled-drefol a gwledig. Golyga cwtogiadau cyllid, pwysau ar y gadwyn gyflenwi, disgwyliadau cynyddol y cyhoedd, a dirywiad yn y priffyrdd fod y gwasanaeth dan bwysau. Ategir hyn gan y ffaith i faes gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth gael y lefelau boddhad isaf yn yr Arolwg Preswylwyr ar gyfer 2024. O ganlyniad, rydym yn blaenoriaethu cynnal y rhwydwaith, yn enwedig yn ystod y gaeaf, er mwyn sicrhau mynediad di-dor i wasanaethau hanfodol sy'n diogelu cysylltedd strategol. Mae rhagor o waith wedi'i gwblhau ar heriau strategol mawr megis ymgyrch genedlaethol 20mya, datblygu cynllunio trafnidiaeth ranbarthol, a'r dyheadau carbon sero net.
Mae nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ein ffyrdd yn parhau i gynyddu, ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud popeth yn ei allu i wneud ein ffyrdd yn fwy diogel trwy weithio mewn partneriaeth, codi ymwybyddiaeth, a chyfleoedd addysg a hyfforddiant i wella sgiliau ac ymddygiadau defnyddwyr ffordd.

Mae'r cynnig chwaraeon, hamdden a thwristiaeth yn y sir yn parhau i berfformio'n dda wrth i ymwelwyr dros nos a dydd gyfrannu £683m i'r economi leol gan gefnogi 6,649 o swyddi amser llawn. Mae'r sectorau hyn yn strategol bwysig i'r Sir ac yn manteisio ar ein tirwedd naturiol a'n cynnig diwylliannol a threftadaeth cryf. Yn bwysicach byth, maent yn helpu ac yn annog ein preswylwyr a'n hymwelwyr i fyw bywydau egnïol, iach a chyfoethog.



## Yn Gryno

Bu gwaith sylweddol mewn adferiad a thwf economaidd yn 2024/25. Llwyddwyd i gyflawni hyn oherwydd bod y gwasanaeth wedi cael cyllid allanol – yn bennaf oll trwy Raglen Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU a'r Rhaglen Ffyniant Bro. Ynghyd â chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, mae'r arian hyn wedi galluogi Datblygu Economaidd i ddarparu rhaglenni'n uniongyrchol ym maes Sgiliau, Adfywio Canol Trefi, Cymunedau a Chymorth Busnes. Mae prosiectau strategol fel Hwb Caerfyrddin a Phentre Awel ar y gweill ers tro, ac mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo'n hwylus ar y naw.

Mae cyllideb £38.68m Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi'i gwario'n llawn gyda'r holl brosiectau bellach wedi'u cwblhau. Derbyniodd dros 520 o brosiectau Sir Gaerfyrddin gyllid o'n dyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin, ac roeddent yn amrywio o welliannau mewn trefi bach i brosiectau strategol mawr. Mae busnesau a chymunedau wedi derbyn buddsoddiad sylweddol, ac mae'r rhaglen wedi cael effaith sylweddol ar yr economi leol. Mae tîm penodol Datblygu Economaidd ar gyfer Rheoli Prosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a Thimau Angor wedi cyflawni'r allbynnau canlynol:

- 529 o swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi'u creu,
- 154 o swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi'u diogelu,
- 508 o bobl wedi cael cymorth i gael cyflogaeth,
- 3,652 o gyfleoedd gwirfoddoli newydd wedi eu creu,
- 6,988 o gyfleoedd gwirfoddoli presennol wedi'u cefnogi,
- 3,378 o ddigwyddiadau neu weithgareddau lleol wedi'u cefnogi,
- 842 o fentrau wedi cael cymorth anariannol,
- 7,611 o bobl wedi mynychu sesiynau hyfforddiant,
- 1,264 o bobl wedi cael cymorth i gael cymhwyster,
- 209 o gyrsiau rhifedd i oedolion wedi'u cyflwyno,
- 2,185 o bobl yn ymgysylltu â gweithiwr allweddol,
- 417 o sefydliadau wedi derbyn grant.





## Sut ydyn ni'n gwneud?

- Mae cyfraddau cyflogaeth wedi gwella rhyw fymryn yn Sir Gaerfyrddin i 72.8% ar ddiwedd mis Mawrth 2025, o gymharu â 72.0% am y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, maent yn parhau i fod yn is na chyfraddau Cymru a'r DU o 73.4% a 75.4%. Cynyddodd y ffigurau diweithdra ychydig i 3.6% ym mis Mawrth 2025 o gymharu â 3.0% ym Mawrth 2024. Mae hyn yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru (3.5%) ond yn is na chyfradd y DU (3.8%). Mae Anweithgarwch Economaidd[5] yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn uchel er gwaethaf gwelliant bach o 21.7% ym mis Mawrth 2024 i 21.1% ym mis Mawrth 2025. Mae hyn yn uwch na chyfradd Cymru o 19.9% a llawer uwch na chyfradd y DU o 17.7%.
- Am y tro cyntaf ers 2020, gostyngodd cyfran y rhai rhwng 18 a 64 oed oedd yn gymwys hyd at Lefel 4 neu uwch y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r data diweddaraf (Rhagfyr 2024) yn dangos canlyniad o 40.7% sy'n ostyngiad sylweddol o ffigur y flwyddyn flaenorol, sef 46.3%. Mae hyn llawer is na chanlyniad Cymru o 46.4%, a oedd yn 45% y flwyddyn gynt. Mae datblygu sgiliau a chymwysterau yn gwella cyflogadwyedd, yn rhoi hwb i ragolygon gyrfa ac yn creu marchnad lafur fedrus a galluog iawn. Mae hefyd yn sicrhau bod gennym weithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn tuedd am i lawr dros y blynyddoedd diwethaf, cynyddodd cyfran y rhai rhwng 18 a 64 oed heb unrhyw gymwysterau yn ôl y data diweddaraf (Rhagfyr 2024) – 6.4% o gymharu â 5.3% y flwyddyn flaenorol. Rydym yn parhau i fod yn is na Chymru (7.9%).
- Crëwyd 1,789 o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol gyda chymorth adfywio yn ystod 2024/25. Mae hyn bron ddwywaith ffigur y flwyddyn flaenorol sef 955.
- Cafodd 151 o unigolion eu cefnogi drwy gynlluniau cyflogadwyedd y Cyngor i ennill y cyflog byw go iawn yn ystod 2024/25, mae hyn yn ostyngiad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 158. Roedd llawer o'r cleientiaid a gefnogwyd yn dal i dderbyn cyngor ac arweiniad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan eu bod yn profi rhwystrau lluosog ac anghenion cymhleth. Felly, mae angen cymorth ychwanegol cyn cael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth.
- Sicrhaodd Datblygu Economaidd dros £58m o gyllid yn ystod 2024/25 trwy fuddsoddiad yn y sector preifat ac amrywiol geisiadau llwyddiannus am gyllid allanol.
- Mae ymwelwyr dros nos ac ymwelwyr dydd yn cyfrannu £683m i'r economi leol gan gefnogi 6,649 o swyddi amser llawn.

[5] Diffinnir anweithgarwch economaidd fel pobl nad ydynt mewn cyflogaeth neu sy'n ddi-waith, ac mae'r data uchod yn eithrio myfyrwyr a phobl 65+, felly gallent fod yn anweithgar oherwydd eu bod yn gofalu am aelod o'r teulu neu'n dioddef o salwch hirdymor ac ati.

## Canlyniad: Cefnogir busnesau a darperir swyddi.

Mae cymorth a thwf sylweddol wedi'u darparu ledled Sir Gaerfyrddin drwy Ddatblygu Economaidd yn 2024/25, gyda 1,353 o swyddi uniongyrchol wedi'u creu/darparu ar eu cyfer, 436 o swyddi anuniongyrchol wedi'u creu drwy adeiladu, a 346 o swyddi wedi'u diogelu.



Mae cyfanswm o 3,953 o wirfoddolwyr wedi cael eu cefnogi drwy raglenni fel y Gronfa Cymunedau Cynaliadwy a'r Rhaglen Ffyniant Gyffredin. Mae 2,328 o fusnesau wedi cael eu cefnogi drwy Gymorth Busnes, y Bartneriaeth Sgiliau Dysgu Ranbarthol, a mentrau adfywio canol trefi. Mae'r tabl isod yn dangos yr hyn mae'r tîm wedi'i gyflawni yn erbyn y targedau.

| | Creu / Darparu ar gyfer Swyddi Uniongyrchol / i mewn i Swyddi | Creu Swyddi Anuniongyrchol / Swyddi Adeiladu (gwariant ar adeiladu / £150,000) | Diogelu Swyddi | PSI / Cyllid allanol a sicrhawyd | Nifer y Gwirfoddolwyr | Nifer y busnesau a gefnogwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm ar gyfer 24/25 | 1,353 | 436 | 346 | 58,378,868 | 3,953 | 2,328 |
| Targed Blynyddol | 1,257 | 565 | 320 | 42,602,169.47 | 2,318 | 1,123 |
| Gwahaniaeth | 96 | -129 | 26 | 15,776,698.95 | 1,635 | 1,205 |

**Marchnadoedd**

Mae'r marchnadoedd nwyddau yn ein prif drefi yn parhau i ddarparu gwasanaeth allweddol i'n preswylwyr a'n hymwelwyr. Gan adeiladu ar eu llwyddiant, rydym wedi cynnal digwyddiad masnachu i ieuenctid ym mhob un o'n trefi, ac roedd presenoldeb da ynddynt. Rhoddodd y digwyddiad gyfle i blant ysgol lleol gael profiad o fasnachu yn y farchnad trwy ddatblygu syniad busnes a'i droi'n fenter, gan ennill profiad gwerthfawr o'r byd gwaith a busnes.

**Cymorth Busnes**

Parhaodd Datblygu Economaidd i gynnig amrywiaeth o fesurau cymorth busnes gyda'r nod o greu a diogelu swyddi, darparu arian i brynu offer cyfalaf a refeniw, ac adeiladu ac adnewyddu eiddo at ddefnydd economaidd ledled y sir.

Cefnogwyd 1,061 o fusnesau gyda grantiau a benthyciadau trwy Ddatblygu Economaidd yn 2024/25. Er enghraifft, o dan Raglen Twf Busnes a Dechrau Busnes y Gronfa Ffyniant Gyffredin, cefnogwyd cyfanswm o 194 o fusnesau, gan ddarparu £3.4 miliwn o fuddsoddiad, creu 317 o swyddi, a diogelu 97 o swyddi.

**Safleoedd Cyflogaeth**

Dros y 12 mis diwethaf, mae Datblygu Economaidd wedi gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i ddatblygu a darparu sawl safle cyflogaeth i greu lle i fusnesau naill ai ddechrau neu dyfu, gan greu swyddi a thwf.

Mae Parc Gelli Werdd yn ddatblygiad newydd a chynaliadwy sy'n darparu cyfanswm o 32,500 troedfedd sgwâr o le cyflogaeth ar Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands. Mae'r datblygiad yn cynnwys unedau diwydiannol a swyddfeydd mewn tri adeilad, gan dargedu'r sectorau canlynol:



- Gweithgynhyrchu Uwch
- Technoleg Bwyd-Amaeth
- Creadigol
- Ynni a'r Amgylchedd
- Ariannol a Phroffesiynol

Un o uchafbwyntiau'r lle yw ei fod wedi defnyddio egwyddorion Adeiladu Gweithredol sy'n cynnwys ynni solar ffotofoltäig ar y safle a dull ffabrig yn gyntaf sy'n cynnwys lefelau uchel o insiwleiddio a fydd yn lleihau costau gwresogi. Wedi'i gynllunio gyda'r nod o gyflawni 'Targed carbon sero net mewn defnydd' ac wedi cyflawni graddau BREEAM[6] "Rhagorol" ac EPC[7] "A". Mae'r datblygiad hwn yn cynnwys system rheoli adeiladau arloesol (BMS) sy'n ymgorffori platfform mesur a monitro pwrpasol i alluogi bilio a monitro perfformiad manwl. Bydd data a gesglir drwy'r system rheoli adeiladau yn cael ei ddefnyddio i ddarparu dysgu yn y dyfodol mewn perthynas â chynaliadwyedd a datgarboneiddio, i wella perfformiad y datblygiad ac i lywio'r gwaith o adeiladu a gweithredu safleoedd newydd. Drwy fabwysiadu arferion da, dylai tenantiaid allu mwynhau costau ynni is o ganlyniad i nodweddion cynaliadwy'r datblygiad.

Yn ogystal, mae caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau ar gyfer datblygu 7,500 troedfedd sgwâr o unedau diwydiannol ar safle cyflogaeth Beechwood yn Llandeilo. Rhagwelir y bydd y datblygiad hwn yn cael ei gyflawni yn 2025/26 mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru drwy'r Gyd-fenter Wledig.




[6] Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladud
[7] Tystysgrif Perfformiad Ynni

## Canlyniad: Caiff pobl eu cynorthwyo i fanteisio ar gyfleoedd lleol boed hynny trwy ddechrau busnes, ennill cymwysterau neu gael gwaith ystyrlon.

**Y Rhaglen Deg Tref**

Rydym wedi bod yn cyflawni'r rhaglen hon i gefnogi adfywio deg tref farchnad wledig ledled y sir. Mae'r Awdurdod wedi buddsoddi £1m o gyllid cyfalaf ynghyd â buddsoddiad pellach o £1.2m gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i gyflawni ystod o fentrau i gefnogi anghenion busnesau a'r gymuned ehangach:

- Mae £260,000 wedi'i fuddsoddi i gefnogi'r gwaith o addasu eiddo gwag a dechrau eu defnyddio at ddibenion busnes eto.
- Mae 95 eiddo wedi cael cyllid i wella blaen eu siopau.
- Gwelwyd gwelliannau i'r amgylchfyd cyhoeddus, glanhau strydoedd, a murluniau celf i wella bywiogrwydd y trefi.
- Mae 8 digwyddiad gwledig wedi cael cymorth i ddenu ymwelwyr ychwanegol i'r trefi.
- Mae pob un o'r trefi wedi derbyn cyllid i gefnogi mentrau a nodwyd yn flaenoriaeth gan y cymunedau priodol e.e. datblygu canolfan gymunedol; trac pwmpio; man digwyddiadau; byncws, datblygiad marchnad newydd; gwell cyfleusterau parcio ceir.



Mae sawl menter wedi cael cymorth i godi ymwybyddiaeth o'r economi gylchol gan gynnwys gweithgareddau siop gyfnewid, llyfrgell pethau, a chaffis trwsio. Yn ogystal, mae ysgolion lleol wedi dylunio gwaith artistig o gynhyrchion gwastraff sy'n cael ei arddangos yn eu trefi.

**Cronfa Cymunedau Cynaliadwy**

Wedi'i ariannu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae'r Gronfa Cymunedau Cynaliadwy wedi galluogi buddsoddiad o dros £6m mewn prosiectau a arweinir gan y gymuned leol. Mae'r cynllun wedi cyflawni'r allbynnau canlynol:

- 70 o brosiectau wedi'u cynorthwyo,
- 37 o swyddi wedi'u creu,
- 32 o swyddi wedi'u diogelu,
- Gwariwyd dros £900,000 yn lleol,
- 42 amwynder/cyfleuster newydd neu well,
- 12,900m o lwybrau wedi eu creu neu eu gwella;
- 586 digwyddiad neu weithgaredd cymunedol,
- 2,933 cyfle gwirfoddoli newydd.

Ceir astudiaethau achos drwy'r ddolen: **Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - Prosiectau Cymunedau Cynaliadwy - Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Cronfa Cyflogadwyedd a Sgiliau**
Wedi'i ariannu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae'r Gronfa Cyflogadwyedd a Sgiliau wedi bod yn cefnogi pobl i gael swyddi, gyda:

- 11 prosiect yn cael cymorth,
- 45 yn cael cymorth i gael swyddi neu hunangyflogaeth,
- 1,201 yn ennill cymhwyster,
- 111 o gyfleoedd gwirfoddoli.

**Adfywio Canol Trefi**
Dros y 12 mis diwethaf, mae Datblygu Economaidd wedi parhau i ddarparu mentrau adfywio canol trefi yn y tair prif dref sef Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli. Mae cyfanswm o £4.2 miliwn wedi'i fuddsoddi yn ein trefi drwy lu o fentrau sy'n anelu at wella'r cynnig. Rydym wedi darparu grantiau i fusnesau i wella eu heiddo, gwneud gwelliannau i'r amgylchfyd cyhoeddus, a rhoi cyllid i gefnogi digwyddiadau yng nghanol ein trefi.



Mae'r gweithgarwch wedi'i gydlynu trwy Fforwm a Thasglu pob tref, lle mae rhanddeiliaid allweddol o'r sector preifat, y sector gwirfoddol, cyrff cyhoeddus eraill, a'r awdurdod lleol yn dod at ei gilydd i drafod a chydlynu gweithgarwch yng nghanol ein trefi.







**Digwyddiadau Canol y Dref**
Mae nifer o ddigwyddiadau a gwyliau yng Nghanol ein Trefi wedi cael eu cefnogi gan Ddatblygu Economaidd yn ystod 2024/25, gan ddod â llawer o sefydliadau a chymunedau at ei gilydd yn ein prif drefi yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli a chynyddu nifer yr ymwelwyr â'n trefi.

**Hwb Caerfyrddin**
Cwblhawyd gwaith galluogi ar gyfer y prosiect ym mis Ebrill 2024, gyda'r prif gontract adeiladu wedi'i lofnodi ym mis Gorffennaf 2024. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n hwylus ar y safle. Mae'r prif adeilad ar y safle wedi'i gyflawni a'r gosodiadau yn eu lle, ac mae is-gontractwyr y sylfeini wedi cwblhau'r gwaith o dorri'r slabiau mewnol allan a gosod y draeniau. Dechreuodd y gwaith toi ar gychwyn mis Tachwedd a'r ystafell beiriannau yn y to ym mis Rhagfyr 2024. Mae'r dur eilaidd, chwyddedig, a'r cysylltiad draenio adran 104 wedi'u cwblhau. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn gwanwyn 2026.

**YMCA – Llanelli**

Ym mis Tachwedd 2019, llwyddodd y Cyngor i gael y dyfarniad llawn o £2,000,000 o gyllid strategol y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio ar gyfer datblygiad YMCA. Y bwriad oedd ailddatblygu adeilad eiconig yng nghanol tref Llanelli er mwyn ei ailddefnyddio. Mae'r datblygiad yn 1,700m$^2$ dros bedwar llawr ac islawr. Bydd yr hen adeilad YMCA hwn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol a chymunedol ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf, gydag wyth fflat dwy ystafell wely ar yr ail lawr a'r trydydd llawr. Mae rhywun yn byw yn yr holl unedau tai, tra bo'r unedau adwerthu a swyddfa'n cael eu hysbysebu ar-lein ar hyn o bryd i fusnesau fynegi'u diddordeb.

**Cyn y gwaith**



**Ar ôl y gwaith**



**Gogledd Stryd y Farchnad**

Ym mis Tachwedd 2019, llwyddodd y Cyngor hefyd i gael y dyfarniad llawn o £2,000,000 o gyllid strategol y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio ar gyfer Cynllun Gogledd Stryd y Farchnad. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Awst 2020 ar gyfer dymchwel ac ailgodi'r adeilad tri llawr i ddarparu pum uned at ddefnydd masnachol ar y llawr gwaelod a 10 fflat 2 ystafell wely ar y llawr cyntaf a'r ail lawr. Cwblhawyd y gwaith dymchwel ym mis Rhagfyr 2020. Dechreuodd y prosiect yn swyddogol ar y safle ym mis Medi 2023, ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau ym mis Medi 2025.

**Argraff Artist**



**Gwaith yn mynd rhagddo**



**Gwelliannau i'r Amgylchfyd Cyhoeddus**

Mae nifer o welliannau i'r amgylchfyd cyhoeddus wedi'u cyflawni yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli. Mae'r prosiectau hyn wedi gwella gwedd canol ein trefi. Ymhlith yr enghreifftiau o brosiectau a gwblhawyd y mae:

**Sgwâr y Farchnad Rhydaman - Stryd y Cei**

Mae gwaith helaeth wedi'i wneud yn Sgwâr y Farchnad, Rhydaman, lle gwaredwyd arhosfan bws diddefnydd, ad-leolwyd lloches feiciau, gwnaed gwelliannau i oleuadau a rheiliau, a gwellwyd mynediad i gerddwyr rhwng Maes Parcio Carregaman a chanol y dref. Ynghyd ag ailwynebu sgwâr y farchnad yn llwyr, mae'r llecyn hwn bellach yn lleoliad canolog mwy o faint ar gyfer cynnal y farchnad a digwyddiadau cymunedol eraill yng nghanol y dref.

**Cyn y gwaith**



**Ar ôl y gwaith**



**Caerfyrddin**

Mae sawl prosiect ar y gweill yng nghanol y dref i wella gwedd, hygyrchedd, cysylltedd rhwng lleoliadau allweddol yng nghanol y dref, a moderneiddio celfi stryd. Mae'r prosiectau Mynd i'r Afael â Threfi yn cynnwys Castell Caerfyrddin, Mynedfa Maes Parcio San Pedr, y Neuadd Sirol a Maes Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines, Heol Goch a Rhodfa'r Farchnad, Stryd y Capel, Ffordd Cambria, Heol Ioan, Heol Goch ac Arwyddion Tref.

**Cyn y gwaith**



**Cyn y gwaith**



**Ar ôl y gwaith**



**Ar ôl y gwaith**



## Stryd Cowell



Mewn ymateb i COVID-19, cafodd cyfyngiad traffig dros dro ei gyflwyno yn Stryd Cowell, a rhoddwyd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith. Roedd hyn yn caniatáu asesu'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd stryd. Dengys astudiaethau rhagarweiniol fod y lle hwn wedi cael ei ddefnyddio'n gadarnhaol gan gwmnïau, ac nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar gylchrediad cerbydau. Wrth ymateb, nodwyd bod gwelliannau i amgylchfyd cyhoeddus Stryd Cowell yn hanfodol i Gynllun Adfer Canol Tref Llanelli. Ar ôl cyhoeddi'r cynllun adfer, cafodd Atkins ei hurio i gynnal astudiaeth ddichonoldeb i edrych ar ffyrdd o wella'r amgylchfyd cyhoeddus a chreu lleoedd mewn sawl rhan bwysig o ganol tref Llanelli, gan gynnwys Stryd Cowell.



Mae'r cynllun a gyflwynwyd yn dangos dyluniad 'cyfeillgar' i gerddwyr. Er enghraifft, mae croesfan arfaethedig 1.6m o led i'w hychwanegu, cilfannau presennol i'w codi i lefel y droedffordd, a chroesfan arall i'w hychwanegu yn unol â'r canllawiau teithio llesol. Ar ben hynny, bwriedir ail-darmacio rhannau o'r stryd fel rhan o'r prosiect. Dechreuodd gwaith y prosiect ar 27 Awst ac fe'i cwblhawyd mewn 9 wythnos.

## Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol

Mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru yn un o bedair partneriaeth sgiliau sy'n gweithio gyda'r sector preifat, y sector cyhoeddus, darparwyr sgiliau/hyfforddiant, darparwyr addysg, a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau ein bod yn darparu'r sgiliau cywir ar gyfer ein gweithlu yn y dyfodol.

Mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol yn cynhyrchu ac yn dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur, yn casglu tystiolaeth gan gyflogwyr rhanbarthol trwy grwpiau clwstwr y sector a thrwy arolygon, ac yn cyhoeddi Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol 3 blynedd. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am y sgiliau sydd eu hangen ar draws y rhanbarth nawr ac yn y dyfodol. Mae'r tabl isod yn dangos gwaith y Bartneriaeth Sgiliau dros y flwyddyn.

| Datblygu dealltwriaeth o ofynion sgiliau'r dyfodol | Hyrwyddo llwybrau gyrfa a chyfleoedd prentisiaeth | Datblygu gweithlu medrus y dyfodol ar gyfer y rhanbarth |
|---|---|---|
| • Datblygu dealltwriaeth o ofynion sgiliau'r dyfodol<br>• Baromedr sgiliau<br>• Adroddiadau cudd-wybodaeth y farchnad lafur<br>• Safonau meddiannaeth cenedlaethol<br>• Grwpiau ffocws diwydiant<br>• Grwpiau ieuenctid, arolygu cyn 16 oed<br>• Arolygu diwydiant<br>• Blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg – Sero Net, AI ac ati<br>• Cynlluniau Sgiliau – awdurdod rhanbarthol a lleol (canolbwyntio ar feysydd allweddol o ran bylchau sgiliau a'r diwydiant economaidd craidd)<br>• Mae grwpiau clwstwr yn canolbwyntio ar faterion craidd ar gyfer pob sector<br>• Mentrau lleol a chenedlaethol<br>• Deall gofynion seilwaith newydd a chadwyn gyflenwi | • Hyrwyddo cyfleoedd gradd prentisiaeth<br>• Dadansoddiad o'r cynnig prentisiaeth<br>• Hyrwyddo gyrfaoedd peirianneg a digidol drwy brentisiaeth<br>• Targedu disgyblion a rhieni mewn ysgolion<br>• Digwyddiadau gyrfaoedd<br>• Canfyddiadau gyrfa<br>• Gadewch i ni siarad am weminar Gen z<br>• Offer gwybodaeth llwybr gyrfa ar gyfer 7 sector<br>• Gweithdai prentisiaid i gyflogwyr | • Ymgysylltu â datblygwyr allweddol yn y dyfodol<br>• Aelodaeth o'r holl grwpiau gwaith allweddol ar gyfer y Porthladd Rydd a'r Môr Celtaidd<br>• Casglu data LMI, gan ddefnyddio gwybodaeth leol a chenedlaethol, i lunio camau gweithredu strategol<br>• Cefnogi datblygu cymhwyster profiad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr<br>• Hyrwyddo'r PLA i uwchsgilio'r gweithlu mewn ôl-osod a thechnolegau gwyrdd<br>• Digwyddiad sgiliau i'r dyfodol ar gyfer y gweithlu'r dyfodol<br>• Arddangos technolegau digidol newydd i grwpiau clwstwr |

Mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol hefyd yn arwain ar ddarparu'r rhaglen Sgiliau a Thalentau ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Gwaith y rhaglen yw nodi'n benodol anghenion sgiliau'r wyth prosiect Bargen Ddinesig a datblygu modiwlau neu gyrsiau newydd i ddiwallu anghenion sgiliau'r dyfodol lle nad ydynt yn bodoli'n barod. Mae cyfanswm o 25 o brosiectau peilot wedi'u hariannu ar draws y rhanbarth cyfan.

**Cynlluniau Cyflogadwyedd Sir Gaerfyrddin**

Mae dwy raglen gyflogadwyedd yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi'u cynllunio i gynorthwyo unigolion sydd naill ai'n ddi-waith neu'n chwilio am waith ychwanegol. Mae'r rhaglenni Cymunedau am Waith a Mwy a Gweithio Sir Gaerfyrddin (a ariennir gan Lywodraeth Cymru a thrwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin) yn darparu cymorth i unigolion sydd â'u bryd ar fynd i'r gweithlu'n syth neu ar ôl cymryd rhan mewn hyfforddiant neu wirfoddoli i gynyddu eu hyder.

Mae'r ddwy raglen yn cynnig amrywiaeth o opsiynau hyfforddi, cymorth gyda pharatoi CV a chyfweliadau, yn ogystal â chymorth i chwilio am swydd. Drwy gydol y flwyddyn, mae'r rhaglenni'n trefnu ffeiriau swyddi yn Llanelli, Rhydaman a Chaerfyrddin, gan gydweithio â busnesau lleol i hwyluso recriwtio ar gyfer swyddi gwag. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r rhaglenni wedi cefnogi 185 o fusnesau, wedi helpu 312 o unigolion i sicrhau cyflogaeth, ac wedi galluogi 184 o unigolion i gymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli.

## Canlyniad: Caiff busnesau eu cynorthwyo i fanteisio ar gadwyni cyflenwi lleol a chyfleoedd caffael.

Mae'r Uned Caffael Corfforaethol yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Datblygu Economaidd i ddarparu Cymorthfeydd Caffael a Busnes. Mae'r rhain yn cynnig cyngor ac arweiniad caffael i ddarpar gyflenwyr, cyngor ar grantiau busnes i'r rhai sy'n gymwys, a chymorth busnes ehangach. Mae'r Cymorthfeydd Caffael a Chymorth Busnes wedi profi'n llwyddiannus iawn, gyda naw wedi'u cynnal hyd yn hyn. Mae pob un wedi bod yn llawn gyda'r uchafswm o 12 busnes y dydd. Mae mwy o gymorthfeydd wedi'u trefnu ar gyfer Mai, Gorffennaf, a Medi 2025. Mae digwyddiad caffael hefyd wedi'i drefnu ar y cyd â Busnes mewn Ffocws, Cwmpas, Antur Cymru, a Busnes Cymru.

Mae'r tîm Caffael a'r tîm Cymorth Busnes yn cyflwyno Cymhorthfa Caffael a Chymorth Busnes fisol ledled y sir, sy'n rhoi cyfle i fusnesau drafod mynediad at waith gyda'r Cyngor, a'r cymorth a'r cyllid sydd ar gael iddynt. Cysylltir hefyd trwy e-bost, cynnwys yn y llythyr newyddion busnes a galwadau ffôn achlysurol. Mae contractau diweddar yn cynnwys contract sylweddol Gwaith Eiddo lle ymgysylltodd y tîm busnes â'r dwsinau o fusnesau y dyfarnwyd contractau iddynt. Mae astudiaethau achos i'w llunio o'r canlyniadau cadarnhaol. Yn ogystal, maent yn parhau i weithio gyda Datblygu Economaidd ar ymarferion tendro y dyfodol, i'w hyrwyddo i fusnesau lleol a allai fod â diddordeb mewn tendro, a rhannu'r rhaglen waith bob chwarter i nodi cyfleoedd pellach i hyrwyddo'r cyfleoedd i fusnesau Sir Gaerfyrddin.

**Cyfleoedd Caffael**

Ym mis Mehefin 2024, tendrwyd Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru gyda chyfanswm gwerth o oddeutu £800 miliwn. Bu i Caffael a Dylunio Eiddo fabwysiadu amrywiaeth o fentrau ymgysylltu â chyflenwyr, i ddenu contractwyr lleol i dendro, i hyrwyddo'r gofynion tendro ac i wella'r tendrau a gyflwynir drwy gynnig cymorth tendro pan fo angen. Yn dilyn gweminar 'Bod yn Barod i Dendro' yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cynhaliom sesiwn friffio ar gyfer y tendr hwn ym Mharc y Scarlets, Llanelli ym mis Ebrill 2024, pryd daeth 186 o gontractwyr. Er mwyn gwella a chefnogi cyflenwyr sydd â diddordeb mewn tendro am y cyfle hwn, fe wnaethom drefnu Gweminar Tendr fyw drwy Busnes Cymru ym mis Mehefin 2024. Cafodd y weminar ei threfnu i helpu contractwyr gyda'r broses dendro.

**Budd i'r Gymuned**

Trwy ddarparu Budd i'r Gymuned a Recriwtio wedi'i Dargedu, mae Caffael Hyfforddiant yn sicrhau bod contractwyr/cyflenwyr yn darparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth. Ymhlith y rhwystrau hyn mae diweithdra hirdymor, anweithgarwch economaidd, anableddau, cyflyrau iechyd, a bod dros 54 oed. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda chontractwyr fel eu bod yn darparu mwy o gyfleoedd prentisiaeth na'r hyn fyddent fel arfer yn ei wneud.

Rydym yn gweithio gyda nifer o gontractwyr ar draws sawl fframwaith, gan gynnwys Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru (SWWRCF), Fframwaith Contractwyr Peirianneg Rhanbarthol De-orllewin Cymru (SWWRECF), a'r Fframwaith Gwaith Eiddo (PWF).

Mae cyfleoedd yn cael eu mesur mewn wythnosau person[8], gyda 5,011 wythnos person wedi'u creu yn 2024/25 – gan fwy na dyblu ein targed o 2,462. Crëwyd 64 o swyddi hefyd, gan guro ein targed o 60.

**Pentre Awel**

Fel rhan o gyflawni contract Parth 1 Pentre Awel fel y prif gontractwr penodedig, roedd yn ofynnol i Bouygues UK (BYUK) ddarparu cyfleoedd i gontractwyr lleol gynnig am waith is-gontractio ar y prosiect. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd i nodi mecanweithiau ar gyfer hysbysebu cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi a chipio'r gwariant. Roedd hyn yn cynnwys olrhain deunyddiau'r gadwyn gyflenwi yn ôl lleoliad a lleoliad unigolion a gyflogir ar y safle. Gan ddefnyddio model adrodd a ddatblygwyd ac a addaswyd ar y cyd â'r Ganolfan ar gyfer Strategaethau Economïau Lleol (CLES), mae Bouygues yn cwblhau'r ffigurau i'w rhannu yn ôl cod post a rhanbarth. Bydd y data hwn yn cwmpasu'r pecynnau mwy, gan gynnwys gwaith tir, a gwaith mecanyddol, peirianneg a phlymio. Dywed Bouygues fod 74% o wariant contractwyr yng Nghymru.

Darparodd Pentre Awel nifer o gyfleoedd ar gyfer cyfleoedd recriwtio wedi'u targedu. Gosodom darged o 4,680 wythnos person o recriwtio wedi'i dargedu ac rydym eisoes wedi cyflwyno 5,495 wythnos. Mae rhywfaint o hyn wedi'i gyflawni trwy arferion arloesol a fabwysiadwyd gan y Cyngor a Bouygues, gan gynnwys cyflwyno Canolfannau Cyflogadwyedd – gan weithio gyda phrosiectau cymorth cyflogadwyedd lleol i sefydlu canolfannau cyflogadwyedd misol ar y safle. Roedd y canolfannau'n rhoi cyfle i'r contractwr gwrdd â darpar weithwyr a rhoi cyflwyniad manwl o sut beth fyddai gweithio ar y safle. Arweiniodd y broses hon at broses hidlo effeithiol a wnaeth, yn ei dro, arwain at lefel uwch o gadw gweithwyr ar y safle.

Mae Cyfle yn elusen gofrestredig sy'n darparu cynllun prentisiaethau a rennir yn Sir Gaerfyrddin a thu hwnt. Yn ddiweddar roedd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) wedi dod â'r cymhorthdal ariannol oedd yn gysylltiedig â phrentisiaid Mecanyddol a Thrydanol i ben, a olygai fod nifer o brentisiaid blwyddyn gyntaf nad oeddent yn gallu dod o hyd i gyflogwyr ac na fyddent wedi cael y cyfle i gwblhau eu prentisiaeth. Cytunodd Bouygues hefyd i ariannu'r cymhorthdal ar gyfer 10 o brentisiaid Mecanyddol a Thrydanol drwy Cyfle. Cafodd y prentisiaid eu cyflwyno ym Mhentre Awel ac yna eu lleoli gyda busnesau bach a chanolig lleol. Galluogodd hyn iddynt gwblhau eu hail flwyddyn a rhoddodd gyfle i gyflogwyr lleol weithio gyda phrentis.

[8] Gall wythnos person fod yn gyflogaeth, profiad gwaith, prentisiaethau, gwirfoddoli, a/neu hyfforddeiaethau.

## Canlyniad: Ceisio sicrhau bod mwy o leoliadau addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar ar gael ledled y sir a'u bod yn fwy fforddiadwy, i fynd i'r afael ag un o'r rhwystrau cyffredin sy'n wynebu unigolion sydd am ddychwelyd i weithio neu ddod o hyd i waith.

**Fforddiadwyedd**

Mae Sir Gaerfyrddin yn hyrwyddo ac yn cefnogi'n llawn Cynnig Gofal Plant 30 awr Llywodraeth Cymru, gan gydnabod bod gofal plant fforddiadwy, sydd ar gael, a hygyrch yn galluogi rhieni i weithio. Mae hyn yn cefnogi'r ymgyrch i gynyddu twf economaidd, mynd i'r afael â thlodi, a lleihau anghydraddoldebau. Rydym yn cefnogi darparwyr cofrestredig a rhieni cymwys drwy gyflwyno'r Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol newydd.

Drwy Gynnig Gofal Plant Cymru, gallai plant rhieni cymwys dderbyn mwyafswm o 30 awr o addysg gynnar wedi'i hariannu a gofal plant yr wythnos, am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn. Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn gynnig cyfunol, sy'n cynnwys addysg Blynyddoedd Cynnar ran-amser a darpariaeth gofal plant. Felly, mae'n rhaid i blant fod o oedran lle maent yn gymwys i gael mynediad i'r ddwy elfen ar yr un pryd. Os yw rhieni'n gymwys, bydd plant fel arfer yn derbyn elfen gofal plant y cynnig o'r tymor ar ôl eu penblwydd yn dair oed, nes eu bod yn cael cynnig lle addysg amser llawn.

Mae'r Grant Cymorth Ychwanegol yn darparu cyllid i helpu i sicrhau bod plant cymwys ag anghenion cymorth ychwanegol yn gallu cael mynediad at elfen gofal plant y Cynnig Gofal Plant yn yr un modd â phlant cymwys eraill. Cafodd 16 o blant gymorth drwy Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

**Astudiaeth Achos ar gyfer Grantiau Cychwynnol a Thwf – Lignum Joinery Ltd**

Ym mis Mehefin 2024, cysylltodd Owen Smart â Chyngor Sir Caerfyrddin ynghylch grant cychwynnol. Mae'r grantiau hyn yn cael eu hariannu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Ar ôl cael cais Owen, cafodd ei arwain gan y tîm grant drwy'r broses a llwyddodd i gael grant sylweddol. Roedd yr arian oedd ar gael wedi cyfrannu at y costau oedd ynghlwm wrth gyfarpar sefydlu ac wrth agor y gweithdy yn Rhydaman yn ystod haf 2024.

Dywedodd Owen *'roedd y gefnogaeth ges i gan y tîm datblygu busnes yn arbennig. Fe 'naethon nhw dywys fi drwy holl broses y grant, sy'n edrych yn eithaf brawychus ar yr olwg gynta'. Ond fe 'naethon nhw roi'r holl gyngor roedd ei angen arna' i i fod yn llwyddiannus gyda'r grant cychwynnol. Roedd costau cychwynnol fy musnes yn uchel oherwydd pris rhywfaint o'r cyfarpar roedd ei angen arnon ni. Roedd gallu gwneud cais am gymorth grant tuag at gyfarpar hanfodol wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'm costau buddsoddi. Sicrhaodd yr hwb ariannol cychwynnol hwn fod y cyfarpar oedd yn cael ei brynu'n addas i'r diben am y tymor hir.'*

Ar ôl sefydlu'r busnes a chlustnodi marchnadoedd penodol, roedd angen i'r busnes fuddsoddi mewn offer arbenigol. Gwnaeth Lignum Joinery gais pellach am grant twf. Dywedodd Owen *'unwaith eto, roedd y gefnogaeth ges i gan y tîm datblygu busnes heb ei hail. Fe 'naethon nhw dywys fi trwy broses y grant twf, a rhoi'r cyngor ychwanegol oedd ei angen arna' i i wneud ceisiadau llwyddiannus. Rydyn ni bellach wedi cwblhau un cais grant cychwynnol a dau gais grant twf sydd wedi ein helpu ni i ddechrau a datblygu ein busnes.'*

Ychwanegodd Owen *"Galla' i ddweud gyda'm llaw ar fy nghalon fod y cymorth ges i a'm busnes wedi gwneud gwahaniaeth enfawr ac wedi rhoi dechrau gwych i'r busnes ar gyfer y dyfodol."*

**Y Prosiect Stori**

Bu Theatrau Sir Gâr yn gweithio mewn partneriaeth â The Wallich ar 'Y Prosiect Stori' – prosiect bywiog rhwng pobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd a dibyniaeth, a chymuned y celfyddydau perfformio yng Nghymru. Nod y prosiect oedd datgelu doniau, meithrin creadigrwydd, a chyflwyno lleisiau a chynulleidfaoedd newydd i theatrau ledled Cymru.

Dros 10 sesiwn wythnosol yn Rhydaman a Llanelli, bu 15 o gyfranogwyr yn gweithio gydag artistiaid lleol i greu a pherfformio darn pwerus o theatr. Roedd y perfformiad olaf yn deimladwy ac addysgiadol, gyda llawer o gyfranogwyr yn disgrifio'r profiad fel un wnaeth newid eu bywyd. Soniasant am hyder cynyddol, sgiliau newydd a dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae un cyfranogwr, a oedd ofn mynd i mewn i theatr i ddechrau, bellach yn mynychu'n rheolaidd ac yn gwirfoddoli fel cynorthwyydd technegol a llysgennad.

Mae'r prosiect hwn hefyd wedi ein helpu i edrych ar ffyrdd creadigol, cefnogol o weithio gydag unigolion sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd. Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, rydym wedi parhau â'n partneriaeth â The Wallich trwy ganolfan gelf wythnosol. Mae'r cynllun peilot yn cefnogi datblygiad creadigol, adeiladu cymunedau, ac adrodd straeon yn gyhoeddus mewn gofod diogel a chynhwysol.

**Rhaglen Sgiliau a Thalentau yn dyfarnu cyllid i Fenter Addysgol Arloesol**

Yn 2020 arweiniodd dwy ysgol cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ac Ysgol Gyfun Gymraeg Maes y Gwendraeth, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, y prosiect peilot cyntaf i gael ei ariannu gan Raglen Sgiliau a Thalentau Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Nod y prosiect oedd mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau hanfodol yn y rhanbarth drwy gynnig cyfle i fyfyrwyr gyflawni cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 mewn Peirianneg ac Astudiaethau Digidol drwy gyfrwng y Gymraeg. Hon oedd y rhaglen gyntaf o'i bath, ac, ers iddi gael ei chymeradwyo, mae wedi llwyddo i gofrestru cannoedd o fyfyrwyr i gymryd y cyrsiau Lefel 2 a Lefel 3. Mae llawer o'r rhain yn gadael yr ysgol gyda'r cymhwyster ac yn symud ymlaen i goleg, prifysgol, neu brentisiaethau.

Cynlluniwyd y rhaglen i roi dealltwriaeth gynhwysfawr i fyfyrwyr o'r cyfleoedd yn y sectorau peirianneg a TG. Trwy weithio'n agos gyda'r Brifysgol, enillodd myfyrwyr sgiliau ymarferol gan ddefnyddio offer o'r radd flaenaf ac maent wedi elwa ar yr ymchwil a gynhaliwyd gan y Brifysgol. Mae'r profiad ymarferol hwn o fewn yr ysgolion yn sicrhau trosglwyddiad di-dor i addysg uwch.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru yn y cymwysterau hyn ar draws y ddwy ysgol. Mae tua 40% o fyfyrwyr sy'n cwblhau cyrsiau Lefel 2 yn parhau i Lefel 3, gan ddangos llwybr addysgol clir a diddordeb parhaus yn y meysydd hyn. Ers dechrau'r prosiect peilot, mae 843 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar gymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 mewn Peirianneg ac Astudiaethau Digidol, gan ddangos bod y cyrsiau hyn yn llwyddiannus a bod galw mawr amdanynt.

Dywedodd Dr Llinos Jones, Pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin *"Mae Gwobrau'r Rhaglen Sgiliau a Thalentau wedi bod yn gatalydd ar gyfer newid trawsnewidiol, gan alluogi ein menter addysgol arloesol i gyrraedd uchelfannau newydd yn ein hysgolion. Mae'r cyllid hwn wedi ehangu mynediad at adnoddau dysgu hanfodol ynghyd â grymuso dysgwyr gyda sgiliau ar gyfer y dyfodol, gan feithrin twf a chyfleoedd rhanbarthol hirdymor."*

## Sut gallwn ni wneud yn well?

Byddwn yn cryfhau cymorth i fusnesau lleol trwy ehangu ymgysylltu cynnar a chyfleoedd caffael, gan helpu mwy o gwmnïau lleol i gael mynediad at gontractau a chadwyni cyflenwi'r Cyngor. Bydd ein rhwydwaith cymorth busnes yn cael ei wella i ddarparu cyngor wedi'i deilwra, annog entrepreneuriaeth, a hyrwyddo'r dull "Meddwl Sir Gâr yn Gyntaf". Byddwn yn parhau i gyflawni a monitro prosiectau adfywio yn ein canol trefi a'n hardaloedd gwledig, gan roi ffocws o'r newydd ar fynd i'r afael ag eiddo gwag, cefnogi digwyddiadau, a gwella mannau cyhoeddus, er mwyn hybu nifer yr ymwelwyr a balchder cymunedol. Gan gydnabod pwysigrwydd sgiliau a chyflogadwyedd, byddwn yn datblygu rhaglenni hyfforddi ac uwchsgilio ymhellach, gan weithio'n agos gyda'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol a chyflogwyr lleol i fynd i'r afael â bylchau a chefnogi pobl i gael swyddi o safon. Byddwn hefyd yn adolygu ac yn ehangu ein cynnig tir ac eiddo cyflogaeth, gan sicrhau bod safleoedd newydd a phresennol yn diwallu anghenion sectorau sy'n tyfu ac yn cefnogi datblygu cynaliadwy. Yn olaf, byddwn yn ceisio cyllid a phartneriaethau ychwanegol i fwyhau buddsoddiad yn ein cymunedau, tra'n monitro effaith hirdymor ein prosiectau i sicrhau eu bod yn darparu manteision parhaol i breswylwyr a busnesau.

## Yn Gryno

Datganodd y Cyngor ei ymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn 2019 a 2022. Byddwn yn parhau i weithio tuag at fod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030, gan fynd i'r afael â'r materion sy'n sbarduno dirywiad yn ein bioamrywiaeth ac yn cefnogi adferiad natur. 2023/24 oedd y pwynt hanner ffordd yn ein rhaglen cynllun sero net ac mae wedi arwain at ostyngiad o 37% yn yr allyriadau carbon a dargedwyd. Mae ein trydydd Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd 2023 – 2025 yn nodi'r camau rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac eleni cyhoeddwyd tair prif strategaeth i gefnogi bioamrywiaeth: y Seilwaith Gwyrdd a Glas, Coed a Choetir, a Rheoli Glaswelltir ar gyfer Peillwyr.

Mae ardaloedd o'r Sir yn agored i effeithiau negyddol yr argyfwng hinsawdd, yn enwedig llifogydd. Mae'r Cyngor wedi gweithredu ymyriadau drwy'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr a'r Cynllun Rheoli'r Traethlin i liniaru'r effeithiau hyn.

Mae ymdrechion i ddatgarboneiddio'r stoc dai hefyd wedi datblygu, gyda dros 51% o dai bellach yn cyflawni isafswm sgôr perfformiad ynni B a C. Rydym wedi mabwysiadu dull ffabrig-gyntaf ar gyfer effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys paneli solar, deunydd inswleiddio thermol, a systemau pwmp gwres hybrid. Mae'r mesurau hyn nid yn unig yn lleihau allyriadau carbon a thlodi tanwydd ond hefyd yn ysgogi'r economi leol ac yn cefnogi datblygiad y gweithlu.

## Sut ydyn ni'n gwneud?

- Sir Gaerfyrddin yw un o'r siroedd mwyaf rhagweithiol yng Nghymru o ran buddsoddi mewn prosiectau ynni carbon isel. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn cadarnhau'r dull blaengar y mae'r sir yn ei fabwysiadu o ran mynd i'r afael â'r bygythiadau a achosir gan yr argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2023 yn dangos bod cyfanswm o 10,103 o brosiectau yn Sir Gaerfyrddin yn cynhyrchu 346MW o ynni. Dyma'r lefel bedwaredd uchaf yng Nghymru ac mae'n gynnydd ar ffigurau 2022.
- Mae llifogydd wastad yn bryder yn Sir Gaerfyrddin, ac, yn ôl data 2024 Cyfoeth Naturiol Cymru, mae dros 18,000 o fusnesau a chartrefi naill ai'n wynebu perygl o lifogydd o afonydd, llanw neu ddŵr wyneb. Mae hwn yn gynnydd o ffigur 2019 o 15,000.
- Bu cynnydd o 27% yn yr eiddo sy'n wynebu perygl mawr neu ganolig o lifogydd rhwng 2019 a 2024, gan godi o 5,400 i ychydig o dan 7,000. O achos newid yn yr hinsawdd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhagweld y bydd hyn yn mwy na dyblu eto i dros 15,5000 erbyn 2120.
- Mae bygythiad cynyddol yr argyfyngau hinsawdd a natur yn rhoi mwy o bwyslais ar yr angen am amddiffynfeydd llifogydd addas a chymesur i ddiogelu'r rheiny sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Drwy ein Cynllun Rheoli Llifogydd a Dŵr a'r Cynllun Rheoli'r Traethlin, mae sawl ymyriad wedi'u cwblhau. Mae hyn yn cynnwys gosod amddiffynfeydd newydd a gwella amddiffynfeydd presennol.
- Yn ein harolwg preswylwyr 2024, atebodd y gyfran fwyaf o ymatebwyr 'y naill na'r llall' pan ofynnwyd iddynt a oedd yr argyfwng hinsawdd yn cael sylw lleol. Gallai hyn awgrymu nad yw pobl yn ymwybodol o'r mesurau a roddwyd ar waith. I'r rhai a atebodd, roedd ychydig yn fwy o bobl yn anghytuno na'n cytuno.

## Canlyniad: Parhau i weithio tuag at ddod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030

**Dadansoddiad o Ôl-troed Carbon y Cyngor**

| | 2016/17 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | Newid |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnydd (kWh) | 72,527,266 | 63,869,172 | 61,420,560 | 58,798,981 | -4% |
| Milltiredd (milltiroedd) | 9,313,790 | 7,272,186 | 8,420,699 | 8,216,503 | -2% |
| Ôl Troed Carbon ($tCO_2e$) | 26,542 | 16,984 | 16,756 | 16,556 | -1% |

Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2024/25 yn adlewyrchu perfformiad cryf parhaus. Mae ein hôl troed carbon (a fesurir mewn tunnell o allyriadau $CO_2$) wedi gostwng 37% o'i gymharu â'n blwyddyn sylfaen 2016/17. Mae'r cynnydd parhaus hwn yn tynnu sylw at effeithiolrwydd y mesurau rydym wedi'u gweithredu. O ystyried y camau helaeth a nodwyd yn ein Cynllun Sero Net a weithredwyd yn 2024/25, rydym yn disgwyl i'r data sydd ar ddod ddangos ymhellach effaith ein hymrwymiad i leihau allyriadau ac i hyrwyddo ein nodau hinsawdd.

Mae data yn hanfodol i'n monitro carbon, ac rydym yn gwella ei gywirdeb trwy gyflwyno ein rhaglen uwchraddio mesuryddion. Mae hyn yn darparu data amser real sy'n hanfodol wrth asesu effaith ein mentrau, yn ogystal â nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad pellach.

**Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn**

Yn ein hymdrech i ddatgarboneiddio trafnidiaeth y Sir, sicrhaodd y Cyngor gyllid gan Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn Llywodraeth Cymru i dreialu gwefru cerbydau trydan mewn lleoliadau trefol a gwledig. Gan ddefnyddio system Kerbo Charge Gully, gosodwyd cyfleusterau gwefru i 13 o breswylwyr oedd â pharcio ar y ffordd. Mae cam cyntaf y treial wedi bod yn llwyddiant mawr, gyda defnyddwyr yn cofnodi profiadau cadarnhaol yn seiliedig ar waith gosod a chynnal a chadw, a gwelliant yn y ddealltwriaeth o atebion gwefru cerbydau trydan. Mae'r defnyddwyr wedi canmol y gyli gwefru fel datrysiad gwefru gartref cyfleus, diogel a chost-effeithiol - yn enwedig i'r rhai heb lefydd parcio oddi ar y ffordd. Mae system y gyli yn dileu peryglon baglu mewn ceblau, gan sicrhau llwybr cerdded gwastad a diogel - ddydd a nos, tra'n galluogi defnyddwyr i wefru ar gyfraddau rhatach dros nos. Mae'r treial hwn wedi rhoi cipolwg ar fabwysiadu a hyd a lled cynlluniau gwefru cerbydau trydan yn y sir, ac er bod effaith y treial yn dal i gael ei hasesu, y bwriad yw ei fabwysiadu'n llawn. Mae ail gam y treial hwn newydd ddechrau gyda 10 system arall wedi'u gosod.

**Trawsnewid i Gerbydau Trydan**
Mae'r broses o drawsnewid i gerbydau trydan wedi cyflymu, gyda chynnydd nodedig yn nifer y cerbydau trydan sy'n cael eu mabwysiadu ar draws gwahanol sectorau. Rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth ehangu ein fflyd cerbydau trydan. Er enghraifft, yn 2024 cafodd y Cyngor £431,632 o gyllid gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad prynwyd 40 o gerbydau trydan newydd - 30 fan a 10 car. Mae cyfuno'r cyllid hwn ag ymdrechion caffael cydweithredol ychwanegol wedi rhoi hwb sylweddol i gyfran y cerbydau trydan yn fflyd y Cyngor, gan gynyddu o 1.8% i 8% hyd at fis Mawrth 2024.

**Cronfa Ynni Adnewyddadwy Busnes**
Mae Datblygu Economaidd wedi hyrwyddo cynaliadwyedd wrth gyflwyno sawl rhaglen ledled Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys y Gronfa Ynni Adnewyddadwy Busnes. Mae'r Gronfa hon yn rhoi cymorth grant i fusnesau sy'n buddsoddi mewn systemau ynni adnewyddadwy wneud eu busnes yn fwy effeithlon a chynaliadwy. Hyd yn hyn rydym wedi cefnogi 28 o fusnesau y rhagwelir eu bod wedi arbed 640 tunnell o allyriadau $CO_2$ dros dair blynedd.


**Cynllun Datgarboneiddio Tai**
Ym mis Chwefror 2023, gwnaeth y Cyngor ymrwymiad clir i sicrhau bod ein cartrefi i gyd yn rhai ynni-effeithlon ac yn cyflawni sgôr perfformiad ynni B ac C o leiaf, cyn gynted â phosibl. Mae dros 51% o'n cartrefi eisoes wedi cyrraedd y safon hon, sef gwelliant o ychydig dros 19% ers gwneud ein hymrwymiad.

Bydd buddsoddiad yn y dyfodol yn ein cartrefi presennol yn seiliedig ar wella perfformiad ynni ein cartrefi drwy ein rhaglenni cynnal a chadw cynlluniedig parhaus. Mae'r ymagwedd integredig hon yn sicrhau ein bod yn gwella perfformiad ynni ein cartrefi ac yn lleihau allyriadau carbon, tra'n gwella a chynnal cyflwr cyffredinol ein cartrefi yr un pryd.

Bydd y gwaith i wella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi yn seiliedig ar ddefnyddio dull Ffabrig-gyntaf, sy'n gwella effeithlonrwydd thermol ein cartrefi ac yn cynnwys gosod technoleg adnewyddadwy lle bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys gosod paneli solar a mwy o inswleiddio thermol fel rhan o'n rhaglenni ail-doi, a systemau pwmp gwres hybrid fel rhan o'n rhaglen gosod boeleri barhaus.

Yn ogystal â'r gwaith presennol, rydym hefyd yn datblygu llwybrau ynni targed ar gyfer ein holl gartrefi i helpu i bennu dull addas a chost-effeithiol ar gyfer gwella perfformiad ynni ymhellach. Bydd hyn yn helpu i:

- Lleihau biliau tanwydd i denantiaid er mwyn lleihau tlodi tanwydd, mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd yr argyfwng costau byw presennol sy'n effeithio ar gynifer o'n tenantiaid.



- Gwella perfformiad thermol ein cartrefi ac ansawdd aer dan do i hyrwyddo iechyd a llesiant.
- Tyfu'r economi leol trwy ddarparu rhaglenni buddsoddi tymor hir.
- Uwchsgilio'r gadwyn gyflenwi leol a darparu mwy o hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i bobl leol.

Mae ein tai Cyngor newydd yn croesawu datgarboneiddio. Maent yn effeithlon o ran ynni, wedi'u hinswleiddio'n dda; mae ganddynt y technolegau arloesol diweddaraf ac maent yn cefnogi egwyddorion Carbon Sero Net y Cyngor. Mae'r rhain wedi helpu i leihau ein hallyriadau carbon 70% ar gyfartaledd ac yn creu cynhesrwydd fforddiadwy i denantiaid gan dyfu'r economi werdd a chreu cymunedau cynaliadwy.

**Amgueddfa Sir Gâr**

Cwblhaodd Amgueddfa Sir Gâr brosiect gwerth £330,000 i ailddatblygu ein cyfleuster parcio ceir yn 2024/25. Ariannwyd hyn gan grant o £264,000 gan Croeso Cymru fel rhan o'u Cronfa Pethau Pwysig. Mae'r prosiect wedi darparu mannau hygyrch newydd, llwybrau i gerddwyr, a chynllun gwell i wella profiad ymwelwyr. Mae'r maes parcio gwell yn gwella mynediad i'r amgueddfa ac yn cysylltu'n uniongyrchol â Llwybr Beicio Dyffryn Tywi, gyda gosod uned gwefru beiciau trydan newydd yn annog twristiaeth a chyfranogiad diwylliannol. Mae'r prosiect yn cynnwys goleuadau ynni-effeithlon ac ystyriaethau dylunio cynaliadwy – gan gynnwys defnyddio arwyddion alwminiwm y gellir eu hailgylchu'n llawn, a datblygu Gardd Stori newydd sy'n gwella bioamrywiaeth y man gwyrdd y tu allan i fynedfa'r amgueddfa.

## Canlyniad: Gwella datblygiadau presennol ac archwilio datblygiadau newydd i gyfyngu ar effeithiau llifogydd a bygythiadau amgylcheddol eraill sy’n effeithio ar ein preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

**Y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig**

Cynhaliwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol i arwain a llywio dosbarthiad a lleoliad datblygiadau yn y dyfodol, gan gynnwys tai, cyflogaeth, a phenderfyniadau yn y dyfodol. Roedd hyn yn diffinio hyd a lled y perygl llifogydd a ragwelir gan ymgorffori tybiaethau newid yn yr hinsawdd, ac mae'n ffurfio tystiolaeth allweddol i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

Paratowyd dogfennau'r Canllawiau Cynllunio Atodol i gyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Mae'r rhain yn cynnwys Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fannau Agored; Seilwaith Gwyrdd a Glas (SGG); Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd; a Chreu Lleoedd a Dylunio Cynaliadwy. At ei gilydd, maent yn rhoi disgwyliadau clir i ddatblygwyr ac yn rhoi modd i swyddogion cynllunio gynnwys seilwaith gwyrdd a glas mewn cynllunio strategol a datblygiadau safle-benodol.

**Cynlluniau Rheoli Maetholion**

Mae'r Cyngor yn Aelod allweddol o Fyrddau Rheoli Maetholion Cleddau, Tywi a Theifi, ac mae'n rhan ganolog o gyflawni camau a nodwyd drwy'r Cynlluniau Rheoli Maetholion a baratowyd gan y byrddau. Mae'r camau hyn yn cael eu hategu gan ddeddfwriaeth a'u cefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Ym Mawrth 2025 mabwysiadwyd y Cynlluniau Rheoli Maetholion (NMP) ar gyfer yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol yr effeithir arnynt gan ganllawiau maetholion yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cynlluniau Rheoli Maetholion a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn gwasanaethu i:

- Hwyluso gwaredu ffosfforws i gefnogi'r gwaith o godi tai.
- Bod yn fframwaith ar gyfer monitro'r sefyllfa o ran gwasgfeydd eraill mewn perthynas â maetholion.
- Cynnig cyfleoedd cyfannol i ystyried effeithiau llifogydd a ffactorau amgylcheddol eraill.

Ymhlith y camau gweithredu a nodwyd yn y Cynlluniau Rheoli Maetholion i gyfyngu ar effeithiau llifogydd a bygythiadau amgylcheddol eraill y mae:

- Hyrwyddo rheoli llifogydd yn naturiol: mynd i'r afael â'r effeithiau sy'n deillio o ddigwyddiadau llif brig i nid yn unig lleihau trosglwyddo maetholion i afonydd ond lleihau risg llifogydd i lawr yr afon trwy reoli llifoedd yn well.
- Cyfleoedd ar gyfer clustogfeydd afonol ac atebion eraill sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys rheoli llifogydd yn naturiol, i arafu'r llif a gwella ansawdd dŵr yn fwy cyffredinol.
- Ymyriadau dylunio i ystyried ffactorau fel diogelwch y cyhoedd, cynefin bywyd gwyllt, a rheoli gorlifdir lle maent yn hwyluso datblygiad a/neu'n cyfrannu at adfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol i statws cyflwr ffafriol.

**Seilwaith Gwyrdd a Glas**

Rydym yn parhau i ddefnyddio Seilwaith Gwyrdd a Glas fel offeryn strategol i helpu i liniaru bygythiadau amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys llifogydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein preswylwyr, busnesau lleol a defnyddwyr gwasanaeth. Yn hyn o beth, mae Sir Gaerfyrddin wedi datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas ddrafft a Chanllawiau Cynllunio Atodol, a phecynnau cymorth i gefnogi gweithredu egwyddorion a chynnwys y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

Mae Strategaeth GBI ddrafft Sir Gaerfyrddin yn nodi dull sir gyfan o wella a gwarchod y rhwydwaith seilwaith gwyrdd a glas lleol, gan wella rheoli dŵr, cefnogi gwytnwch hinsawdd, a mynd i'r afael ag ystod o flaenoriaethau amgylcheddol a chreu lleoedd eraill. Mae'r strategaeth yn blaenoriaethu'r defnydd o Atebion Seiliedig ar Natur fel systemau draenio cynaliadwy, adfer cynefinoedd, a phlannu coed – pob un ohonynt yn cyfrannu at leihau'r perygl o lifogydd, gwella ansawdd aer a dŵr, a chlustogi effeithiau tywydd eithafol.

**Rheoli Perygl Llifogydd**

Mae rheoli perygl llifogydd effeithiol yn gonglfaen i'n hymdrechion i ddiogelu ein preswylwyr, busnesau a defnyddwyr gwasanaeth rhag bygythiadau amgylcheddol. Trwy wella arferion presennol yn barhaus ac archwilio i atebion arloesol, gallwn liniaru effeithiau llifogydd yn well a sicrhau cymunedau gwydn ynghyd â'n nodau creu lleoedd.
Rydym yn defnyddio dull cynhwysfawr o reoli perygl llifogydd ac rydym yn ceisio datblygu ein tîm yn unol â hynny. Rydym wedi llunio strategaeth leol newydd sy'n nodi sut byddwn yn ceisio rheoli perygl llifogydd a chyflawni amcanion lleol a chenedlaethol. Rydym hefyd yn datblygu cynlluniau perygl llifogydd – dogfennau gweithredol sy'n manylu ar y camau byddwn yn eu cymryd yn ein cymunedau lle mae'r perygl ar ei fwyaf er mwyn rheoli perygl llifogydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datblygu ein sgiliau a'n hadnoddau mewn perthynas â gwaith cyfalaf ac erbyn hyn mae gennym raglen gwaith cyfalaf sylweddol. Drwy grantiau Llywodraeth Cymru, rydym wedi gallu datblygu ein gwybodaeth am berygl llifogydd a gweithredu mesurau strwythurol.

Mae mesurau anstrwythurol yn ategu'r amddiffynfeydd ffisegol hyn trwy ganolbwyntio ar bolisïau ac arferion sy'n lleihau bregusrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni ymwybyddiaeth gymunedol i addysgu preswylwyr ynghylch bod yn barod am lifogydd, a systemau rhybuddio cynnar sy'n rhoi rhybuddion amserol am lifogydd.

Mewn datblygiadau newydd, rydym yn ceisio yn barhaus ffyrdd newydd o wella eu strategaethau rheoli perygl llifogydd. Mae dogfen polisi cynllunio newydd Nodyn Cyngor Technegol 15 (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025) yn allweddol i gefnogi hyn. Mae datblygiadau mewn technoleg yn cynnig llwybrau addawol ar gyfer arloesi. Er enghraifft, mae'r defnydd o ddronau a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) yn caniatáu ar gyfer mapio a dadansoddi ardaloedd sy'n agored i lifogydd yn fwy manwl, gan alluogi ymyriadau wedi'u targedu. Yn ogystal, gall datblygu integreiddio data amser real o orsafoedd tywydd a mesuryddion afonydd yn fodelau rhagfynegol wella cywirdeb rhagolygon llifogydd, gan ganiatáu cynllunio ymateb yn fwy effeithiol.

**Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy**

Datblygiad arall yw mabwysiadu systemau draenio trefol cynaliadwy (SUDS). Mae'r systemau hyn yn dynwared prosesau naturiol i reoli dŵr ffo wyneb, gan leihau'r baich ar seilwaith draenio traddodiadol. Mae nodweddion fel toeau gwyrdd, palmentydd hydraidd, a gerddi glaw nid yn unig yn lliniaru peryglon llifogydd ond hefyd yn gwella bioamrywiaeth drefol ac yn gwella ansawdd dŵr.
Mae cydweithredu a rhannu gwybodaeth hefyd yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo rheoli perygl llifogydd. Trwy bartneru â sefydliadau academaidd, arbenigwyr sector preifat, ac awdurdodau rheoli risg eraill, gallwn fanteisio ar arbenigedd ac adnoddau amrywiol. Gall partneriaethau o'r fath arwain at ddatblygu atebion arloesol sy'n effeithiol ac yn gynaliadwy.

**Cynlluniau Llifogydd**

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein rhaglen gwaith cyfalaf rheoli perygl llifogydd drwy gydol 2024/25, gan adeiladu ar lwyddiannau'r blynyddoedd aeth heibio. Eleni, roedd ein rhaglen yn cynnwys 21 cynllun, wedi'u hanelu at reoli'r perygl llifogydd mewn 740 o gartrefi a busnesau yn Sir Gaerfyrddin. Rydym wedi cwblhau cynlluniau yn Rhydaman, Castellnewydd Emlyn, Cydweli, a Llanymddyfri, ac mae gennym gynlluniau diogelu ar lefel eiddo yn barod ar gyfer dechrau 2025 yn Llanybydder, Llandysul a Llangennech. Rydym hefyd wedi sicrhau £2.1 miliwn o gyllid grant rheoli perygl llifogydd ar gyfer 2025/26.



**Ansawdd Aer**

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cynyddu ymwybyddiaeth a gwella ansawdd aer ar draws Sir Gaerfyrddin:

- **Allgymorth Addysgol**: Rhoddodd swyddogion sgyrsiau addysgol i ysgolion cynradd, gan dynnu sylw at effeithiau llygredd aer ar iechyd ac annog newid ymddygiad.
- **Monitro Amser Real**: Gosodwyd monitorau ansawdd aer y tu allan i wyth ysgol, gan alluogi dros 2,000 o ddisgyblion i gael mynediad at ddata byw ac ymgymryd â phrosiectau amgylcheddol lleol.
- **Hyrwyddo Teithio Llesol**: Mewn partneriaeth â'r Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd, defnyddiodd tua 2,500 o ddisgyblion Traciwr Teithio WoW, gan gofnodi dros 130,000 o deithiau egnïol ym mlwyddyn academaidd 2024/25.
- **Dysgu Rhyngweithiol**: Cyrhaeddodd sioe "Abbie Ayre and the Shed of Science" 790 o ddisgyblion Blwyddyn 5 ar draws dros 20 o ysgolion, gan ddefnyddio perfformiad i edrych ar faterion ansawdd aer a hyrwyddo teithio cynaliadwy.



## Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae cynnydd y Cyngor ar ddatgarboneiddio ac adfer natur yn darparu buddion mesuradwy i lesiant. Mae dros hanner tai’r cyngor bellach yn cyrraedd sgôr ynni Band C, gan ddarparu cartrefi cynhesach ac iachach a lleihau biliau tanwydd i filoedd o denantiaid. Mae cynlluniau llifogydd a gwblhawyd eleni wedi cryfhau gwytnwch cartrefi a busnesau, gan amddiffyn cymunedau rhag aflonyddwch a cholled. Mae strategaethau bioamrywiaeth a datrysiadau sy’n seiliedig ar natur yn gwella cynefinoedd, yn cefnogi peillwyr, ac yn gwella mynediad at ardaloedd gwyrdd a glas. Mae’r camau hyn yn cyfrannu at well lles corfforol, llai o bryder ynghylch risgiau hinsawdd, a chymunedau cryfach, mwy gwydn, ynghyd â’r posibilrwydd o arbedion ariannol drwy effeithlonrwydd ynni a lleihau risg llifogydd.

Rydym yn parhau’n ymrwymedig i ddod yn awdurdod net sero o dan ein Cynllun Carbon Net Sero, gan liniaru effeithiau hinsawdd yn weithredol a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy. Mae sicrhau cyllid grant wedi gwella ein gallu i gyflawni’r mesurau hyn, gan sicrhau gwell gwerth am arian a gwneud y mwyaf o fuddsoddiad mewn gwytnwch hinsawdd.

Mae’r Uned Amddiffyn Llifogydd ac Amddiffyn Arfordirol wedi gweithio’n helaeth gyda chymunedau i adeiladu gwytnwch ac ymwybyddiaeth o addasu i’r hinsawdd. Mae mentrau’n cynnwys gweithdai a hyfforddiant ar baratoi ar gyfer llifogydd ac amddiffyn eiddo ar lefel unigol, gyda chefnogaeth arbenigwyr diwydiant megis Llifogydd Mary (Mary Donohue). Mae cydweithio mewnol wedi cryfhau prosesau ymateb brys drwy gyfarfodydd wythnosol ar dywydd garw a driliau rheolaidd i brofi a mireinio cynlluniau, gan sicrhau parodrwydd ar gyfer sefyllfaoedd go iawn.

Er bod cynnydd yn gryf, mae mwy i'w wneud o hyd i fynd i'r afael â maint yr argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r risg llifogydd yn parhau i gynyddu, ac gyda dros 18,000 o gartrefi a busnesau bellach mewn perygl, mae cyflymu ymyriadau rheoli llifogydd strwythurol a naturiol yn parhau'n hanfodol. Er gwaethaf gwaith sylweddol, mae llawer o drigolion yn parhau'n anymwybodol o'r camau sy'n cael eu cymryd, gan amlygu'r angen am gyfathrebu ac ymgysylltu cliriach, mwy gweladwy. Bydd buddsoddi parhaus mewn datgarboneiddio trafnidiaeth, ehangu seilwaith cerbydau trydan, a gwella effeithlonrwydd ynni yn y cartrefi sy'n weddill yn hollbwysig i gyrraedd net sero erbyn 2030. Mae angen inni hefyd gryfhau adferiad ecosystemau ymhellach, ehangu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, a sicrhau bod datblygiadau newydd yn ymgorffori enillion gwydnwch a bioamrywiaeth yn llawn. Drwy wella cydweithio, gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd, a graddio ymyriadau profedig, gallwn fynd ymhellach ac yn gyflymach i sicrhau Sir Gâr iachach, gwyrddach ac yn fwy gwydn o ran yr hinsawdd.

# Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

## Yn Gryno

- Mae'r Gymraeg yn nodwedd ddiffiniol o hunaniaeth Sir Gaerfyrddin fel lle. Mae ein cymunedau Cymraeg eu hiaith yn rhai cydnerth. Fodd bynnag, mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y siaradwyr ar draws y sir. Mae'r canlyniadau hyn wedi cynyddu ymhellach bwysigrwydd hyrwyddo a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg.
- Wrth i Sir Gaerfyrddin ddioddef y golled ganrannol uchaf o siaradwyr Cymraeg o blith holl siroedd Cymru am yr ail ddegawd yn olynol, rhaid cymryd camau cadarn a hyderus fel yr amlinellir yn 'Strategaeth Hybu'r Gymraeg Sir Gaerfyrddin 2023-2028' i atal y duedd hon.

## Sut ydyn ni'n gwneud?

- Mae data'r Cyfrifiad ar gyfer 2021 yn dangos bod Sir Gaerfyrddin yn gartref i 72,838 o siaradwyr Cymraeg, sef 39.9% o'r boblogaeth.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Siaradwyr Cymraeg**<br><br>**72,838 (39.9%)**<br>**Yr ail nifer uchaf yng Nghymru**<br>**% 4edd uchaf yng Nghymru**<br>(Cyfrifiad 2011 – 78,048 - 43.9%) | **Poblogaeth 3-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg** | **15,004 (55.1%)**<br>(Cyfrifiad 2011 – 15,514 - 57.7%) |
| | **Poblogaeth 16-64 oed sy'n gallu siarad Cymraeg** | **39,595 (36.0%)**<br>(Cyfrifiad 2011 – 43,904 - 39%) |
| | **Poblogaeth 65-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg** | **18,243 (40.1%)**<br>(Cyfrifiad 2011 – 18,630 - 48.8%) |

- Ymatebodd ychydig dros 3,500 i'n harolwg preswylwyr yn 2024, gyda'r mwyafrif yn cytuno ei bod yn bwysig hyrwyddo ac amddiffyn y Gymraeg.
- Aeth 179 aelod o staff ar gyrsiau Dysgu Cymraeg o wahanol lefel rhwng Medi 2023 a Mehefin 2024 (Blwyddyn Academaidd), sef lleihad ar y flwyddyn flaenorol (242).









## Canlyniad: Cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg.

Mae Fforwm Strategol y Gymraeg yn cael ei arwain gan y Cyngor ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau hyrwyddo iaith y sir a chyrff cyhoeddus sydd â chyfrifoldebau statudol. Mae'r Fforwm wedi parhau i ddatblygu rhaglen i hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin ac wedi cyfrannu'n helaeth at gyd-gynllunio Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyrwyddo yn unol â'r Safon Hyrwyddo.

Dros y flwyddyn, mae'r Fforwm wedi bod yn arwain ar y gwaith o baratoi cynlluniau gweithredu sy'n cefnogi gweledigaeth gyffredinol y Strategaeth **"i wneud Cymraeg yn brif iaith y Sir. Ein nod ni yw adfer y Gymraeg yn iaith a siaredir ac a ddefnyddir gan fwyafrif ein trigolion yn gyson, ac ym mhob agwedd o fywyd."**

Rydym wedi datblygu cynlluniau gweithredu i gefnogi gwneud y Gymraeg yn norm mewn meysydd fel annog ei defnydd gyda phlant oedran cyn-ysgol, cynyddu cyfran y teuluoedd sy'n trosglwyddo'r iaith gartref yn llwyddiannus, a chynyddu nifer y preswylwyr sy'n dysgu Cymraeg.

Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi ein staff i ddysgu Cymraeg, ac mae gwaith yr Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu wedi bod yn allweddol o ran cael mynediad at ddarpariaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyfle i gydweithio â'r Ganolfan ar ystod o gyfleoedd i staff. Mae'r adborth o'r cyfleoedd hynny wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda staff yn nodi newid yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle mewn pethau fel cynnal cyfarfodydd gyda chydweithwyr, cymryd cofnodion, a chynnal asesiadau.

## Canlyniad: Mwy o hyder a defnydd o'r Gymraeg fel iaith ffyniannus.

**Theatrau Sir Gâr**
Mae Theatrau Sir Gâr wedi cefnogi artistiaid a chrewyr lleol o Gymru i ddatblygu syniadau a gweithgareddau theatr newydd drwy gyfleoedd ymchwil a datblygu pwrpasol. Ymhlith yr uchafbwyntiau mae:

- Darn theatr i blant wedi'i ysbrydoli gan y Mabinogion, sy'n edrych ar sgript, cerddoriaeth, ac adrodd straeon yn amlieithog gan ddefnyddio Cymraeg, Iaith Arwyddion Prydain, a Saesneg.
- Darn o waith newydd pwerus gan artist o Sir Gaerfyrddin, sy'n tynnu ar brofiad byw o Anhwylder Obsesiynol Cymhellol (OCD).
- Cefnogaeth i gwmni theatr Cymreig i addasu a chwtogi cynhyrchiad am y cyn-hyfforddwr rygbi Carwyn ar gyfer taith wledig.
- Cefnogaeth i opera ieuenctid Gymraeg wedi'i hysbrydoli gan farddoniaeth Taliesin.

**Llyfrgelloedd – Prosiect Sêr y Silffoedd**

Ym mis Ionawr 2025, cymerodd Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin ran ym menter Sêr y Silffoedd – rhaglen i Gymru gyfan sydd wedi'i chynllunio i ysbrydoli darllenwyr ac awduron ifanc drwy ymgysylltu'n uniongyrchol ag awduron enwog o Gymru. Roedd y prosiect hwn yn cynnig cyfle unigryw i ddod â llenyddiaeth yn fyw i blant ysgol lleol trwy weithdai rhyngweithiol a sesiynau adrodd straeon.



Yn ystod y prosiect cynhaliwyd wyth digwyddiad ar draws llyfrgelloedd Rhydaman, Llanelli a Chaerfyrddin, gan groesawu tua 210 o ddisgyblion o wyth dosbarth ysgol. Arweiniodd awduron gan gynnwys Dr. Ffion Jones, Robin Bennett, Sion Owen Thomas, ac Eloise Williams sesiynau a oedd yn edrych ar adrodd straeon, datblygu cymeriadau, a'r broses ysgrifennu. Cafodd plant gyfle i ofyn cwestiynau, cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol, a chael eu llyfrau wedi'u llofnodi – gan greu atgofion parhaol.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

**Y Cyngor yn ennill 'Cyflogwr y Flwyddyn' a 'Dysgwr y Flwyddyn yn y Gweithle' am ragoriaeth yn y Gymraeg**



Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ennill gwobr 'Cyflogwr y Flwyddyn' gan Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gaerfyrddin, o Brifysgol Aberystwyth. Gan gydnabod ei ymroddiad i gefnogi staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Gan ychwanegu at y dathliad, mae David Lewis, Cynorthwyydd Cyflawni Gweithredol yn yr adran Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd, wedi'i enwi'n 'Ddysgwr y Flwyddyn yn y Gweithle.'

Mae David wedi gwneud cynnydd enfawr ar ei daith dysgu Cymraeg, ac mae'n disgrifio'r cyfle i ddysgu'r iaith trwy'r gwaith fel "rhywbeth arbennig." Mae'n rhoi clod i'r gefnogaeth gan y Cyngor, yn ogystal ag ysbrydoliaeth a brwdfrydedd ei diwtoriaid, am ei gymell i ddal ati i ddatblygu ei sgiliau a'i hyder.

"Rwy'n bendant wedi cymryd camau mawr ymlaen yn fy nhaith dysgu Cymraeg," meddai David. “Rwy' wir yn mwynhau darllen cylchgronau a llyfrau Cymraeg am y tro cyntaf, ac rwy'n edrych ymlaen at ddilyn cwrs y lefel nesaf.”

Yn ogystal â dysgu yn yr ystafell ddosbarth, mae'r Cyngor a Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gaerfyrddin wedi datblygu rhaglen Gymraeg ehangach sy'n hyrwyddo diwylliant ieithyddol cadarnhaol ar draws y sefydliad.

Mae'r gwobrau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i feithrin gweithlu dwyieithog a chreu amgylchedd cefnogol lle gall y Gymraeg ffynnu, lle gall staff fynychu cyrsiau Cymraeg yn ystod oriau gwaith, a lle ariennir cyrsiau'n gorfforaethol.

Rydym yn parhau i gymryd camau i hyrwyddo a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar brosiect peilot i gryfhau'r defnydd mewnol o'r Gymraeg, i drefnu swydd prentisiaeth Gymraeg newydd (Lefel 4), ac ailsefydlu Fforwm Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a Fforwm Sirol y Gymraeg i fonitro cynnydd ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) a Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg. Byddwn hefyd yn adolygu ein Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ac yn parhau i gefnogi staff ac adrannau i fodloni Safonau'r Gymraeg, gan sicrhau bod preswylwyr yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith.

# Diogelwch Cymunedol, Cydnerthedd a Chydlyniant

## Yn Gryno

- Cynyddodd cyfanswm y troseddau yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2024/25 – tuedd sy'n gyson ag Awdurdodau Lleol eraill yn Ardal Llu Dyfed-Powys. Fodd bynnag, mae cyfradd y troseddau a gafodd eu riportio fesul 1,000 o'r boblogaeth yn parhau i fod yn gymharol isel. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol yn helpu i gadw'r cyfraddau hyn yn isel.
- Dangosodd arolwg preswylwyr 2024 fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin.
- Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o amrywio o ardal i ardal, er enghraifft cafodd Llanelli sgôr negyddol ar y cyfan.

## Sut ydyn ni'n gwneud?

| Arolwg Preswylwyr Datganiad | Y Sgôr Mynegai Cyfartalog | | | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 | 2023 | 2024 | |
| *Rwy'n hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin* | 1.32 | 1.16 | 1.16 | Roedd y sgoriau uchaf ar gyfer ardaloedd cymunedol Tywi a Theifi a'r rhai isaf yn Llanelli. Yn ddiddorol ddigon, roedd y sgoriau isaf ymhlith y grŵp oedran iau. |
| *Rwy'n teimlo y gallaf fyw'r bywyd yr wyf am ei fyw heb ofni cael fy marnu na rhagfarn.* | 0.71 | 0.49 | 0.54 | Mae'r sgôr wedi cynyddu ychydig o'r flwyddyn flaenorol. Roedd y niferoedd a gytunai â'r gosodiad hwn yn is ymhlith aelodau'r gymuned LGBTQ+ ac ymatebwyr ag anableddau. Mae'n gadarnhaol i Sir Gaerfyrddin fel lle a'i phobl fod preswylwyr ar y cyfan yn teimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain. Mae hyn yn rhan annatod o'r ymdeimlad o berthyn, ac yn un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at hapusrwydd cyffredinol. |
| *Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghymuned* | 0.78 | 0.55 | 0.61 | Sir Gaerfyrddin sydd ag un o'r cyfraddau troseddu isaf yng Nghymru gyfan. Mae'r sgôr gadarnhaol i'r gosodiad hwn yn cefnogi hyn, gyda 67% o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth o fewn ardaloedd cymunedol lleol, gyda Llanelli'n arddangos sgôr gymharol is nag ardaloedd eraill. Er bod hynny'n wir, mae'r sgôr wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol sy'n awgrymu bod teimladau wedi gwella ers helynt emosiynol Gwesty Parc y Strade. |

- Roedd 99.22% o sefydliadau bwyd yn Sir Gaerfyrddin yn cyrraedd safonau hylendid bwyd yn ystod 2024/25.
- Cwblhawyd arolygiad yn achos pob un o'r 173 (100%) o fusnesau Safonau Masnach oedd i fod i gael arolygiad. Mae hyn llawer gwell na pherfformiad 2023/24 o 49%.
- Yn ystod 2024/25, cafwyd 18 o ddiffynyddion yn euog o droseddau cysylltiedig ag Iechyd Anifeiliaid a Safonau Masnach, gyda 141 mis o garchar a 500 awr o wasanaeth cymunedol wedi'u dedfrydu. Ar ben hynny, cafodd yr awdurdod £61,310 mewn costau a £127,600 mewn iawndal a gwneud iawn am gamwedd ar gyfer dioddefwyr y troseddau.

## Canlyniad: Cynnal cyfraddau troseddu isel gan barhau i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r cyfraddau cynyddol sy'n amlwg mewn rhai ardaloedd o'r sir.

**Tîm Cydlyniant Cymunedol**

Mae tîm Cydlyniant Cymunedol Canolbarth a De-orllewin Cymru yn un o wyth tîm rhanbarthol sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n parhau i ddarparu ymagwedd gyson a chydweithredol at gydlyniant cymunedol ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Cefnogodd y tîm ymgyrchoedd cenedlaethol a rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo cynhwysiant:

- **Wythnos Ffoaduriaid (Mehefin 2024)**: Rhannwyd negeseuon allweddol ar draws y cyfryngau cymdeithasol i amlygu profiadau ffoaduriaid a hyrwyddo dealltwriaeth.
- **Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb (Hydref 2024)**: Sesiynau hyfforddi gan Ganolfan Cymorth Casineb Cymru a chynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu mawr ei sylw ym Mharc y Scarlets i gynyddu ymwybyddiaeth ac annog riportio.
- **Diwrnod Cofio'r Holocost (Ionawr 2025)**: Wedi'i goffáu trwy ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol a goleuo adeiladau cyhoeddus mewn porffor.
- **Mis Hanes LGBT (Chwefror 2025)**: Wedi hyrwyddo cynhwysiant a gwelededd trwy gynnwys digidol a rennir a thrwy ymgysylltu â'r gymuned.

Cyflwynodd a threfnodd y tîm ystod o gyfleoedd hyfforddi i gryfhau capasiti lleol:

- Dangosodd y sesiwn “Cydlyniant yn ein Cymunedau" arferion da o dri phrosiect a ariannwyd gan grantiau bach.
- Wedi darparu hyfforddiant a dargedwyd i staff awdurdod lleol ar:
  - Casineb ar-lein a diogelwch trydydd sector,
  - Ymwybyddiaeth o droseddau casineb ar gyfer rheolwyr,
  - Cyfathrebu cynhwysol drwy "Grym Iaith,”
  - Cydweithio â Cymorth i Ddioddefwyr i ddatblygu ymgyrchoedd a hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o droseddau casineb a'u riportio.

Ariannwyd tri phrosiect mawr eu heffaith drwy Gynllun Grantiau Bach Rhanbarthol Tîm Cydlyniant Cymunedol Canolbarth a De-orllewin Cymru:

Mae **CETMA's 'YN CYNNWYS:** ymgyrch 'Dweud na wrth Gasineb' a wnaeth gynnaldigwyddiadau effeithiol yn Llanelli, Caerfyrddin ac Abergwaun, gan gynnwys boreau coffi a phresenoldeb cryf ar y cyfryngau cymdeithasol. Ymgysylltodd y fenter â 240 o fynychwyr, 10 sefydliad partner, a sicrhau 11 ymrwymiad "Diogel rhag Casineb". Gyda dros 67,500 wedi gwylio ar y cyfryngau cymdeithasol, cododd yr ymgyrch lawer o ymwybyddiaeth o droseddau casineb, cryfhau'r partneriaethau lleol, a gosod y sylfaen ar gyfer ehangu yn y dyfodol.

Cynhaliodd menter Llanelli Unites dri digwyddiad cynhwysol gyda pherfformiadau gair llafar, cerddoriaeth a diwylliannol. Rhagorodd ar y targedau trwy ddenu 88 o fynychwyr ac ymgysylltu â phartneriaid amrywiol fel People Speak Up a Llanelli Queer Collective. Trwy hyrwyddo amlieithog a lleoliadau hygyrch, llwyddodd y digwyddiadau i gyrraedd grwpiau wedi'u tangynrychioli. Amlygodd adborth yr arolwg effaith gadarnhaol ar ganfyddiadau o gydlyniant cymunedol a nodi cyfleoedd i ymgysylltu'n ddyfnach â digwyddiadau'r dyfodol ar ganfyddiadau o gydlyniant.

Cyflwynodd Cyngor Tref Sanclêr **Brosiect Celfyddydau Gwrth-graffiti** wythnos o hyd a wnaeth ymgysylltu ag ysgolion, grwpiau ieuenctid, a thrigolion hŷn i fynd i'r afael â graffiti sy'n gysylltiedig â chasineb trwy fynegiant creadigol. Mae'r prosiect yn rhagori ar ei darged cyfranogi gyda 75 o fynychwyr. Bu i'r prosiect integreiddio themâu cydraddoldeb i gwricwlwm ysgolion, ac arwain at ostyngiad amlwg mewn graffiti, a mwy o ddiddordeb mewn celf gyhoeddus.

**Prosiect Trawsnewid Tyisha**

Mae ward Tyisha wedi'i nodi fel un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin, ac mae ganddi safle daearyddol pwysig rhwng canol tref Llanelli a datblygiad newydd Pentre Awel. Mae tîm prosiect wedi'i greu i drawsnewid yr ardal gydag amcanion allweddol ar:

- Leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol,
- Gwella iechyd a llesiant,
- Cynyddu cyfleoedd cyflogaeth ac addysg,
- Gwella'r amgylchedd,
- Cyflawni gwelliannau ar draws y stoc dai a datblygu safleoedd strategol allweddol ar gyfer tai newydd a chyfleusterau cymunedol.

Mae prosiect Trawsnewid Tyisha yn rhan bwysig o gyfres o ymyriadau strategol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gan y Cyngor ac sy'n cynnwys mesurau buddsoddi, datblygu, ymgysylltu, a gorfodi a gyflawnir trwy ddull cyfannol a chynaliadwy. Prif ethos y prosiect yw trawsnewid yr ardal yn gymuned fywiog, gydlynol a chydnerth a fydd yn addasu i'r newidiadau sydd eu hangen. Bydd hyn yn cael ei gwblhau trwy newid ymddygiad sylweddol, sef un o heriau anoddaf y prosiect. Mae'r newid hwn yn broses hir a gyflawnir trwy raglenni addysgol, newidiadau i'r gwasanaeth, a chodi ymwybyddiaeth. Yn dilyn y newid hwn, dylai'r gymuned allu targedu'r prif broblemau'n annibynnol mewn ffordd gynaliadwy, ochr yn ochr ag ymyriadau'r Cyngor.

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn rhan allweddol o wneud unrhyw brosiect creu lleoedd yn llwyddiannus. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r gymuned bob cam o'r ffordd. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn datblygu cydlyniant cymunedol, cydnerthedd a hirhoedledd i'r gymuned pan ddaw'r prosiect i ben.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

**Clos Sant Paul – Trawsnewid Tyisha**

Fel rhan o raglen Trawsnewid Tyisha, datgelodd ymarfer "Planning for Real" fod preswylwyr Clos Sant Paul yn teimlo'n anniogel oherwydd lefelau uchel o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cafodd unigolion yn sefyllian ar hyd lle o dan ddylanwad alcohol a chyffuriau eu riportio'n aml gan aelodau'r gymuned. Dywedodd chwe phreswylydd nad oeddent yn gallu defnyddio eu gerddi blaen a'u bod yn ystyried adleoli trwy'r gofrestr tai cymdeithasol.

Mewn ymateb, arweiniodd partneriaeth â Heddlu Dyfed-Powys at Archwiliad Gweledol Amgylcheddol i nodi atebion ymarferol, megis:

- Gosod ffensys isel i atal loetran,
- Cyflwyno cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth,
- Defnyddio clychau drws a theledu cylch cyfyng ychwanegol,
- Cynllun gweithredu troseddu ar y cyd gyda phatrolau rheolaidd,
- Cefnogaeth gan asiantaethau lleol i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

Gweithredwyd cynllun ymgysylltu cymunedol cadarn hefyd i adeiladu cydlyniant, hyder a chydnerthedd. Nod yr ymdrechion hyn oedd grymuso preswylwyr i berchnogi materion lleol a chynnal gwelliannau y tu hwnt i oes y prosiect.

Dangosodd arolygon ôl-ymyrraeth fod 90% o'r preswylwyr yn fodlon, gyda sylwadau fel "Gwneud yr ardal yn ddiogel ac i edrych yn well" ac "Ardal ddiogel i fy mhlant fyw a chwarae ynddi”.

Yn gyffredinol, mae troseddu yn ward Tyisha wedi gostwng 34%, sy'n dangos effeithiolrwydd ymagwedd gyfannol at adfywio, sy'n cael ei harwain gan y gymuned.

## Sut gallwn ni wneud yn well?

Byddwn yn gweithio'n agos gyda Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid eraill i gyflwyno cynllun gweithredu ar y cyd wedi'i ddiweddaru er mwyn lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys gwyliadwriaeth, mesurau gorfodi, ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth. Byddwn yn cwblhau blwyddyn olaf y Cynllun Cydlyniant Cymunedol tair blynedd, yn cefnogi'r Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel, ac yn adolygu llwybrau mwy diogel a mesurau arafu traffig mewn trefi a phentrefi. Drwy weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, byddwn hefyd yn gwella ymgysylltu ac arferion recriwtio er mwyn gwella cynrychiolaeth o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gan roi arweiniad a chymorth clir drwy ein gwefan a'n rhwydweithiau cymunedol.

# Hamdden a Thwristiaeth


## Yn Gryno

Yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd Hamdden a Thwristiaeth yn Sir Gaerfyrddin sawl carreg filltir nodedig. Parc Gwledig Pen-bre oedd yr unig safle yn Sir Gaerfyrddin i ddal Baner Las a Baner Werdd, sy'n tanlinellu ei ragoriaeth wrth reoli arfordir a pharcdir. Cadwodd Traeth Cefn Sidan, sydd o fewn y parc, ei statws Baner Las, gan adlewyrchu safonau uchel o ran ansawdd dŵr, stiwardiaeth amgylcheddol, diogelwch a chyfleusterau ymwelwyr. Enillodd y parc hefyd y teitl Safle Gwersylla Gorau yng Ngwobrau Twristiaeth De-orllewin Cymru a chynrychioli'r rhanbarth yng Ngwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2025. Cynhaliwyd yno hefyd ddigwyddiad proffil uchel 'Battle of the Beach', gan ddenu mwy na 700 o gystadleuwyr o bob cwr o Ewrop.
Parhaodd llety 14 ystafell wely a bwyty Caban i berfformio'n gryf, a chael adolygiadau cwsmeriaid perffaith bron a sgôr 4 seren Croeso Cymru.
Yn y cyfamser, derbyniodd CofGâr, Gwasanaeth Amgueddfeydd a Chelfyddydau'r Cyngor Sir, y wobr Atyniad Gorau ar gyfer yr Amgueddfa Cyflymder Tir ym Mhentywyn. Mae'r amgueddfa hon yn adnabyddus am ei dyluniad cynaliadwy a'i harddangosfeydd diddorol, ac mae wedi denu ymwelwyr o bedwar ban a chynnal ystod amrywiol o ddigwyddiadau, gan gynnwys rhai corfforaethol, gweithgareddau plant, a phriodasau. Mae hyn oll ar gyrion traeth saith milltir Pentywyn.

## Sut ydyn ni'n gwneud?

- Mae ymwelwyr dros nos ac ymwelwyr dydd yn cyfrannu £683m i'r economi leol gan gefnogi 6,649 o swyddi amser llawn.
- Roedd bron 750,000 o ymweliadau (personol ac ar-lein) â'n llyfrgelloedd yn ystod 2024/25. Mae hwn yn welliant o 13% ar y flwyddyn flaenorol sef 660,000. Cyflawnwyd y cynnydd hwn drwy amryw ddigwyddiadau yn ein llyfrgelloedd megis digwyddiadau Makerspace, Clybiau Sadwrn, Sesiynau Hyfforddi Digidol, Clybiau Crosio a Gwnïo, yn ogystal ag ymweliadau Diwrnod y Llyfr y Byd a Ffeiriau Crefftau Nadolig. Mae ein hymweliadau digidol yn parhau'n uchel gyda chwsmeriaid yn elwa ar ein hystod o e-lyfrau digidol, e-lyfrau llafar, papurau newydd, cylchgronau ac apiau hyfforddi.
- Mae nifer yr ymweliadau â'n canolfannau hamdden yn ystod 2024/25 ar ei uchaf erioed ac ychydig o dan ddwy filiwn (1,941,547), sy'n cyfateb i ychydig dros 10,000 o ymweliadau fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae twf mewn gwerthiannau ffitrwydd, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig, a gwelliannau mewn sesiynau grŵp a chasglu data i gyd wedi helpu i wella presenoldeb.



## Canlyniad: Pobl yn teimlo eu bod wedi’u grymuso i fyw bywydau egnïol ac iach trwy fynediad at wasanaethau a darpariaeth sy’n addas i’r diben.

### “Codi drwy newid”


Lansiwyd y prosiect yn Hendy-gwyn ar Daf i gefnogi menywod sy'n mynd drwy'r perimenopos neu'r menopos. Cyfunodd y fenter sesiynau hyfforddiant cryfder gan Actif a gwybodaeth dan arweiniad arbenigwyr o dimau byrddau iechyd. Nod y rhaglen oedd lleihau'r risg o osteoporosis mewn menywod hŷn tra'n cynyddu ymwybyddiaeth o'r arwyddion, y symptomau a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r menopos. Cafodd y cyfranogwyr arweiniad ar faeth, iechyd y pelfis, a llesiant seicolegol. Roedd manteision sylweddol i'r cynllun peilot 10 wythnos, gan gynnwys mwy o hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, gwell gwybodaeth, a gwell sgoriau llesiant. Yn seiliedig ar ei lwyddiant, mae cynlluniau ar y gweill i sicrhau cyllid ychwanegol i ehangu'r prosiect a datblygu adnodd digidol i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

### Chwaraeon a Hamdden Actif

Mae'r buddsoddiadau yn y portffolio cyfleusterau wedi cynnwys y Cyfleusterau Athletau newydd a'r cae 3G yng Nghanolfan Hamdden Dyffryn Aman, cyfleusterau newid yng nghae 3G Penrhos, Ystafell Iechyd newydd yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin, a buddsoddiad ar raddfa lai mewn gwaith adnewyddu ac offer mewn gwahanol ganolfannau hamdden. Mae rhaglenni wedi parhau i esblygu a datblygu tra'n gwrando ar ofynion cwsmeriaid a defnyddio cyllid grant wedi'i dargedu i sicrhau ymateb cadarn. Mae hyn wedi bod yn gynhyrchiol, ac mae'r twf mewn presenoldeb a'r gwelliannau cysylltiedig mewn incwm yn dangos hynny.

### Parc Gwledig Pen-bre

Parc Gwledig Pen-bre yw'r unig le yng Nghymru yn awr sy’n meddu ar Faner Las a Baner Werdd, oherwydd ei ragoriaeth mewn rheoli ardaloedd arfordirol a pharcdir.
Mae Traeth Cefn Sidan, sydd wedi'i leoli yn y parc, unwaith eto wedi ennill gwobr nodedig y Faner Las. Mae'r anrhydedd hon, sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol a'i gweinyddu gan Cadwch Gymru'n Daclus ar ran y Sefydliad ar gyfer Addysg Amgylcheddol, yn adlewyrchu ansawdd dŵr, rheolaeth amgylcheddol, safonau diogelwch, a chyfleusterau ymwelwyr arbennig y traeth.



Enwyd Parc Gwledig Pen-bre fel y Safle Gwersylla Gorau yng Ngwobrau Twristiaeth De-orllewin Cymru, gan gydnabod ei gyfleusterau rhagorol, ei wasanaeth i gwsmeriaid, a'i ymrwymiad i gynaliadwyedd. Aeth y parc ymlaen i gynrychioli'r rhanbarth yng Ngwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2025. Cynhaliwyd yno hefyd ddigwyddiad arloesol 'Battle of the Beach', gan ddenu mwy na 700 o gystadleuwyr o bob cwr o Ewrop.

**Llety Caban**

Mae ein llety 14 ystafell wely a bwyty, sef 'Caban', yn parhau i ffynnu, gydag adolygiadau cwsmeriaid yn rhoi'n agos i 5 seren ar gyfartaledd, ac ymfalchïa'r safle yn y gradd 4 seren gafodd gan Croeso Cymru.

**CofGâr**

Cipiodd CofGâr, Gwasanaeth Amgueddfeydd a Chelfyddydau'r Cyngor Sir, y wobr Atyniad Gorau ar gyfer yr Amgueddfa Cyflymder Tir ym Mhentywyn. Mae'r safle'n dathlu hanes torri'r record cyflymder tir ar y traeth enwog, ac mae'n denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd. Mae'r amgueddfa hwyliog ac ymarferol hon yn fodel o ddylunio cynaliadwy sy'n cynnal arddangosion arbennig ochr yn ochr ag arddangosfeydd rhyngweithiol. Mae'r lle pwrpasol ar gyfer derbyniadau wedi croesawu amrywiaeth o ddigwyddiadau eleni, o gyfarfodydd corfforaethol a gweithgareddau i blant i seremoni briodas hardd - a hynny gan gynnig golygfeydd ysblennydd o draeth saith milltir Pentywyn.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

**Symudiad Meddylgar (gyda CYCA)**

Cyflwynwyd dau gwrs Symudiad Meddylgar wyth wythnos mewn partneriaeth â CYCA (Cysylltu Ieuenctid, Plant ac Oedolion), wedi'u hategu gan eu Model Cydnerthedd. Mae'r rhaglen yn cefnogi cyfranogwyr trwy gadw cofnod, ymwybyddiaeth o straen, ac ymarfer corff ysgafn, gan roi'r grym i unigolion fyfyrio, gosod nodau, a gwella eu llesiant meddyliol a chorfforol. Cafodd y fenter effaith drawsnewidiol ar gyfranogwyr, gyda llawer yn adrodd llai o bryder, gwell cwsg, ac ymdeimlad newydd o bwrpas.

Rhannodd un cyfranogwr, "Mae'r sesiynau wedi bod yn help mawr o ran fy ngorbryder drwy ioga, sgwrsio, a chofnodi. Bydda' i'n bendant yn cario ymlaen gyda'r technegau hyn."

Disgrifiodd un arall y peth fel profiad newidiodd fywyd: "Rwy'n gwenu mwy nawr; rwy'n cymdeithasu ac yn hapusach fy myd - mae wedi bod yn drobwynt mawr i mi."

Cafodd cyfranogwyr hefyd eu cymell i wneud newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw. Ysbrydolwyd un unigolyn i ddechrau busnes ac ysgrifennu llyfr, gan ddweud, "Rwy'n teimlo mor hapus, ac rwy'n caru bywyd."

Yn ôl eraill roedd eu perthnasoedd teuluol a'u cydnerthedd emosiynol wedi gwella: "Rwy'n gweiddi llai ar y plant nawr... mae fy ngorbryder wedi lleihau, ac rwy'n teimlo fy mod yn gallu ymdopi â mwy mewn bywyd."

Roedd y rhaglen yn cefnogi twf unigol ond hefyd yn meithrin ymdeimlad o gymuned a grymuso, gan roi'r dulliau gydol oes i gyfranogwyr reoli straen a chynnal llesiant.

Byddwn ni'n buddsoddi mewn cyfleusterau hamdden a thwristiaeth newydd a gwell, gan gynnwys agor Parth 1 Pentre Awel yn Llanelli fel rhan o ganolfan iechyd a llesiant flaenllaw. Byddwn yn parhau i gymryd rhan yn y Prosiect Llwybrau Celtaidd i hyrwyddo Sir Gaerfyrddin fel cyrchfan i dwristiaid ac yn cwblhau astudiaeth dichonoldeb busnes i gefnogi'r uchelgais i ailagor Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli fel adnodd cymunedol modern. Byddwn hefyd yn cyflwyno Actif Unrhyw Le ar gyfer ysgolion, yn darparu amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (PPA) a chymorth ar ôl ysgol, ac yn sefydlu rhwydwaith ar gyfer partneriaid blynyddoedd cynnar i atgyfnerthu pwysigrwydd bod yn egnïol o oedran ifanc.

# Gwastraff

## Yn Gryno

- Mae'r Strategaeth Casglu Gwastraff bresennol yn parhau i gynyddu'r tunelli a ailddefnyddir ac a ailgylchir, gan ragori ar y Targed Cenedlaethol Statudol o 70%.
- Mae'r gwastraff trefol cyfartalog fesul person nad yw'n cael ei ailgylchu wedi lleihau.
- Mae canran y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi wedi lleihau.
- Bellach mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth casglu gwydr o ymyl y ffordd i 99% o'r preswylwyr.
- Codi ymwybyddiaeth a chymorth addysgol mewn modd parhaus a gwell trwy gynllun allgymorth cymunedol cynhwysfawr i hyrwyddo ailgylchu a chynaliadwyedd.
- Datblygu ymhellach a chyflwyno ein prosiectau ailddefnyddio Eto ac Economi Gylchol. Mae'r rhaglen addysg a'r siopau yn hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau, adfer, atgyweirio, ac economi gylchol i wahanol grwpiau cymdeithasol, cymunedau a phreswylwyr.
- Mae'r Cyngor wedi gwella nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon, sy'n parhau i gwympo.

## Sut ydyn ni'n gwneud?

- Fe wnaeth ein cyfradd ailgylchu barhau i wella i 71.3% yn 2024/25, gan ragori ar y Targed Ailgylchu Cenedlaethol o 70% erbyn diwedd Mawrth 2025. Mae'r data diweddaraf ar gyfer Cymru gyfan o 2023/24 yn dangos cyfradd ailgylchu genedlaethol o 66.6% ac yn gosod Sir Gaerfyrddin ymysg y chwech uchaf yng Nghymru. Ni fydd data cymharol am 2024/25 ar gael tan fis Ionawr 2026.
- Gostyngodd canran y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi ymhellach i 1.31% ond nid yw wedi cyrraedd y targed cenedlaethol o Beidio ag Anfon Unrhyw Wastraff i Safleoedd Tirlenwi erbyn 2025 (gofyniad Llywodraeth Cymru yw 'Atal yr arfer o anfon i safleoedd tirlenwi i'r graddau mwyaf posib, gyda'r bwriad bod yr Awdurdod Lleol yn anelu at dargedau ailddefnyddio ac ailgylchu o +70.')
- Ymatebodd ychydig dros 3,500 i'n harolwg preswylwyr 2024. Er bod y mwyafrif yn tueddu i gytuno bod eu hamgylchedd lleol yn ddymunol ac yn cael gofal da, mae cyfran uchel yn anghytuno. Mae'r sgôr gyffredinol o 0.03 wedi gwaethygu ychydig iawn ers canlyniad y flwyddyn flaenorol sef 0.04. Roedd rhai o'r sylwadau'n amlygu problemau ynghylch glanhau strydoedd, gwastraff, a sbwriel, sy'n debygol o fod yn ffactorau sy'n cyfrannu at hyn.
- Mae'r gwastraff trefol cyfartalog fesul person nad yw'n cael ei ailgylchu wedi aros yn sefydlog ar 122Kg ar ddiwedd 2024/25, o gymharu â 121Kg yn 2023/24. Mae data cymharol cenedlaethol yn dangos bod cyfradd Sir Gaerfyrddin yn well na'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan, ac yn ail o blith yr holl siroedd.
- Mae ein harolygon System Archwilio a Rheoli Amgylcheddol Lleol (LEAMS) deufisol a gynhaliwyd yn ystod 2024/25 yn dangos bod mwy o sbwriel i'w gael ar strydoedd Sir Gaerfyrddin, gyda sbwriel cysylltiedig ag ysmygu a bwyd brys yn bennaf. Yn ogystal, mae bagiau du a glas sy'n cael eu gadael yn ein strydoedd hefyd wedi dylanwadu ar lefel y sbwriel y deuir o hyd iddo, yn enwedig yn ardal Llanelli. Rydym wedi dechrau cynllun cyfathrebu gwrth-sbwriel i gefnogi strategaeth y Cyngor ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Ar ôl ei gwblhau, bydd cynllun gweithredu lleol yn cael ei ddatblygu ac yn cynnwys ymgysylltu â busnesau allweddol, cyfathrebu neges gwrth-sbwriel glir, nodi sut byddwn yn gweithio gyda'r gymuned leol a grwpiau gwirfoddol i leihau sbwriel, a nodi camau gorfodi ar gyfer y rhai sy'n dal i daflu sbwriel.
- Mae nifer gyfartalog y diwrnodau mae'n cymryd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon wedi gwella i 2.2 diwrnod yn ystod 2024/25 gydag ychydig llai na 1,700 o achosion a adroddwyd wedi'u clirio.

## Canlyniad: Rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd y targedau ailgylchu cenedlaethol.

**Ailgylchu**

- Nid yw'r ffigur ailgylchu cychwynnol ar gyfer 2024/25 wedi'i wirio eto gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ond mae wedi'i ddynodi fel 71.3%. Mae hyn yn fwy na'r targed cenedlaethol statudol o 70% ar gyfer 2025. Yr hyn sy'n gyfrifol am y llwyddiant hwn yw system gasglu newydd ar ymyl y ffordd, gyda nodweddion fel casgliadau wythnosol ar gyfer ailgylchu cymysg sych a gwastraff bwyd, a chasgliadau ar wahân ar gyfer gwydr a bagiau du bob tair wythnos. Mae'r system hon yn cyd-fynd â gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gwasanaeth gwastraff modern sy'n cydymffurfio â methodoleg casglu Glasbrint Llywodraeth Cymru.
- Cafodd y cynllun casglu gwydr ar ymyl y ffordd ei roi ar waith i gychwyn ar gyfer 95% o aelwydydd yn ystod y newid i'r gwasanaeth gwastraff ym mis Ionawr 2023. Mae rhagor o aelwydydd wedi'u cynnwys yn ystod 2024/25, a bellach mae 99% o aelwydydd yn derbyn gwasanaeth casglu poteli a jariau gwydr o ymyl y ffordd.
- I gefnogi aelwydydd sydd heb y gwasanaeth hwn ac i helpu â chasgliadau sy'n fwy na'r hyn all fynd yn y cynwysyddion, mae gennym 25 o safleoedd casglu cymunedol mewn lleoliadau strategol o amgylch y sir.
- Lluniwyd rhaglen gynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned yn ystod 2024/25 i hyrwyddo ailgylchu a chyflawni ein dyheadau o ailgylchu mwy:
    - Rhoi 22 cyflwyniad i grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid.
    - Cefnogi 10 o ddigwyddiadau a arweinir gan y gymuned i hyrwyddo ailgylchu, ailddefnyddio a chynaliadwyedd.
    - Ymgysylltu'n uniongyrchol â 10,037 o aelwydydd drwy ymgysylltu wyneb yn wyneb drwy ymgynghorydd ailgylchu cymunedol i gefnogi cydymffurfiaeth o ran ailgylchu wrth ymyl y ffordd.
    - Fe wnaethom fonitro 950 o gyfraddau ailgylchu wrth ymyl y ffordd i weld faint o gymorth pellach oedd ei angen ar aelwydydd penodol.
- Rydym wedi parhau i weithio gyda sefydliadau perthnasol fel Wrap Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a CWM Environmental i sicrhau bod holl fusnesau ac adeiladau'r Cyngor yn barod ar gyfer y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2024. Roedd hyn yn cynnwys cynnig cymorth a chyngor uniongyrchol i ysgolion, busnesau a sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu a rhannu arferion gorau er mwyn cyflawni systemau ailgylchu effeithiol ar draws y sector masnachol a chyd-fynd â nodau rheoli gwastraff cenedlaethol ehangach. Mynychodd swyddogion ddigwyddiadau masnach a thwristiaeth yn y sir i gefnogi ac ateb unrhyw gwestiynau am y ddeddfwriaeth newydd. Roedd y gyfradd ailgylchu gwastraff masnachol dros 80% erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Economi Gylchol**

Mae'r Cyngor yn hyrwyddo Economi Gylchol trwy sawl menter:

- Canolfan Eto, Nant-y-caws:
    - Gweithdy a siop ailddefnyddio sy'n derbyn eitemau a roddwyd o'n canolfannau ailgylchu i'w hatgyweirio a'u hailgylchu i'w hailwerthu.
    - Y Ganolfan Addysg.
    - Cyfleuster ailddefnyddio paent lle mae paent sydd heb ei ddefnyddio yn cael ei ailgylchu/ail-gymysgu i'w ailwerthu.
- Mae'r Cydgysylltydd Addysg a Digwyddiadau ar gyfer Canolfan Addysg Eto ac Allgymorth Ysgolion/Cymunedol wedi mynychu 74 o ysgolion i gynnal sgyrsiau a chyflwyniadau, wedi cyflwyno 190 o becynnau dysgu addysgol ar gynaliadwyedd a'r economi gylchol, ac wedi croesawu 24 o ysgolion i'r cyfleuster yn Nant-y-caws.
- Cynhaliwyd digwyddiad Meithrin Capasiti yr Economi Gylchol yn Sero ym mis Chwefror 2025. Cafwyd pedair sgwrs gyda sesiynau holi ac ateb ar ddatblygu prosiectau'r economi gylchol leol, rhannu arferion gorau, a gwersi a ddysgwyd. Y nod oedd rhoi i aelodau'r gymuned y wybodaeth i symud ymlaen yn eu prosiectau a'u hymdrechion economi gylchol.
- Cynhaliwyd hyfforddiant ynghylch codi ymwybyddiaeth o'r economi gylchol i Aelodau'r Cabinet ym mis Mawrth 2025. Yn yr hyfforddiant hwn esboniwyd cysyniad economi gylchol, ei pherthnasedd ddeddfwriaethol, ei pherthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a sut rydym ni fel Cyngor yn bodloni nodau drwy ein gwaith economi gylchol.
- Wedi cefnogi Ynni Sir Gâr gyda'r prosiect Llyfrgell Pethau 'Pethau Pawb'. Wedi'i ariannu gan gronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru, fe wnaethom sefydlu a hyrwyddo "Llyfrgell Pethau" newydd yn Llanymddyfri i gyfrannu at ymrwymiad Rhaglen y Llywodraeth i gefnogi 80 o ganolfannau atgyweirio ac ailddefnyddio yng nghanol ein trefi.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

**Cymunedau yn Elwa ar yr Economi Gylchol**

Rydym wedi cefnogi prosiectau cymunedol gyda chyllid sbarduno i sefydlu prosiectau economi gylchol newydd o fewn cymunedau lleol.

**Cadernid, Castell Newydd Emlyn**

Creu canolfan Economi Gylchol yng nghanol tref Castellnewydd Emlyn i gartrefu Llyfrgell Pethau, oergell a rhewgell gymunedol, a chaffi atgyweirio.



**CETMA, Cydweli**
Ehangu eu llyfrgell offer cegin i gynnwys offer eraill nad ydynt yn rhai cegin e.e. offer sy'n cynnwys profion PAT a chefnogi siop ar-lein ail genhedlaeth.

**Hen Ysgol Llanybydder**

Sefydlu Caffi Atgyweirio yn adeilad Hen Ysgol Llanybydder, creu gofod cymdeithasol ar gyfer llesiant preswylwyr, a chynnal gweithdai i ddysgu pobl sut i wneud plymio sylfaenol, DIY, gwau, crosio, coginio, gwehyddu, nyddu gwlân, uwchgylchu, garddio, a thyfu bwyd.



**Permaddiwylliant Tywi ac Uwchgylchu Ffabrig**
Ailddefnyddio edafedd gwastraff a ffabrigau i greu cynhyrchion newydd er budd y gymuned ac elusennau.

## Sut gallwn ni wneud yn well?

Ein nod yw cadw at neu ragori ar darged ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru o 70% yn 2025/26. Byddwn yn cychwyn ar gam nesaf ein newidiadau i'r gwasanaeth gwastraff trwy fabwysiadu glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer didoli ailgylchu wrth ymyl y ffordd a chynyddu ystod y deunyddiau ailgylchadwy a gesglir o 2026 ymlaen. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda chymunedau i gynyddu ymwybyddiaeth, mynd i'r afael â halogi bagiau glas, a darparu gwybodaeth glir a chymorth i sicrhau bod gwastraff yn cael ei waredu'n gywir.





# Priffyrdd a Thrafnidiaeth


## Yn Gryno

Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu cynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd, yn enwedig yn ystod y gaeaf, er mwyn sicrhau mynediad di-dor i wasanaethau hanfodol. Fodd bynnag, dirywiodd cyflwr arwyneb y ffordd yn 2024/25, gyda chynnydd sylweddol mewn diffygion a gofnodwyd. Rydym wedi parhau i weithio trwy heriau strategol mawr fel ymgyrch genedlaethol 20mya, datblygu cynllunio trafnidiaeth ranbarthol a'r llwybr tuag at ddyheadau carbon sero net.

Rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth gyflawni newid ac wedi llwyddo i gael cyllid grant i gefnogi darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, rydym yn wynebu heriau o ran cyllidebau cyfalaf a refeniw yn lleihau, cynnydd yn nisgwyliadau'r cyhoedd, pwysau ar y gadwyn gyflenwi, a chyflwr asedau'n dirywio. Mae hyn wedi arwain at amgylchedd anodd i'r gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth.

Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid drwy Fenter Benthyca Llywodraeth Leol, er mwyn cynorthwyo i gyflawni ein cyfraniad tuag at sicrhau cydnerthedd ein rhwydwaith. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n unol â'n Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, sy'n blaenoriaethu buddsoddiad sy'n diogelu cysylltedd strategol.

## Sut ydyn ni'n gwneud?




- O gymharu ag arolwg 2022/23, ni fu unrhyw newid yng nghanran ein ffyrdd Dosbarth A yr ystyrid eu bod mewn 'Cyflwr Gwael', tra bo ychydig yn fwy o'n ffyrdd Dosbarth B, ac ychydig yn llai o'n ffyrdd Dosbarth C.
- Ymatebodd ychydig dros 3,500 i'n harolwg preswylwyr 2024. Yn y cwestiwn, 'Rydych chi'n gallu cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnoch', er i lawer ymateb 'y naill na'r llall' (29%), roedd ychydig yn fwy o ymatebwyr yn anghytuno (35%) nag oedd yn cytuno (33%). Mae'r sgôr wedi gwaethygu ychydig ers y flwyddyn flaenorol, sy'n awgrymu nad yw'r teimladau wedi dychwelyd i fel oeddent yn 2022, pryd roeddent yn gadarnhaol.
- Yn y datganiad 'mae cysylltiadau cludiant da o'm cwmpas i', gostyngodd sgôr yr arolwg preswylwyr o -0.45 i -0.59.

## Canlyniad: Ceisio gwella mynediad at wasanaethau trwy rwydweithiau trafnidiaeth a seilwaith gwell.

Rydym wrthi'n buddsoddi mewn gwella trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith ar draws y sir.

### Cysylltu Cymunedau

**Llwybr Dyffryn Tywi**

Mae £16.7m o arian Ffyniant Bro Llywodraeth y DU yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r prosiect uchelgeisiol hwn sy'n cysylltu cymunedau gwledig yn Nyffryn Tywi. Agorwyd y rhan bedair milltir gyntaf rhwng Abergwili a Nantgaredig ym mis Ebrill 2025, gan ddarparu ffordd werthfawr, ddiogel, gynaliadwy a fforddiadwy o gysylltu cymunedau.






### Mynd i'r afael ag Anghenion Trafnidiaeth Wledig

**Gwasanaeth Bws Bach y Wlad**

Rydym wedi datblygu menter i lenwi'r bwlch mewn trafnidiaeth gyhoeddus i drigolion ardaloedd gwledig Gogledd Sir Gaerfyrddin. Ymateb uniongyrchol yw hwn i ddiflaniad gwasanaeth Bwcabus, gan sicrhau y gall preswylwyr gysylltu â chyfleoedd economaidd a meithrin twf a datblygiad rhanbarthol.

### Gwella'r Seilwaith Ffyrdd

Mae'r prosiect hwn wedi arwain at nifer o fanteision i Lanelli. Mae cylchfan Heol y Sandy ar ei newydd wedd yn hyrwyddo newid tuag at opsiynau teithio lleol fel beicio a cherdded. Mae hyn yn gwella ansawdd aer, yn lleddfu tagfeydd traffig, ac yn gwella dibynadwyedd teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus. Drwy wneud hynny, mae hyn yn gwella hygyrchedd a bywiogrwydd economaidd canol tref Llanelli. Mae ail gam y prosiect wedi sicrhau cyllid gan Gronfa Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru a bydd yn cael ei gyflawni yn Haf 2025. Bydd hyn yn golygu gwneud gwelliannau i gyffordd Heol y Sandy/Maesycoed i wella llif traffig, lleihau tagfeydd, a darparu amgylchedd mwy diogel i'r holl ddefnyddwyr ffordd.

**Cynnal a Chadw Ffyrdd A, B, ac C**

Rydym yn parhau i flaenoriaethu cyllid ar draws y rhwydwaith ffyrdd mewn modd sy'n seiliedig ar risg, gan roi blaenoriaeth i'r rhannau prysurach o'r ffordd. Yn 2024/25, gwnaethom fuddsoddi £2 filiwn mewn gosod arwyneb newydd ar briffyrdd. Dangosir gwelliannau yn y dangosydd cyflwr ffyrdd ar ffyrdd dosbarth C, gyda ffyrdd A yn aros yn sefydlog, a dirywiad bach yng nghyflwr ffyrdd dosbarth B. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cyllid pellach i fynd i'r afael â chyflwr ffyrdd di-ddosbarth a gwledig. Trwy gronfa Ffyrdd Cydnerth Llywodraeth Cymru, fe wnaethom sicrhau £500,000m o gyllid i wneud gwaith atgyweirio mawr ar draws y Sir. Roedd y cyllid hwn yn help i ni gyda sawl argyfwng go sylweddol, gan gynnwys tri arglawdd ffordd wedi cwympo, a dwy wal gynnal a dau gwlfer wedi dymchwel.

**Cynnal a Chadw**

Rydym yn blaenoriaethu cynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd drwy gydol y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod gan breswylwyr fynediad di-dor at wasanaethau hanfodol a bod preswylwyr agored i niwed yn cael gofal a chymorth. Mae llwybrau priffyrdd strategol yn cael eu trin â halen, fel rhan o'n Cynllun Gwasanaeth dros y Gaeaf, i sicrhau bod modd cynnal gwasanaethau a chyflenwadau hanfodol.

Parhau i waethygu wnaeth cyflwr wyneb y ffordd yn 2024/25, yn enwedig ar ffyrdd dosbarth is. Gostyngodd nifer y cwsmeriaid wnaeth roi gwybod am ddiffygion a thyllau (2,567) 21% o gymharu â 2023/24, ond mae hyn dal yn gynnydd o 88% o gymharu â ffigurau 2022/23. Mae cwtogi ar raglenni cynnal a chadw ataliol yn gadael ein ffyrdd yn agored i ddirywiad cyflym, a hynny'n fwy fyth wrth i dywydd eithafol ein taro'n fwy aml.

**Diogelwch**

Bob blwyddyn, mae'r Tîm Diogelwch Ffyrdd yn cynnal rhaglen i nodi lleoliadau lle mae gwrthdrawiadau anafiadau personol yn achos pryder, ac yna llunio mesurau peirianneg i leihau'r risg o wrthdrawiadau'n digwydd. Gwneir hyn gan ddefnyddio data gwrthdrawiadau Heddlu Dyfed-Powys, sy'n gyfrifol am gasglu'r holl ddata gwrthdrawiadau traffig ffyrdd lle cafwyd anafiadau personol. Mae hyn yn golygu y gellir gwneud yn siŵr bod y cyfeiriad a'r ffocws yn gyfredol ac yn parhau i fod yn berthnasol. Rhwng 2015 a 2023, gwelodd Sir Gaerfyrddin ostyngiad o 25% yn nifer y gwrthdrawiadau lle cafwyd anafiadau personol. Mae marwolaethau ac anafiadau o wrthdrawiadau traffig ffyrdd yn faich economaidd, amgylcheddol, iechyd a chymdeithasol sylweddol ar gymdeithas. Mae lleihau gwrthdrawiadau ac anafiadau yn cefnogi amcan corfforaethol allweddol ar gyfer cymunedau iachach, mwy diogel a mwy ffyniannus.

**Grymuso Cymunedau Gwledig**

Fe wnaethom ailddatgan ein hymrwymiad i lesiant a ffyniant pobl sy'n byw yng nghefn gwlad gyda lansiad dwy fenter: Bws Bach y Wlad a Hwb Bach y Wlad. Roedd y rhain yn gamau sylweddol ymlaen o ran sicrhau bod preswylwyr Gogledd Sir Gaerfyrddin yn cael mynediad at adnoddau a chymorth hanfodol, waeth beth fo'u rhwystrau gwledig.

Diolch i gyllid hanfodol gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, cynigiodd Bws Bach y Wlad wasanaeth pum diwrnod yr wythnos fel rhan o brosiect peilot naw mis. Mae'r fenter wedi'i chynllunio i rymuso a chyfoethogi bywydau preswylwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig trwy fynd i'r afael â'r heriau sy'n perthyn i ynysu a mynediad cyfyngedig i wasanaethau hanfodol. Mae Bws Bach y Wlad yn gwneud hyn drwy ddarparu mynediad hwylus at wasanaethau cymorth hanfodol, mynd ar drywydd cyfleoedd addysgol a chyflogaeth, a gweithgareddau hamdden. Mae'r cyfleoedd hyn hefyd yn ymestyn i bobl ifanc y Sir Gaerfyrddin wledig, sy'n elwa ar gyfraddau teithio gostyngol er mwyn gallu achub mantais ar gyfleoedd y tu hwnt i'w hardaloedd lleol.




Gan adeiladu ar lwyddiant y prosiect hwn, rydym hefyd wedi cyflwyno Hwb Bach y Wlad, sef canolfan gymorth gynhwysfawr sydd wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion amrywiol trigolion gwledig. Bellach gall unigolion dderbyn cyngor ar wasanaethau'r Cyngor, costau byw, gwastraff ac ailgylchu, materion defnyddwyr a busnes, materion tai, ac atgyfeiriadau at sefydliadau partner. Mae'n estyniad i'n Hwb Gwasanaethau Cwsmeriaid, sydd wedi cyrraedd dros 6,000 o gwsmeriaid drwy ymweld â neuaddau cymunedol, banciau bwyd, canolfannau Hamdden a martiau ffermwyr.

**Dywedodd y Cynghorydd Edward Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith:**

"*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i fod yn ymroddedig i wella bywydau'r holl drigolion, ac mae'r mentrau hyn yn tanlinellu ein hymrwymiad diflino i feithrin cymunedau ffyniannus a chynhwysol yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin.*

*Drwy ddarparu gwasanaethau cymorth hanfodol a phontio'r bwlch rhwng ardaloedd anghysbell ac adnoddau hanfodol, rydym yn grymuso unigolion i ffynnu a meithrin cymunedau cynhwysol yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin."*

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth i wella mynediad at wasanaethau a chefnogi twf economaidd, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd a chysylltedd gwledig. Mae ein cynlluniau'n cynnwys datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, bwrw ymlaen â METRO De-orllewin Cymru, a buddsoddi mewn seilwaith cerbydau trydan wedi'i gefnogi gan Strategaeth Trawsnewid y Fflyd. Byddwn yn adolygu'r Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Priffyrdd, yn treialu Cymorthfeydd Trafnidiaeth i wella ymgysylltiad â'r cyhoedd, ac yn datblygu Strategaeth Parcio Ceir newydd i gyd-fynd â'n nodau economaidd a chynaliadwyedd.

# Amcan Llesiant 4

## Ein Cyngor:
## Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon

**Trosolwg o'r cynnydd**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran moderneiddio ei weithrediadau a gwella gwytnwch ac effeithlonrwydd:

- Mae'r Rhaglen Drawsnewid wedi cyflawni arbedion cost sylweddol, gan gynnwys dros £200,000 o adolygiadau fflyd a £2.5 miliwn drwy wella adennill dyledion.
- Mae gweithio hybrid wedi'i ymgorffori'n llwyddiannus, ac mae gwerthu Parc Dewi Sant a defnyddio dulliau rheoli'r gweithle wedi cefnogi rhesymoli eiddo.
- Mae buddsoddiadau technolegol wedi symleiddio gweithrediadau, gydag awtomeiddio a roboteg yn lleihau llwythi gwaith â llaw ac yn arbed dros £61,000 trwy bost hybrid yn unig.
- Mewn perthynas â Rheoli Pobl, mae Strategaeth Recriwtio a Chadw newydd yn cael ei datblygu, a chafodd y Cyngor ei gydnabod fel 'Cyflogwr y Flwyddyn' am ei gefnogaeth i ddysgu Cymraeg.
- Mae ymgysylltu â'r staff yn parhau i fod yn gryf, gyda sgoriau arolwg gwell yn dangos balchder ac eiriolaeth dros y Cyngor fel cyflogwr.
- Mae blwyddyn gyntaf ein Strategaeth Ddigidol wedi cyflawni newid trawsnewidiol ar draws y sefydliad. Rydym wedi gwella seilwaith, grymuso ein gweithlu, gwella darparu gwasanaethau, a sicrhau bod seiberddiogelwch wrth wraidd ein gwaith. Mae sylfeini cadarn ar waith, ac rydym mewn sefyllfa dda i barhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n fwy clyfar, mwy diogel, a mwy cysylltiedig yn y blynyddoedd i ddod.
- Rydym hefyd wedi datblygu ei allu i wneud penderfyniadau ar sail data ac wedi buddsoddi mewn datblygu sgiliau digidol.



## Sut ydyn ni'n gwneud?

Rydym yn rhoi pwyslais sylweddol ar bwysigrwydd barn ein preswylwyr. Y brif ffordd o fesur cynnydd yn erbyn yr amcan hwn yw drwy ein harolwg preswylwyr blynyddol. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2024 yn cael eu darparu isod gyda chymharydd ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol. Mae'r datganiadau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Cyngor a'n perfformiad.

| Datganiad | SMG Gyffredinol | | | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 | 2023 | 2024 | |
| Gallaf gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor trwy fy newis iaith | 1.40 | 1.37 | 1.37 |  |
| Pan rwyf yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, mae'r staff yn ddymunol a chyfeillgar | 0.82 | 0.77 | 0.77 |  |
| Gallaf gael mynediad hwylus i'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau'r Cyngor | 0.50 | 0.46 | 0.41 |  |
| Mae cysylltu â'r Cyngor yn syml a rhwydd | 0.31 | 0.28 | 0.30 |  |
| Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon dda. | 0.27 | 0.17 | 0.07 |  |
| Mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i bobl sut mae'n perfformio | -0.10 | -0.12 | -0.02 |  |
| Mae'r Cyngor yn rhoi cyfleoedd i mi gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau | -0.19 | -0.19 | -0.11 |  |
| Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo. | -0.33 | -0.46 | -0.54 |  |
| Mae arian yn cael ei fuddsoddi yn y meysydd cywir | -0.41 | -0.57 | -0.64 |  |

O'r naw datganiad a gyflwynwyd yn gysylltiedig â'r Cyngor a'i berfformiad, roedd yr ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â phump (56%) ohonynt. Mae hyn yn gyson â'r tueddiadau a welwyd am y flwyddyn flaenorol.

Er hyn, bu gwelliant eleni, gyda phedwar datganiad yn gweld gostyngiad mewn sgoriau, o gymharu ag wyth datganiad y llynedd. Mae dau ddatganiad wedi aros yr un fath a thri yn dangos canlyniadau gwell.

- **Mae'r rhan fwyaf o bobl yn hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin.** Dyma'r datganiad sydd wedi sgorio uchaf dros y tair blynedd diwethaf.
- Roedd yr ymatebion yn gymysg o ran y graddau y mae preswylwyr yn teimlo bod y Cyngor yn rhoi gwybod iddynt sut mae'n perfformio. Dewisodd y gyfran fwyaf 'y naill na'r llall', sy'n gyson â'r tueddiadau a welwyd y llynedd.

- Roedd safbwyntiau'n gymysg ynglŷn â 'mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd i breswylwyr gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.' **Mae awydd ymhlith ymatebwyr am wneud penderfyniadau mewn modd mwy ymatebol, tryloyw ac wedi'i deilwra i anghenion cymunedau unigol.**
- Mae proses gyfathrebu'r Cyngor ar y cyfan yn effeithiol o ran caniatáu i breswylwyr gael mynediad at wybodaeth gyfredol am wasanaethau, **ac mae'r rhan fwyaf yn cytuno bod cysylltu'r â'r Cyngor yn syml ac yn hawdd.** Fodd bynnag, mae rhai problemau gyda phrosesau cyswllt uniongyrchol, megis pan fydd preswylwyr yn defnyddio'r prif switsfwrdd, yn defnyddio e-bost i gysylltu â swyddogion neu'n dymuno siarad yn uniongyrchol â swyddogion mewn adrannau unigol. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r flwyddyn flaenorol.
- **Ar y cyfan mae'r ymatebwyr o'r farn nad yw'r Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ni, ac nad yw buddsoddi'n digwydd yn y meysydd cywir.**
- **Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i fod yn her sylweddol i breswylwyr a'u teuluoedd. Mae costau cynyddol yn parhau i roi pwysau sylweddol ar breswylwyr Sir Gaerfyrddin.**
- Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod eu hiechyd a'u llesiant cyffredinol yn dda, mae mynediad at wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol addas i'r diben yn parhau i fod yn bryder ac yn her wirioneddol i breswylwyr.
- **Mae diffyg opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus addas i'r diben a chysylltiadau trafnidiaeth da yn rhwystr i lawer.** Dywedwyd bod tyllau a diogelwch ffordd cyffredinol yn broblem.
- **Y gwasanaethau gwastraff gafodd y lefelau boddhad uchaf, wrth i 59% o'r ymatebwyr fynegi boddhad.** Er hynny, derbyniwyd sylwadau o hyd mewn perthynas â sbwriel, tipio anghyfreithlon ac ymdeimlad cyffredinol anniben rhai ardaloedd o'r Sir. Mae'r sylwadau hyn yn arbennig o berthnasol i ganol trefi.
- Er bod y mwyafrif (46%) yn cytuno bod eu hamgylchedd lleol yn ddymunol ac yn cael gofal da, mae cyfran gymharol uchel yn anghytuno.
- **Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfradd droseddu eithaf isel o gymharu â siroedd eraill yng Nghymru, gyda 67% o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau.**
- Er bod newid wedi bod o 'cytuno'n gryf' i 'cytuno', mae'n parhau i fod yn bwysig i breswylwyr bod pobl leol yn cael eu cefnogi i brynu cartrefi yn lleol. Mae hyn yn cyfateb i 'cytuno' yn gyffredinol gan 75% o'r ymatebwyr.
- Nododd cyfran sylweddol o ymatebwyr 'y naill na'r llall' pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo bod pobl leol yn cael cefnogaeth dda i fanteisio ar gyfleoedd lleol.
- **Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr (63%) yn cytuno ei bod yn bwysig hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg**. Fodd bynnag, mynegodd rhai preswylwyr safbwynt i'r gwrthwyneb, gan dynnu sylw at yr adnoddau oedd yn cael eu defnyddio ar y flaenoriaeth hon pan oedd adnoddau'n prinhau.
- Er bod y sgôr wedi gostwng ychydig flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'n dal yn bwysig i breswylwyr fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gefnogi iechyd meddwl a llesiant pobl.
- Nododd y gyfran fwyaf o ymatebwyr (42%) 'y naill na'r llall' pan ofynnwyd iddynt a oedd yr argyfwng hinsawdd yn cael sylw'n lleol. Mae hon yn duedd gyson â'r flwyddyn flaenorol.
- Ac eithrio'r rhai a atebodd 'nid y naill na'r llall' neu 'ddim yn gwybod', roedd y lefelau anghytuno yn uwch (33%) na'r lefelau cytuno (14%) ar gyfer y graddau y cefnogir busnesau yn yr ardal leol.

- Mynegodd 21% o'r ymatebwyr anfodlonrwydd â gwasanaethau cymorth cyflogaeth.
- **Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr (44%) yn cytuno bod ysgolion lleol yn darparu addysg dda i blant a phobl ifanc.**

## Cynnydd yn erbyn Canlyniadau

## Canlyniad: Moderneiddio a datblygu ffyrdd y Cyngor o weithio ymhellach.

**Trawsnewid**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein Rhaglen Drawsnewid wedi canolbwyntio ar gyflymu ei hymdrechion moderneiddio i sicrhau y darperir gwasanaethau cost-effeithiol sydd o safon uchel.

Un o'r prif bethau sydd wedi'u cyflawni yw clustnodi a gwneud arbedion cost drwy reolaeth ariannol glyfrach. Er enghraifft, mae'r adolygiad o'n fflyd cerbydau eisoes wedi cyflawni dros £200,000 mewn arbedion cost, ac mae bellach yn cael ei ymestyn i feysydd eraill. Yn ogystal, mae ymdrechion i adennill dyledion wedi arwain at £2,523,468 mewn refeniw ychwanegol, gan dynnu sylw at lwyddiant ymagwedd fasnachol y Cyngor at ddarparu gwasanaethau.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd o ran rhesymoli asedau'r Cyngor, gan ryddhau safle Parc Dewi Sant i'w werthu ac ail-leoli staff i adeiladau eraill. Mae'r cam hwn, ynghyd â'r defnydd o feddalwedd rheoli gweithleoedd, yn cefnogi penderfyniadau gwybodus ar gydgrynhoi eiddo ac yn caniatáu ar gyfer dulliau gweithio mwy clyfar.

Mae buddsoddiadau mewn technoleg wedi moderneiddio gwaith y Cyngor ymhellach. Mae awtomeiddio prosesau papur wedi arwain at arbedion sylweddol, gyda gwasanaethau post hybrid yn unig yn arbed £61,884 mewn costau ar gyfer y flwyddyn. Ar ben hynny, mae defnyddio technoleg roboteg (RPA) wedi optimeiddio swyddogaethau swyddfa gefn, gan ryddhau staff i ganolbwyntio ar dasgau sy'n rhoi mwy o werth ychwanegol. Mae enghreifftiau o RPA yn cynnwys Create New Post, sydd wedi rhyddhau amser i staff AD gefnogi rheolwyr gyda materion mwy cymhleth, a'r broses Ymgeisio am Grant Hanfodion Ysgol (SEG). Mae gweithredu RPA ar gyfer SEG wedi cynnwys awtomeiddio'r broses owirio cymhwysedd rhieni/gwarcheidwaid, sydd nid yn unig wedi rhyddhau amser sylweddol i staff Addysg ond hefyd yn fanteisiol yn yr ystyr bod rhieni/gwarcheidwaid yn cael gwybod a ydynt yn gymwys o fewn 48 awr o gyflwyno'r cais, yn hytrach nag wythnos neu ragor mewn rhai achosion.

Rydym wedi cwblhau cynllun peilot llwyddiannus o fewn ein Gwasanaethau Gofal Preswyl er mwyn lleihau'r defnydd o weithlu'r asiantaeth, ac, yn hytrach, defnyddio adnoddau mewnol. Nod y cynllun peilot oedd darparu gwasanaeth mwy cost-effeithiol, gan gynyddu hefyd lefelau boddhad y preswylwyr drwy wella cysondeb, a hynny drwy gael staff CSC cyfarwydd i ddarparu eu gofal. Mae hyn wedi rhoi bod i ostyngiad o 79% mewn oriau a fyddai fel arall wedi cael eu cyflawni gan asiantaethau.

## Canlyniad: Cefnogi datblygiad y Cyngor fel sefydliad modern, amrywiol, cynhwysol ac ymatebol a bod yn 'Gyflogwr o Ddewis'.

**Prentisiaethau**

Ystyrir bod prentisiaethau'n sylfaenol i ddatblygiad ein gweithlu yn y dyfodol. Fel Cyngor, rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ddechreuwyr newydd, yn ogystal â staff presennol sydd am uwchsgilio. Ers 2022, cwblhaodd 21 o bobl ar gontractau prentisiaeth eu hastudiaethau gyda 13 ohonynt yn dal i fod yn gyflogedig.

Rydym hefyd yn cefnogi lleoliadau mewn partneriaeth â chynllun Cyfle, i roi i ddysgwyr ystod o brofiadau sydd eu hangen ar ddysgwyr i gyflawni eu cymhwyster. Mae hwn wedi bod yn llwybr effeithiol i lawer o'n staff. Yn ogystal, ar hyn o bryd mae 83 aelod o staff sy'n ymgymryd â chymwysterau prentisiaeth i uwchsgilio – yn amrywio o Lefel 2 (sy'n cyfateb i TGAU) hyd at lefel gradd.

**Gwella Recriwtio a Chadw**

Mae Strategaeth Recriwtio a Chadw newydd yn cael ei llunio ar hyn o bryd, a fydd yn nodi ein hamcanion ac yn disgrifio sut byddwn yn mynd i'r afael â'n heriau ariannu. Mae hyn yn cyfateb i'n 'Strategaeth Gweithlu' a'n 'Strategaeth Drawsnewid', gan adlewyrchu ein hymrwymiad corfforaethol i gydraddoldeb ac amrywiaeth, tra'n sicrhau bod arferion recriwtio diogel ar waith. Mae hefyd yn cyfateb i ddatganiad gweledigaeth y Cabinet, yn benodol:

- Gweithio mewn modd cystadleuol a gweithio tuag at wella lefelau recriwtio yn barhaus ar draws y sefydliad. Ceisio deall y camau sydd eu hangen er mwyn dod yn gyflogwr o ddewis yng Ngorllewin Cymru.
- Gweithio i farchnata Cyngor Sir Caerfyrddin fel cyflogwr deniadol i brentisiaid, pobl sy'n gadael yr ysgol a graddedigion. Canolbwyntio ar leihau nifer y bobl ifanc sy'n mudo o Sir Gaerfyrddin ac o ardaloedd gwledig.
- Gweithio gyda grwpiau perthnasol i hyrwyddo'r Cyngor fel cyflogwr ar draws pob cymuned gan gynnwys o fewn y gymuned Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Hyd at fis Mawrth 2025, roedd 91 (1.08%) o weithwyr y Cyngor o gymunedau sydd o leiafrifoedd ethnig o gymharu â 78 (0.94%) ar ddiwedd Mawrth 2024.


**Datblygu Sgiliau Cymraeg**

Cafodd y Cyngor wobr 'Cyflogwr y Flwyddyn' gan Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gaerfyrddin, o Brifysgol Aberystwyth. Roedd hyn yn cydnabod ei ymroddiad i gefnogi staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i feithrin gweithlu dwyieithog a chreu amgylchedd cefnogol lle gall y Gymraeg ffynnu. Gall staff fynychu cyrsiau Cymraeg yn ystod oriau gwaith ac mae cyrsiau'n cael eu hariannu'n gorfforaethol.



**Presenoldeb**

Mae cynnydd bach wedi bod yn absenoldeb salwch cyfartalog gweithwyr y Cyngor yn ystod 2024/25, gan gynyddu o 11.1 diwrnod i 11.5 diwrnod. Mae hyn yn uwch o lawer na'r lefelau cyn y pandemig sef tua 10 diwrnod.




## Canlyniad: Gwrando ar ein staff drwy ymgysylltu'n rheolaidd â staff a'u grymuso i wella eu meysydd gwasanaeth eu hunain.

Cawsom dros 1,600 o ymatebion i'n harolwg staff yn ystod 2024/25, gellir gweld y sgoriau a'r cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn isod. Dadansoddwyd y canlyniadau a'r sylwadau, gyda chanfyddiadau'n cael eu trafod ar lefel gorfforaethol ac adrannol, a chamau lleol cytunedig i fynd i'r afael â rhai o'r meysydd sydd angen eu gwella.

| Arolwg Ymgysylltu â Gweithwyr | Y sgôr Mynegai Cyfartalog | | | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | |
| Rwy'n falch o weithio I'r Cyngor | 1.04 | 1.06 | 1.15 | Mae'r canlyniad o 1.15 yn dangos bod staff, ar y cyfan, yn cytuno'n gryf eu bod yn ymfalchïo mewn gweithio i'r Cyngor. |
| Byddwn yn argymell y Cyngor fel cyflogwr | 1.04 | 1.10 | 1.17 | Mae'r canlyniad o 1.17 yn dangos bod staff, ar y cyfan, yn cytuno'n gryf eu bod yn argymell y Cyngor fel cyflogwr. |

## Canlyniad: Sicrhau bod y gwaith a wneir mewn partneriaeth yn lleol ac yn rhanbarthol yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn ychwanegu gwerth at waith y Cyngor.

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin wedi symud ymlaen â chamau allweddol o'r Cynllun Llesiant.

Un enghraifft yw datblygu Strategaeth Fwyd Sir Gaerfyrddin, sydd wedi cynnwys ymgynghori â thros 450 o randdeiliaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae grwpiau ffocws, gweithdai, arolygon, a chyfweliadau un-i-un gyda phobl, busnesau a sefydliadau wedi cefnogi'r ymchwil academaidd i'r system fwyd leol sydd ei hangen i ddatblygu'r strategaeth. Mae mewnbwn a chyfranogiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn hanfodol wrth nodi'r meysydd mwyaf addas ac effeithiol ar gyfer ymyrraeth, gan arwain at ddiffinio a blaenoriaethu amcanion a thargedau strategol.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i adeiladu cysylltiadau cryfach rhwng y ddwy ardal.

**PARTNERIAETH**

Sefydlwyd PARTNERIAETH i gefnogi ysgolion mewn partneriaeth â chynghorau Abertawe a Sir Benfro, yn dilyn diddymu'r gwasanaeth Ein Rhanbarth Ar Waith (ERW). Sefydlwyd Cyd-bwyllgor newydd, a datblygwyd Cytundeb Cyfreithiol i reoli gwaith yr endid newydd. Mae staff craidd wedi cael eu hailstrwythuro i greu tîm o swyddogion i gefnogi ac ategu gweithgareddau gwella ysgolion yn y tair sir.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Cytundeb Cydweithio newydd wedi cymryd lle'r Cytundeb Cyfreithiol. O 1 Ebrill 2025, mae yno i gynnal lefel gymesur o lywodraethu er mwyn cynnal cyfrifoldeb ar y cyd a gweithio partneriaeth effeithiol.

Mae gwaith yn parhau i gryfhau'r gwaith o lywodraethu, monitro a dwyn PARTNERIAETH i gyfrif am ei gyfraniad at wella ysgolion yn y rhanbarth. Blaenoriaethau'r dyfodol yw:

- **Blaenoriaeth 1**: Cefnogi pob ysgol a lleoliad addysgol i ddylunio a darparu eu cwricwlwm eu hunain, sy'n deg ac yn safonol.
- **Blaenoriaeth 2**: Cynnwys egwyddorion a phrosesau sy'n sail i gydraddoldeb addysgol ym mhob ysgol a lleoliad addysgol.
- **Blaenoriaeth 3**: Cefnogi ysgolion a lleoliadau addysgol i ddatblygu ystod o sgiliau ymchwilioac ymholi fel rhan allweddol o'u dysgu proffesiynol.
- **Blaenoriaeth 4**: Darparu llwybrau gyrfa i arweinwyr, ymarferwyr a staff cymorth ar bob lefel o'r system.

**Bargen Ddinesig Bae Abertawe**

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn fuddsoddiad nas gwelwyd ei debyg o'r blaen o hyd at £1.3 biliwn erbyn 2033 gan greu 9,000 o swyddi ar draws portffolio o naw o brif brosiectau a rhaglenni ledled siroedd Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro. Mae'r portffolio'n cael ei gyflawni'n llawn, gan gyd-fynd â thair thema sef cyflymu'r economi, ynni a gweithgynhyrchu clyfar, a gwyddor bywyd a llesiant. Bydd y Fargen yn cynnig cyfleoedd i lawer o fusnesau rhanbarthol presennol a newydd, yn ogystal â thrigolion ar draws y rhanbarth.

**Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru (CJC)**

Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru (CJC) fel corff corfforaethol rhanbarthol gan Weinidogion Cymru. Mae'r aelodaeth yn cynnwys arweinwyr gweithredol Cynghorau Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, ynghyd ag aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Cyhoeddodd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2023-2028, sy'n cydnabod ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau yn Ne-orllewin Cymru, a hynny mewn perthynas â llesiant economaidd, ynni, trafnidiaeth, a chynllunio strategol, gan gyfleu'r cynnydd a wnaed hyd yma, ac i nodi uchelgeisiau am y dyfodol. I'r perwyl hwn, mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys Gweledigaeth ar gyfer De-orllewin Cymru 2035, yn ogystal â thri amcan llesiant ac amcan cydraddoldeb.

**Datblygu Economaidd**
Mae gwaith partneriaeth lleol yn parhau yn ein prif drefi, sef Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli. Gwneir hyn trwy'r gwahanol dasgluoedd canol trefi, a fforymau tref, lle mae'r holl randdeiliaid yn dod at ei gilydd i drafod materion, datblygiadau a gweithgareddau canol tref er mwyn cyflawni Cynlluniau Adfer Datblygu Economaidd pob tref.

Mae partneriaethau rhanbarthol yn mynd rhagddynt drwy'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol, a'i strwythurau cymorth. Yn fwyaf nodedig, Bwrdd Ymgynghorol y Sector Preifat. Ar hyn o bryd mae'r pedwar Awdurdod Lleol yn cynnal adolygiad o'r Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol, sy'n nodi'r cyfeiriad strategol rhanbarthol ar gyfer datblygu economaidd a fydd yn sail i weithgarwch economaidd am y pum mlynedd nesaf.

## Canlyniad: Mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ymgysylltu, cyfranogi ac ymgynghori.

**Strategaeth Gynnwys**
Yn ystod 2024/25, rydym wedi datblygu a chymeradwyo Strategaeth Gynnwys ar gyfer 2025-27, sy'n pwysleisio pa mor bwysig yw ymgysylltu â'n cymuned wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. Nod y strategaeth yw sicrhau bod pob preswylydd yn ymwybodol o'r cyfleoedd i gyfrannu at drafodaethau sy'n llunio eu hamgylchedd a'u gwasanaethau lleol. Cefnogir yr ymrwymiad hwn gan amrywiol fframweithiau deddfwriaethol sy'n anelu at hyrwyddo llesiant a chynhwysiant ledled Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu'n effeithiol, a chaiff hyn ei ategu gan ystod o ddeddfwriaeth gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,
- Deddf Cydraddoldeb 2010,
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015,
- Mesur y Gymraeg 2011,
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021,
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru) 2023..

Fel rhan o'r Strategaeth, byddwn yn dilyn arferion gorau a safonau cenedlaethol. Er enghraifft, Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc a'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo i fabwysiadu arferion gorau newydd, fel gyda llwyfannau ymgysylltu digidol a gweithio gyda'n partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fel rhan o'r Strategaeth, byddwn yn gwerthuso effeithiolrwydd ein strategaeth drwy'r pecyn cymorth Gwerthuso Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

**Hamdden – Arolwg NPS Leisure**

Roedd gan 2024/25 ei heriau amrywiol o ran profiadau cwsmeriaid mewn canolfannau hamdden, megis dirywiad parhaus teils pwll nofio Canolfan Hamdden Caerfyrddin, y to'n gollwng yng Nghanolfan Hamdden Dyffryn Aman, a phroblemau parcio a chyflwr cyffredinol Canolfan Hamdden Llanelli. Wrth gwrs, dim ond buddsoddiad hollol hanfodol a wnaed yn Llanelli gan fod y safle ar fin cau, ond mae disgwyl i'r gwaith ail-wynebu ym mhwll nofio Caerfyrddin, a'r gwaith ar y to yn Rhydaman, gael eu gwneud yn y flwyddyn ariannol newydd - buddsoddiad o ryw £400,000. O ystyried bod y safleoedd hyn yn cyfrif am dros 76% o'r ymatebion gafwyd, roedd y sgôr gyffredinol yn is na'n targed sef 44%. Fodd bynnag, mae hyn bwynt canran yn uwch na'r sgôr o 2023/24, yn cyfateb i'r sgôr meincnod fyd-eang, ac mae 4% yn uwch na sgôr meincnod y DU ar 40%.
Mae sgoriau uchel safleoedd gwledig hefyd yn gadarnhaol, gyda Llanymddyfri yn 87%, Castell Newydd Emlyn yn 80%, a Sanclêr yn 57%. I raddau helaeth iawn, mae staff a chyfleusterau ar frig y tabl ar gyfer adborth cadarnhaol yn y safleoedd hyn.
Gyda'r gwaith atgyweirio yn yr arfaeth a gyda Chanolfan Pentre Awel yn agor yn 2025/26, byddem yn disgwyl gweld cynnydd yn y canlyniadau y flwyddyn nesaf.

**Gweithgarwch Ymgynghori Blynyddol**

Yn unol â'n rhwymedigaeth statudol drwy'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau, ymgynghorodd y Cyngor â phreswylwyr, busnesau, staff ac undebau llafur ar y graddau yr ydym yn bodloni ein gofynion perfformiad:

| Arolwg | Diweddariad |
|---|---|
| **Arolwg Preswylwyr: 2024** | **Cawsom ychydig o dan 3,600 o ymatebion i'n Harolwg Preswylwyr yn ystod 2024,** ac mae hwn yn ostyngiad o 9% ar y gyfradd ymateb ar gyfer y flwyddyn flaenorol (3,943), er bod hyn dal yn dda. Cafodd y canfyddiadau eu dadansoddi a'u crynhoi mewn adroddiad. Mae'r prif ganfyddiadau ar ein gwefan ac wedi'u cynnwys ym mhroses cynllunio busnes 2025/26. Gofynnwyd i feysydd gwasanaeth ystyried y rhain wrth lunio camau gweithredu. |
| **Arolwg Staff (Rheoli Pobl)**: **2024** | Cawsom **dros 1,600 o ymatebion i'n harolwg staff** yn ystod 2024/25, ac mae hwn yn gynnydd ar y flwyddyn flaenorol ac yn cyfateb i tua 18% o'n gweithlu cyfan. Yn dilyn eu dadansoddi, trafodwyd y canfyddiadau ar lefel gorfforaethol ac ariannol, a chytunwyd ar gamau lleol i roi sylw i rai o'r meysydd roedd angen eu gwella. |
| **Arolwg Busnes: 2024** | Cawsom **110 o ymatebion i'n Harolwg Busnes yn ystod 2024**, sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol. Rydym wedi crynhoi'r dadansoddi a'r canfyddiadau mewn adroddiad sy'n cynnwys cymariaethau â blynyddoedd blaenorol. |
| **Arolwg Undebau Llafur: 2024** | **Dim ond 1 ymateb a gafwyd**, sy'n siomedig ac yn llai na'r ddwy flynedd flaenorol. Bydd y wybodaeth brin ddaeth i law yn cael ei chrynhoi a'i hadrodd. |

### Ymgynghori ynghylch y Gyllideb

Wrth baratoi cyllideb heriol iawn arall, estynnwyd gwahoddiad gennym i'r cyhoedd, a phartïon eraill â diddordeb, fynegi eu barn am ystod o faterion, gan gynnwys cynnydd yn y dreth gyngor, trafnidiaeth addysg, cyfleusterau cyhoeddus, a rhai gwasanaethau diwylliannol a hamdden. Cafodd y rhain eu hystyried ochr yn ochr â 90 o gynigion gweithredol manwl, megis costau adeiladu, defnydd effeithlon o gerbydau, effeithlonrwydd digidol, strwythurau staffio a swyddogaethau mewnol a chefn swyddfa.

Ymatebodd dros 2,900 o bobl i'r ymgynghoriad ar-lein, ac fe ddaeth 61 o bobl ifanc o naw o ysgolion uwchradd i ddigwyddiad wyneb yn wyneb 'Golwg Sir Gâr' yn Neuadd y Sir i drafod ag Aelodau'r Cabinet a mynegi eu blaenoriaethau. Rhoddodd y digwyddiad gyfle i ddisgyblion gamu i esgidiau Cabinet y Cyngor a thrafod eu barn am gynigion y gyllideb. Roedd hefyd yn gyfle i Aelodau'r Cabinet glywed barn disgyblion a thrafod gyda nhw'n uniongyrchol y materion sy'n bwysig iddynt.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, cafodd newidiadau eu gwneud i gynigion cyllideb y Cyngor. Er enghraifft, peidio â chynyddu taliadau parcio ceir yn uwch na chwyddiant, gan gydnabod sylwadau'r cyhoedd ynghylch cyfraniad pwysig y cyfleusterau hyn o ran cefnogi busnesau canol tref a thwristiaeth, yn ogystal â'r effaith ddyddiol ar fywydau trigolion.

### Partneriaeth Gymdeithasol

Mae gan y Cyngor fframweithiau gwybodaeth, ymgynghori a negodi sydd wedi hen ennill eu plwyf ar waith gyda'i Undebau Llafur cydnabyddedig. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn rhoi cyfle i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach, gyda'r potensial i gael buddiannau cydfuddiannol trwy gydweithredu a chydweithio. Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi cynnal ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur trwy gadw fframweithiau sefydledig ar gyfer cyfathrebu ac ymgynghori rheolaidd, ond rydym hefyd wedi ymdrechu i ymgysylltu ag ystod o faterion strategol sy'n effeithio ar y gweithlu. Mae manylion llawn am y gweithgareddau hyn i'w gweld yn Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Gymdeithasol yn Atodiad 6.

## Canlyniad: Datblygu agwedd fwy masnachol at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor gyda'r bwriad o gynyddu lefel yr incwm a gynhyrchir.

### Ystadau a Rheoli Asedau

Rydym yn edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio ein hystâd yn y modd gorau posib, sy'n cynnwys rhesymoli asedau sy'n cael eu tanddefnyddio neu sy'n perfformio'n wael, ac ailfuddsoddi mewn safleoedd craidd. Er mwyn cefnogi egwyddor Canol y Dref yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i flaenoriaethu lleoliad ac adleoli cyfleusterau gwasanaeth cyhoeddus a swyddfeydd yng nghanol trefi. Mae'r ymagwedd strategol hon yn cydnabod rôl allweddol canol trefi mewn llesiant amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ein cymunedau. Trwy ymgorffori swyddogaethau dinesig a masnachol yn ganolog, rydym yn anelu at wrthdroi'r duedd o ddatganoli sydd wedi cyfrannu yn hanesyddol at leihau nifer yr ymwelwyr a lleihau gwariant lleol. Mae ein cynigion adfywio yn ystyried defnyddio canol trefi ar gyfer datblygiadau newydd, gan gynnwys hamdden, tai, a chanolfannau gweithio ar y cyd, er mwyn creu cyrchfannau bywiog, amlswyddogaethol. Mae hyn nid yn unig yn cefnogi hyfywedd y sectorau manwerthu a lletygarwch ond hefyd yn annog teithio cynaliadwy, yn lleihau allyriadau carbon, ac yn meithrin cymdogaethau cynhwysol, cerddadwy. Trwy fuddsoddiad wedi'i dargedu a phartneriaethau cydweithredol, rydym yn gweithio i adfywio canol ein trefi fel lleoedd ffyniannus i fyw, gweithio ac ymgysylltu ynddynt.
Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau adolygiadau rhent o'n portffolio diwydiannol a gynhyrchodd refeniw ychwanegol o £193,728 y flwyddyn, gan gynyddu ein hincwm ar y portffolio o £1,974,001 i £2,167,729.

## Canlyniad: Parhau i wneud gwell defnydd o dechnoleg ddigidol i drawsnewid ein gwasanaethau ymhellach yn brosesau gwasanaeth mwy clyfar ac effeithlon a chynnig gwell profiad i gwsmeriaid.

Ym mis Gorffennaf 2024, cymeradwyodd y Cyngor ei Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer 2024–2027, gan bennu gweledigaeth feiddgar ar gyfer Sir Gaerfyrddin sydd wedi'i galluogi'n ddigidol. Mae'r Strategaeth hon wedi bod yn sail i'n hymdrechion i wella galluoedd digidol, gwella gwasanaeth cwsmeriaid ac ymgysylltu, a thrawsnewid y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac agendâu digidol ac yn gosod pobl wrth wraidd dylunio gwasanaethau cyhoeddus -"dyluniwyd ar gyfer pobl, galluogwyd gan dechnoleg."

**Sylfeini a Gweledigaeth Strategol**

Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y pedair blynedd diwethaf, yn enwedig mewn ymateb i bandemig COVID-19. Mae'n amlinellu pum maes blaenoriaeth allweddol:

- Gwasanaethau Digidol
- Pobl a Sgiliau
- Data a Gwneud Penderfyniadau
- Technoleg ac Arloesi
- Cymunedau Digidol a'r Economi

Mae pob maes yn cael ei gefnogi gan fuddsoddiadau wedi'u targedu, partneriaethau strategol, ac ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd diwylliannol y Gymraeg yn ein dyfodol digidol.

**Cyflawniadau a Chynnydd Allweddol yn 2024/25**

**Technolegau Cwmwl a Systemau Mudo**

Fe wnaethom ganolbwyntio ar fudo systemau busnes hanfodol i lwyfannau modern, a reolir gan y cwmwl, er mwyn gwella darparu gwasanaethau, effeithlonrwydd, gwytnwch a pharhad busnes. Roedd y prosiectau allweddol yn cynnwys:

- System Rheoli Ariannol Agresso
- System Refeniw a Budd-daliadau iWorld
- System Gofal Cymdeithasol Gofal yn Gyntaf OLM
- System Gwasanaethau Tai Civica CX

Mae'r mudo hwn yn hanfodol i wella'r gwasanaethau a ddarperir i breswylwyr wyneb yn wyneb, effeithlonrwydd gweithredol, dadgomisiynu ein hamgylchedd ar y safle, a symleiddio ein hôl troed canolfan ddata.

**Cyfnewid Systemau a Gwelliannau i'r Gwasanaeth**

Fe wnaethom gyfnewid hen systemau am atebion cwmwl modern, gan alluogi darparu gwasanaethau 24/7 i breswylwyr:

- System a Phorth Pridiannau Tir Arcus
- System Rheoli Gwastraff ALLOY
- System Atgyweirio Tai Total Connect
- System Rheoli Dysgu Thinqi
- System a Phorth Recriwtio Oleeo

Mae'r systemau hyn wedi gwella profiad cwsmeriaid, effeithlonrwydd gweithredol, ac integreiddio ar draws adrannau.

**Arloesi, Deallusrwydd Artiffisial ac Awtomeiddio**

Fe wnaethom groesawu technolegau datblygol i foderneiddio gwasanaethau:

- Microsoft 365 Copilot (cynorthwyydd personol AI) - wedi'i dreialu gyda 240 o staff; bwriedir ei gyflwyno'n ehangach.
- Magic Notes AI – Wedi'i dreialu ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol, gan arbed hyd at saith awr yr wythnos y person o ran cymryd nodiadau.
- Gweithrediadau Awtomeiddio Prosesau Robotig – Tasgau AD awtomataidd, Prydau Ysgol am ddim, a Grantiau Mynediad Grant Datblygu Disgyblion – dros 3,000 o geisiadau wedi'u prosesu gyda phenderfyniadau ar yr un diwrnod.

Fe wnaethom hefyd ddechrau llunio Strategaeth AI a Data gynhwysfawr a blaengar sy'n cyd-fynd â'n huchelgeisiau digidol a chorfforaethol. Bydd hyn yn darparu fframwaith strwythuredig, moesegol a blaengar er mwyn defnyddio technolegau newydd mewn ffyrdd sydd o fudd uniongyrchol i breswylwyr, staff, a'r gymuned ehangach.

**Seiberddiogelwch: Blaenoriaeth Strategol**

Roedd seiberwydnwch yn brif ffocws eleni. Fe wnaethom gryfhau ein hamddiffynfeydd ac ymgorffori ymhellach ddiwylliant o fod yn wyliadwrus:

- Fe wnaethom gael ein sefydliad i ymuno â'n Canolfan Gweithrediadau Diogelwch Cymru gyfan, gan ddarparu gwybodaeth am fygythiadau seiber ac ymateb i ddigwyddiadau 24/7. Gan gydweithio â Llywodraeth Cymru, mae'n cefnogi 21 o gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn cyd-fynd â strategaeth "Defend as One" Llywodraeth y DU a Chynllun Gweithredu Seiber Llywodraeth Cymru.
- Efelychiadau Gwe-rwydo - Wedi'u cynnal ar draws ein gweithlu; hyfforddiant ar sail canlyniadau a chynyddu ymwybyddiaeth.
- Cynllun Gweithredu Seiber - Yn cynnwys adolygiadau caniatâd, diweddariadau polisi, a llyfrau chwarae seiber.
- Ymarferion Ymateb i Ddigwyddiadau – Wedi cymryd rhan mewn efelychiadau cenedlaethol (Tŷ Coch, Celyn Coch).
- Adolygiad Seiber Archwilio Cymru – Wedi'i gwblhau; argymhellion yn yr arfaeth.
- Hyfforddiant Seiber ThinQi - Wedi'i lansio a'i wneud yn orfodol ar gyfer yr holl staff swyddfa.

Mae'r ymdrechion hyn wedi gwella'n sylweddol ein parodrwydd a'n gwytnwch yn erbyn bygythiadau newydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni barhau i fuddsoddi yn y maes hwn i wrthsefyll y bygythiad seiber cynyddol.

**Pobl a Sgiliau Digidol**

Fe wnaethom fuddsoddi mewn datblygu'r gweithlu i adeiladu sefydliad sy'n hyderus yn ddigidol:

- Archwiliad Sgiliau Digidol - 1,092 o ymatebion; hyfforddiant gwybodus wedi'i dargedu.
- ThinQi LMS - Wedi'i lansio gyda modiwlau mewn Seiberddiogelwch, Diogelu Data, ac AI.
- Mentoriaid Digidol – Rhwydwaith wedi'i sefydlu i gefnogi staff.
- Cynllunio'r Gweithlu – Datblygu cynlluniau olyniaeth.

Hefyd cynhaliwyd seminarau gennym, fe wnaethom ymgysylltu â cholegau, a recriwtio prentisiaid a graddedigion i ddiogelu ein gweithlu yn y dyfodol.

**Data a Gwneud Penderfyniadau**

Fe wnaethom wreiddio diwylliant lle mae pwyslais mawr ar ddata i gefnogi penderfyniadau ar sail tystiolaeth:

- Mabwysiadu Power BI – dros 80 o ddefnyddwyr hyfforddedig yn darparu mewnwelediadau gweithredadwy.
- Prosiect Diogelu LINC – Menter rhannu data arloesol gyda'r heddlu a'r gwasanaethau iechyd.
- Asesiadau Aeddfedrwydd Digidol – Wedi'u cynnal ar draws adrannau i lywio trawsnewid.
- Rheoli SharePoint - 38TB o ddata wedi'i reoli, polisïau cadw a mentrau cadwraeth ddigidol ar waith.

**Technoleg a Seilwaith**

Fe wnaethom barhau i foderneiddio ein seilwaith trwy fudo cwmwl, Rhaglen Cyfnewid Dyfeisiau, Adolygiad Technoleg Llais, a chefnogi anghenion digidol symud a chau swyddfeydd.

**Cymunedau Digidol a'r Economi**

Fe wnaethom gefnogi cysylltedd a chynhwysiant ledled y sir:

- Uwchraddio Ffeibr Parc Gwledig Pen-bre – buddsoddiad o £201,000 drwy'r Fargen Ddinesig.
- Rhwydwaith Rhyngrwyd Pethau Trefi Clyfar – dros 60 o byrth wedi'u defnyddio, cynlluniau peilot mewn monitro diogelwch a gwastraff.
- Prosiect Ffeibr Tywyll – buddsoddiad o £3.5 miliwn i gysylltu 33 o safleoedd sector cyhoeddus erbyn 2026.
- Buddsoddiad Seilwaith Rhanbarthol – £26.7M dros y tair blynedd diwethaf mewn prosiectau cysylltedd.

Fe wnaethom hefyd gefnogi datblygiadau strategol fel Pentre Awel, HWB Caerfyrddin, a Chanol Tref Llanelli, gan sicrhau parodrwydd digidol.

**Cwynion**

Mae nifer y cwynion ddaeth i law yn ystod 2024/25 wedi gostwng rhyw fymryn i ychydig dan 1,700 o gymharu â bron 2,000 y flwyddyn flaenorol. Ymdriniwyd ag ychydig dros 61% o'r cwynion hyn ar amser. Gan fod natur y cwynion yn mynd yn fwy cymhleth a gan fod y cyfathrebu gan achwynwyr yn fwy manwl, mae cwrdd â'r amserlenni ymateb statudol yn fwyfwy heriol.

## Canlyniad: Croesawu a hyrwyddo arferion gweithio ystwyth, cyfarfodydd hybrid a ffyrdd newydd o weithio ar draws y sefydliad, drwy fod yn fwy cynaliadwy a chreadigol i wella gwasanaethau'r Cyngor.

**Trawsnewid**

Rydym wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i ffyrdd newydd o weithio gyda chefnogaeth rhesymoli ein hasedau, sy'n caniatáu i staff weithio'n glyfrach, gan sicrhau parhad a chynhyrchiant. Amlygwyd yr ymagwedd hon drwy ryddhau safle Parc Dewi Sant i'w werthu a symud staff i adeiladau eraill y Cyngor. Mae'r defnydd o feddalwedd rheoli gweithfannau wedi galluogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch rhesymoli portffolio eiddo, gan sicrhau y defnydd gorau posibl o adnoddau.

Mae ein symudiad tuag at awtomeiddio prosesau, fel technoleg post hybrid a roboteg, wedi gwella effeithlonrwydd gweithredol yn sylweddol. Er enghraifft, mae gweithredu post hybrid wedi arwain at dros £61,884 o arbedion cost yn ystod y flwyddyn, tra bod awtomeiddio prosesau robotig (RPA) wrth adennill dyledion wedi rhyddhau staff i ganolbwyntio ar dasgau gwerth uchel, gan arwain at gasglu £2,523,468 mewn dyled ychwanegol.

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar hyfforddi a rhoi i reolwyr y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau mewn modd masnachol a modern. Mae'r sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd ar gyfer dros 50 o reolwyr ym mis Mawrth 2025 yn rhan o'r cynllun hwn, gan feithrin meddylfryd busnes ar draws y sefydliad.

**Digidol**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cymryd camau pendant a mesuradwy i gofleidio a hyrwyddo gweithio ystwyth, cyfarfodydd hybrid a ffyrdd newydd o weithio ar draws y sefydliad. Mae'r ymdrechion hyn wedi'u hategu gan ymrwymiad clir i gynaliadwyedd, creadigrwydd a gwella gwasanaethau, fel y nodir yn ein Strategaethau Digidol, Gweithlu a Thrawsnewid.

Rydym wedi gweithredu ystod o offer a seilwaith digidol i gefnogi hyn. Er enghraifft, cyflwynodd y Cyngor feddalwedd rheoli gweithfannau i alluogi archebu desgiau hyblyg a phenderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth ar resymoli eiddo. Roedd hyn yn cefnogi rhyddhau safle Parc Dewi Sant a symud staff i adeiladau eraill y Cyngor, gan ddangos bod egwyddorion gwaith hybrid yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Cyfarfodydd hybrid yw'r norm bellach, wedi'u cefnogi gan Microsoft Teams a strwythurau SharePoint gwell.

Un o'r cynlluniau mwyaf trawsnewidiol oedd cynllun peilot Microsoft CoPilot, cynorthwyydd AI a gyflwynwyd i 240 o ddefnyddwyr. Dangosodd Achos Busnes Copilot sut oedd CoPilot yn helpu staff i wneud tasgau arferol, gan ryddhau amser ar gyfer cyfrifoldebau mwy cymhleth. Rydym wedi nodi nifer o achosion byd go iawn lle mae cynnydd wedi bod mewn cynhyrchiant heb golli swyddi. Arweiniodd llwyddiant y peilot at gynnig bod yr offeryn hwn yn cael ei ymestyn i bob rhan o'r sefydliad.

Un o alluogwyr allweddol y trawsnewidiad hwn yw ein hymrwymiad i gynnal ystâd ddyfeisiau defnyddwyr gadarn a modern. Ac eithrio ysgolion, rydym yn cefnogi ac yn rheoli'n llawn oddeutu 3,500 o liniaduron, 450 o lechi, 2,500 o ffonau clyfar, a 300 o fyrddau gwaith ar gyfer ein hadrannau a'n gwasanaethau corfforaethol – pob un ohonynt wedi'u ffurfweddu i alluogi gweithio symudol, ystwyth a hyblyg. Mae'r ystâd hon yn sicrhau bod staff yn gallu cael mynediad diogel at systemau a chydweithio'n effeithiol o unrhyw leoliad, boed yn y swyddfa, gartref, neu yn y gymuned. Mae rhagoriaeth gliniaduron a ffonau clyfar yn adlewyrchu ein newid strategol tuag at symudedd a darparu gwasanaethau digidol-gyntaf, tra bo byrddau gwaith yn parhau i gael eu defnyddio lle mae gweithfannau sefydlog yn dal i fod yn briodol.

## Canlyniad: Sicrhau newid sefydliadol sy'n cefnogi targedau allweddol Carbon Sero Net

**Dylunio Eiddo**

- Mae datblygiadau Tai newydd wedi'u cynllunio i leihau'r carbon a ddefnyddir wrth weithredu ac wrth adeiladu. Mae'r holl eiddo wedi'u dylunio i gwrdd â gradd SAP [9] o 92+ man lleiaf. Dyluniwyd ac adeiladwyd Wauniago yn unol ag egwyddorion Passivhaus, a chafodd ei drosglwyddo ym mis Tachwedd 2024.
- Cwblhawyd Ysgol Pen-bre ym mis Hydref 2024. Mae'r ysgol yn ysgol Passivhaus, sy'n golygu ei bod yn hynod effeithlon o ran ynni oherwydd lefelau uchel o inswleiddio ac aerdyndra.
- Wedi helpu i ddarparu'r prosiect datgarboneiddio i gyfnewid boeleri tanwydd ffosil am bympiau gwres o'r aer a thrydan solar ffotofoltäig mewn chwe ysgol gynradd bresennol.
- Parhau i fonitro a dadansoddi perfformiad ynni mewn ysgolion cynradd i werthuso effeithiolrwydd mabwysiadu egwyddorion 'ffabrig yn gyntaf' a mesurau datgarboneiddio i lywio dyluniadau a manylebau prosiectau'r dyfodol.

## Canlyniad: Sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cynnydd o 8.9% yn y Dreth Gyngor a gostyngiadau mewn gwariant o fwy nag £8m yn ystod cyfarfod i osod ei Strategaeth Gyllideb.

Cafodd cynnig gwreiddiol gan y Cabinet o 9.75% ei ostwng i 8.9% yn dilyn mân addasiadau yng nghyllid y Cyngor oherwydd cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru, ardoll ychydig yn is i'r Frigâd Dân, a dyraniad o £500,000m o'r gyllideb wrth gefn.

**Dywedodd y Cynghorydd Alun Lenny, yr Aelod Cabinet dros Adnoddau:**
*'Y gyllideb hon yw'r un fwyaf heriol ers blynyddoedd lawer. Mae'r Cyngor hwn dros £150m ar ei golled mewn termau real nag yr oeddem ddegawd yn ôl. Mae hynny'n golygu bod £150m yn llai i'w wario ar wasanaethau hanfodol fel gofal cymdeithasol, addysg, priffyrdd ac yn y blaen.'*



Dim ond 16% o incwm y Cyngor sy'n dod o'r Dreth Gyngor. Daw'r rhan fwyaf o'n cyllid o Lywodraeth Cymru, sydd yn ei dro yn dibynnu ar grant bloc gan Lywodraeth y DU. Fel pob Cyngor arall, rydym yn wynebu cyfnod heriol iawn wrth i'r pwysau enfawr ar wariant cyhoeddus a gwasanaethau barhau.

O ganlyniad i gyllideb derfynol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025, a mynd â hanner miliwn o'r gyllideb wrth gefn, cynigiodd y Cabinet godiad o 8.9% yn y Dreth Gyngor. Mae hyn yn llawer mwy nag y byddem wedi'i hoffi yn y dyddiau anodd hyn, ond fel Awdurdod Lleol, mae'n rhaid i ni osod cyllideb gyfreithiol sy'n cadw cydbwysedd rhwng codi'r Dreth Gyngor a diogelu'r gwasanaethau hanfodol y mae ein trigolion yn dibynnu arnynt.

[9] Proffil Asesu Safonol – gradd yn cyfrifo effeithlonrwydd ynni cartref.

Wedi'i osod yn erbyn cyllid annigonol a'r gost ychwanegol o ran Yswiriant Gwladol, yw'r galw cynyddol am wasanaethau. Er gwaethaf y pwysau presennol, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhoi £11m yn ychwanegol i ofal cymdeithasol oedolion a phlant, lle mae'r pwysau'n aruthrol. Rydym yn benderfynol o ddarparu ar gyfer lles cenedlaethau'r dyfodol yn Sir Gaerfyrddin trwy hefyd ddiogelu cyllid ar gyfer ysgolion.

Ar nodyn cadarnhaol, mae gostyngiad mewn costau tanwydd, yn dilyn cynnydd enfawr ddwy flynedd yn ôl oherwydd y rhyfel yn yr Wcrain, wedi arbed £2.1m ychwanegol i'r Cyngor ar ben y £1m a ragwelwyd. Mae hyn wedi ein galluogi i ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus drwy waredu'r ddau gynnig mwyaf amhoblogaidd, sef cau toiledau cyhoeddus os na throsglwyddir yr asedau, a chynnydd o 10% mewn taliadau parcio.

**Gwasanaethau Ariannol**

- Casglwyd 96.41% o'r Dreth Gyngor yn ystod 2024/25, sydd ychydig yn llai na'r flwyddyn gynt (97.01%). Fodd bynnag, gyda ni mae'r ganran bumed uchaf yng Nghymru ac mae'n uwch na chyfradd Cymru gyfan o 95.97%. Rydym yn cymryd ymagwedd ragweithiol tuag at adennill ac wedi darparu cefnogaeth a chyngor perthnasol i'r rheiny sy'n mynd i ôl-ddyledion er mwyn sicrhau'r ffordd orau bosibl ymlaen o ran trefniadau ad-dalu.
- Casglwyd 97.95% o'r ardrethi annomestig oedd yn ddyledus ar gyfer 2024/25 gan y Cyngor, sef y gyfradd chweched uchaf yng Nghymru. Mae'n llai na chyfradd gasglu ragorol y flwyddyn flaenorol o 99.24%, sef y gyfradd gasglu uchaf yng Nghymru.
- Talwyd 95.6% o'r anfonebau o fewn 30 diwrnod yn ystod 2024/25, sef gwelliant ar y flwyddyn flaenorol (94.9%). Mae hyn er gwaethaf cynnydd o 7% yn nifer yr anfonebau ddaeth i law, o 311,466 i 333,272.
- Mae mwy o fynediad at wasanaethau ar-lein wedi creu newid tuag at daliadau ar-lein gyda llawer o gwsmeriaid yn cysylltu â ni, yn cyflwyno ffurflenni a dogfennau, ac yn talu am ein gwasanaethau'n electronig. Mae wedi codi o 63,427 o drafodion yn 2023/24 i 144,570 o drafodion yn ystod 2024/25 gyda gwerth o £17,098,947. Mae taliadau'r Dreth Gyngor, taliadau rhent tai, talu anfonebau ac incwm amrywiol ymhlith y gwasanaethau a ddefnyddir fwyaf.

## Canlyniad: Ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wna'r Cyngor.

Mae egwyddorion a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ategu popeth a wnawn fel sefydliad, ac mae hyn yn sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd datblygu a gweithredu strategaethau. Mae'r egwyddor yn sail i'n hymagwedd at hunanasesu blynyddol, ac mae gofynion y Ddeddf yn atgyfnerthu'r ymagwedd at ddatblygiad a gweithrediad dilynol y Rhaglen Drawsnewid.

**Trawsnewid**

Rydym wedi ceisio moderneiddio fflyd cerbydau'r Cyngor, sydd wedi arwain at arbedion cost sylweddol, ac wedi dangos ymrwymiad i wneud y mwyaf o bob adnodd. Yn yr un modd, mae'r defnydd o offer rheoli gweithfannau wedi darparu data hollbwysig sy'n cefnogi penderfyniadau gwybodus ynghylch rhesymoli portffolio eiddo, gan sicrhau y defnydd mwyaf effeithiol posibl o adnoddau.

Enghraifft allweddol o ddatblygu cynaliadwy ar waith yw ein rhaglen ddatgarboneiddio, sydd wedi cyflawni gostyngiad o 37% mewn allyriadau carbon o gymharu â'r flwyddyn sylfaen. Mae'r garreg filltir hon yn adlewyrchu perfformiad cadarn yn unol â thargedau hinsawdd ehangach ac yn tanlinellu ymroddiad y Cyngor i weithredu ar newid hinsawdd. Yn ogystal, mae mentrau fel datblygu modiwlau hyfforddi e-ddysgu ar weithredu ar newid hinsawdd ar gyfer staff a phartneriaethau gyda sefydliadau lleol yn tynnu sylw at ein hymagwedd ragweithiol at addysg ac ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i feithrin diwylliant o welliant parhaus. Mae cyflwyno system gymorth dogfennaeth ariannol wedi galluogi ysgolion i nodi a gweithredu mesurau arbed costau, a thrwy hynny gyfrannu at gyllidebau ysgol mwy cynaliadwy. Trwy'r fenter hon, mae ysgolion gyda'i gilydd wedi gwneud arbedion sylweddol, gan ddangos newid tuag at reolaeth ariannol fwy darbodus.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

**Llwyddiannau Prosiect Peilot Tîm Adnoddau'r Gweithlu**

Mae prosiect peilot Tîm Adnoddau'r Gweithlu yn y gwasanaeth gofal preswyl wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae bellach yn bwriadu ehangu.

**Nodau'r Prosiect**

- Lleihau'r ddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth.
- Lleihau'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithwyr asiantaeth.
- Cynyddu cyfleoedd i staff presennol weithio oriau ychwanegol y tu allan i'w lle gwaith presennol.

**Canlyniadau'r Prosiect**

- Mae preswylwyr cartrefi gofal yn dweud eu bod yn fwy bodlon ar eu gofal oherwydd bod staff Cyngor Sir Caerfyrddin yn eu cefnogi sy'n rhoi mwy o hyder a chysondeb iddyn nhw.
- Mae rheolwyr cartrefi gofal yn dweud bod ansawdd y gwaith wedi gwella.
- Mae staff yn dweud bod gwell cydlyniant tîm a bod ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi.
- Cafodd dros 2,000 o oriau eu darparu'n fewnol ym mis Rhagfyr 2024, sef cynnydd o 312% o gymharu â'r oriau a gafodd eu darparu ym mis Mai 2024.
- Ym mis Rhagfyr 2024 cafodd dros £6,000 o gostau eu hosgoi ar draws y pedwar cartref gofal drwy ddefnyddio staff Tîm Adnoddau'r Gweithlu yn hytrach na staff asiantaeth.

Adborth gan Reolwyr Cartrefi Gofal: Mae Tîm Adnoddau'r Gweithlu wedi bod yn ased amhrisiadwy i'n gwasanaeth. Rydyn ni wedi llwyddo i symud i ffwrdd o ddefnyddio staff asiantaeth ac rydyn ni bellach yn elwa ar dîm cyson o staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda sy'n gyfarwydd â'r unigolion rydyn ni'n eu cefnogi.

Adborth gan Alison, Aelod o'r Tîm: Ers ymuno â Thîm Adnoddau'r Gweithlu fis Mai diwethaf rwy'n teimlo fy mod i'n fwy hyderus i ddarparu gofal o'r ansawdd gorau. Mae rheolwyr y tîm yn fy helpu ac yn fy nghefnogi gydag unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gen i. Ers i fi weithio gyda'r tîm rwyf wedi dangos fy mhrofiad o weithio mewn gofal o'r blaen ac rwyf hefyd wedi dysgu gwybodaeth a sgiliau newydd i ddarparu'r gofal gorau posibl i'r holl breswylwyr rwy'n eu helpu.

**Llwyddiant Gradd-brentisiaethau TG**

Llongyfarchiadau i dri aelod o staff TGCh, sef y garfan gyntaf i ymgymryd â'u Gradd-brentisiaethau ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Dros y pedair blynedd diwethaf, gwnaeth John Williams, Julian Milligan ac Emma Williams radd-brentisiaeth, a bu i hyn eu galluogi i ennill gradd is-raddedig wedi'i hariannu'n llawn wrth weithio.

Cafodd John Williams (Rheolwr Gweithrediadau a Llywodraethu TGCh) BSc gydag Anrhydedd mewn Cyfrifiadureg (Rhwydweithiau Cyfrifiadurol a Seiberddiogelwch). Mae John wedi gwneud prentisiaeth ochr yn ochr â chyflawni ei gyfrifoldebau yn ei rôl uwch yn yr Adran TG. Dros y blynyddoedd, mae ei rôl wedi datblygu oherwydd y galw cynyddol ar y gwasanaethau. Mae'r rhaglen radd wedi ei alluogi i ddiweddaru ei gymhwyster presennol, mireinio ei sgiliau o ran rheoli prosiectau, llywodraethu gwybodaeth ac ysgrifennu adroddiadau, ynghyd â darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am agweddau technegol ei rôl. Ychwanegodd: *"Rwy'n falch iawn o'r hyn rydw i ac Emma a Julian wedi'i gyflawni. Heb os, mae cael cydbwysedd rhwng gwaith amser llawn ac astudiaethau academaidd yn dasg aruthrol, yn enwedig gyda'r heriau ychwanegol a ddaeth yn sgil y cyfyngiadau symud yn 2020. Bydd y sgiliau a'r wybodaeth a gafwyd drwy ein rhaglen radd yn amhrisiadwy yn ein rolau wrth ddarparu gwasanaethau digidol i'r Cyngor yn y dyfodol."*

Yn ogystal, cafodd y swyddog technegol, Emma Williams, radd BSc gydag Anrhydedd mewn Cyfrifiadureg (Rhwydweithiau Cyfrifiadurol a Seiberddiogelwch). Dechreuodd Emma ei gyrfa yn gweithio fel cynorthwyydd gweinyddol cyn dringo gam wrth gam yn yr adran TG o fod yn Swyddog Monitro TG i swydd yn y tîm Cyflawni Gwasanaethau fel Peiriannydd Cymorth Digidol. Yn 2020 llwyddodd i symud i rôl Swyddog Technegol TGCh yn y Tîm Cyflawni Technegol, ac mae'n diolch i'w hastudiaethau am roi'r hwb i'w hyder, ynghyd â'r wybodaeth a'r sgiliau roedd eu hangen arni i ymgeisio am y rôl. Ers mis Medi 2022 mae hi wedi gweithio yn y tîm Seiberddiogelwch, mewn rôl sy'n ei hysbrydoli ac yn ei galluogi i barhau i dyfu a datblygu. Oherwydd llwyddiant Emma, mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn gofyn yn aml iddi fynd i gyfarfodydd dros frecwast gyda chyflogwyr ac i sgyrsiau gyda myfyrwyr i roi cipolwg o'i gwaith mewn maes STEM a gweithio yn y sector TG. Nid yw'n teimlo y byddai wedi bod ganddi'r hyder i wneud hyn cyn astudio'r cwrs. [10] Ychwanegodd Emma: *"Mae'r Cyngor yn gyflogwr sy'n annog ac yn cefnogi yn helaeth. Gallwn gymryd yr amser i astudio ac i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol, gan gynnig yr hyn rydym yn ei ddysgu a'n profiadau i'r gweithle a'r gwasanaeth."*

Enillodd Julian Milligan, Uwch-ddatblygwr Cymwysiadau, BSc gydag anrhydedd mewn Cyfrifiadureg (Peirianneg Meddalwedd). Dywedodd Julian ei fod o'r farn, o ddiwrnod cyntaf y darlithoedd, fod gwybod sut i ddrafftio adroddiadau a phapurau ymchwil wedi ei helpu gyda phrosiectau cyfredol y mae'n gweithio arnynt. Mae'n gallu addasu ei sgiliau ac mae hyn wedi caniatáu iddo ddatblygu yn ei rôl newydd. Mae'n credu iddo gael y rôl oherwydd y wybodaeth a'r sgiliau newydd sydd ganddo yn sgil dilyn y cwrs hwn. Ychwanegodd: *"Ar ddechrau fy ngyrfa, roedd popeth a ddysgais yn hunan-ddysgedig. Felly, mae gwneud y radd wedi dangos arfer gorau i mi, a'r ffordd orau o raglennu ac adeiladu cronfeydd data SQL. Rwyf bellach yn defnyddio'r dulliau hyn mewn unrhyw brosiectau newydd ac rwy'n teimlo bod ansawdd fy ngwaith wedi datblygu a gwella."*

Yn dilyn llwyddiant rhyfeddol John, Emma, a Julian mae gennym bellach y garfan nesaf o fewn yr adran TG yn ymgymryd â'r BSc gydag Anrhydedd - Prentisiaeth Gradd Cyfrifiadureg.

[10] STEM - Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg s

# Galluogwyr Busnes Craidd

Yn ogystal â'r blaenoriaethau thematig a'r blaenoriaethau gwasanaeth a nodwyd, ceir amrywiaeth o alluogwyr busnes craidd sy'n sail i swyddogaethau dyddiol y Cyngor a'n gwasanaethau. Nodir sawl un yn yr adran hon; fodd bynnag mae TGCh, Marchnata a'r Cyfryngau, Cyllid, Rheoli Pobl, Polisi a Pherfformiad, Ystadau a Rheoli Asedau a Chymorth Busnes wedi'u plethu o fewn y cynnwys yn Amcanion Llesiant 1-4 uchod.

## Cyfreithiol

- Rydym wedi sicrhau cyfreithlondeb a chywirdeb wrth wneud penderfyniadau'r Cyngor.
- Rydym yn gweithio o fewn fframwaith statudol sy'n llywodraethu pethau megis sut y cynhelir cyfarfodydd, sut y gwneir penderfyniadau a'r ddeddfwriaeth y tu ôl i bob penderfyniad sydd angen ei wneud.
- Agorwyd 1,936 o ffeiliau yn 2024/25.
- Rydym yn ceisio gwneud cymaint ag y gallwn o'r gwaith cyfreithiol sydd ei angen gan y Cyngor yn fewnol, er y bydd yna adegau pryd y bydd angen i ni anfon gwaith at gyfreithwyr allanol.
- Mae'r ystod o waith cyfreithiol a wneir nid yn unig yn cynnwys achosion llys a thribiwnlysoedd, ond hefyd cynghori pwyllgorau'r Cyngor, drafftio dogfennaeth gyfreithiol a rhoi cyngor cyfreithiol.
- Mae'r Tîm Trawsnewid wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth. Sefydlwyd grŵp Rheoli Prosiectau er mwyn goruchwylio a llywodraethu'n effeithiol gynllun gwella y Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am flaenoriaethu mentrau, monitro eu gweithrediad, nodi rhwystrau, a mesur llwyddiant ar ôl gweithredu.
- Mae sawl mesur i wneud arbedion effeithlonrwydd wedi'u clustnodi eisoes, gan gynnwys: :
    - Creu ardal gyfathrebu bwrpasol ar y fewnrwyd i ddarparu gwybodaeth hanfodol am y gwasanaethau cyfreithiol
    - Cyflwyno e-ffurflen newydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ei llenwi wrth geisio cyngor cyfreithiol allanol
    - Defnyddio 'Magic Notes' i gynorthwyo i gwblhau datganiadau
- Bydd gwaith y grŵp yn parhau i sicrhau bod y mentrau hyn wedi'u cynllunio i symleiddio prosesau, gwella hygyrchedd, a chefnogi gwella gwasanaethau'n barhaus i dîm y Gwasanaethau Cyfreithiol.

## Cynllunio

- Cafodd 91.6% (1,224 / 1,336) o'r ceisiadau cynllunio eu penderfynu ar amser yn ystod 2024/25. Mae hwn yn welliant da iawn ar 87.5% y llynedd ac ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 90.5%.
- O'r 32 o apeliadau cynllunio a gafwyd yn ystod 2024/25, cafodd 25 eu diystyru (78.1%). Mae hwn yn welliant ar ffigur y flwyddyn flaenorol (70.4%), ac yn uwch na Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Da' sef 66%.
- Cwblhawyd 19 o'r 22 o geisiadau cynllunio mawr a bennwyd yn y flwyddyn o fewn yr amser gofynnol, i roi canlyniad o 86.4%. Mae hwn yn welliant da ar y llynedd (69.7%).
- Mae nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cynllunio cadarnhaol yn ystod 2024/25 yn dal i fod yn uchel sef 360 o ddiwrnodau (306 diwrnod y flwyddyn flaenorol). Mae nifer sylweddol o achosion yn destun erlyniad. Mae'r ffigurau'n cynrychioli'r amser mae'n cymryd i erlyn achos, sydd ag oedi sylweddol, ac nid oes gennym unrhyw reolaeth. Mae adolygiad o'r modd y darperir y swyddogaeth orfodi yn barhaus.
- Ymchwiliwyd i 81.6% o'r achosion gorfodi cynllunio o fewn 84 diwrnod. Mae hyn ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol ar 84.3, ond mae'n dal i fod yn uchel o gymharu â blynyddoedd cynt.
- Derbyniwyd Sgôr Sicrwydd o 'Rhesymol' yn ystod arolygiadau Archwilio Mewnol i sicrhau bod systemau a gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer ceisiadau cynllunio - Estyniad Amser a gweinyddu 'Adran 106 - Tai Fforddiadwy'.

## Caffael

- Gwnaethom wario mwy na £443 miliwn y flwyddyn ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau yn 2024/25. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd ar gyfer y gymuned. Mae'n hanfodol bod gennym ymagwedd strategol at gaffael er mwyn sicrhau bod nwyddau, gwaith, a gwasanaethau yn cael eu caffael mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.
- Roedd 42% o'n gwariant gyda chyflenwyr yn Sir Gaerfyrddin, sy'n uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan sef 30%.
- Arweiniodd yr Uned Caffael Gorfforaethol y gwaith o gyflwyno 47 o dendrau gyda gwerth bras o £1.2bn.
- Daeth Deddf Caffael newydd 2023 a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 i rym ym mis Chwefror 2025 (gohiriwyd o'r dyddiad gwreiddiol o Hydref 2024). Mae hyn yn newid mawr i gyfraith caffael cyhoeddus yng Nghymru a gweddill y DU, gan gymryd lle rheolau'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.
- Er mwyn bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i ni gyhoeddi cyfres o dendrau arfaethedig sydd dros £2m a fydd yn cael eu cyhoeddi yn y 18 mis nesaf erbyn diwedd mis Mai 2025. Mae'r Uned Caffael Corfforaethol wedi cysylltu ag adrannau i gael yr holl dendrau sydd dros y gwerth hwn ac sydd ar darged o ran cyhoeddi'r hysbysiadau erbyn y dyddiad cau.
- Bellach mae Rheoliadau'r Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025 ar waith. Mae hon yn drefn newydd, ar wahân sydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer caffael gwasanaethau gofal iechyd gan y GIG a chyrff cyhoeddus cysylltiedig yng Nghymru.
- Rydym yn aros i Lywodraeth Cymru weithredu darpariaethau caffael Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 drwy is-ddeddfwriaeth (gorchmynion cychwyn), ond nid oes dyddiad penodol wedi'i gyhoeddi eto. Diweddarwyd y Rheolau Gweithdrefnau Contractau ym mis Mawrth 2025 i gyd-fynd â'r Ddeddf newydd.
- Cynhaliwyd amrywiaeth o fentrau a digwyddiadau ymgysylltu â chyflenwyr yn 2024/25 i ddarparu ar gyfer ein rhaglen o ymarferion tendro. Un enghraifft o hyn oedd digwyddiad a gynhaliwyd ym Mehefin 2024 ar gyfer Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru gyda chyfanswm gwerth o £800 miliwn.  Mae Caffael, ochr yn ochr â chydweithwyr mewn Dylunio Eiddo, wedi mabwysiadu amrywiaeth o fentrau ymgysylltu â chyflenwyr i ddenu contractwyr lleol i dendro, i hyrwyddo'r gofynion tendro ac i wella'r tendrau a gyflwynir drwy gynnig cymorth. Yn dilyn gweminar 'Bod yn Barod i Dendro' yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cynhaliom Sesiwn Friffio ar gyfer y tendr hwn ym Mharc y Scarlets, Llanelli ym mis Ebrill 2024, pryd daeth 186 o gontractwyr.

## Archwilio Mewnol

- Mae Archwilio Mewnol yn weithgaredd sicrwydd ac ymgynghori annibynnol a gwrthrychol, sydd â'r nod o ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad.
- Mae Archwilio Mewnol wedi ymrwymo i weithio i'r safonau proffesiynol uchaf, ac i ddarparu gwasanaethau o safon sy'n ychwanegu gwerth i'r Awdurdod. Mae Rhaglen Sicrhau a Gwella Ansawdd (QAIP) ar waith, wedi'i chynllunio i gyflawni perfformiad proffesiynol uchel sy'n gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a'r Cod Moeseg.
- Cwblhawyd 85% o'r adolygiadau yng Nghynllun Archwilio 2024/25 erbyn diwedd mis Mawrth 2025, a oedd ychydig yn is na 89% y flwyddyn flaenorol. Roedd yr holl aseiniadau archwilio ar y cynllun wedi cychwyn ac ar waith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Mae Archwilio Mewnol yn adrodd i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, gan ddarparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd. Darperir pob Adroddiad Archwilio Mewnol i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor.

## Gwasanaethau Democrataidd

- Mae'r Gwasanaethau Democrataidd yn rheoli proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cyflwyno sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae rhai o'r prosesau hyn yn gyfreithiol ofynnol, tra bo eraill yn fater o ddewis i'r Cyngor.
- Mae nifer yr Ymholiadau Cynghorwyr wedi cynyddu ychydig i 2,780 ar gyfer 2024/25, gan ymateb i 72.05% ohonynt o fewn 7 diwrnod gwaith. Cafodd 1,208 o geisiadau am wasanaeth eu prosesu gan yr uned drwy'r porth i Aelodau yn hytrach na Chynghorwyr yn uniongyrchol. Mae'r porth yn darparu llwyfan i aelodau gofnodi a monitro ceisiadau ac ymholiadau Gwasanaeth Cynghorwyr.
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i weinyddu trefniadau cydweithio ar gyfer Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru, Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a Phartneriaeth (daeth Partneriaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 a throsglwyddwyd ei swyddogaethau i gytundeb cydweithio ar 1 Ebrill 2025). Mae'r gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am weinyddu Grŵp Llywodraethu Llesiant Delta, Bwrdd Cyfranddalwyr CWM, a'r broses apeliadau o ran Mynediad i Addysg ac Eithriadau.

## Rheoli Risg

- Yn 2024/25, cwblhawyd 94% o'r ymatebion i lythyrau hawlio o fewn chwe diwrnod gwaith i'w cael yn yr Adain Rheoli Risg. Roedd hyn yn cwmpasu rhoi llythyr o gydnabyddiaeth i'r hawlydd neu gynrychiolydd cyfreithiol yr hawlydd a chyfeirio'r hawliad i yswiriwr priodol.
- Yn ystod y flwyddyn buddsoddodd y Grŵp Llywio Rheoli Risg dros £260,000 mewn meysydd i leihau'r perygl o hawliadau neu achosion cyfreithiol drud. Roedd ceisiadau llwyddiannus yn cynnwys hyfforddiant i yrwyr, teledu cylch cyfyng ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol a'r coleg, darparu hyfforddiant ar gyfer rheoli aflonyddu rhywiol yn y gweithle, a ffensys diogelwch yn rhai o'n hysgolion.
- Adroddir y Gofrestr Risg Gorfforaethol i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio bob chwe mis, yn dilyn adolygiad chwarterol ac asesiad beirniadol o'r risgiau gan y Tîm Rheoli Corfforaethol.

## Y Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil

- Mae'r gwasanaethau etholiadol yn seiliedig ar fframwaith cyfreithiol sy'n pennu sut y caiff etholiadau eu cynnal. Mae'n pennu pwy sy'n cael pleidleisio a'r gwahanol ffyrdd y gallant fwrw eu pleidlais i ddweud eu dweud. Mae gan y gwasanaeth Dîm Prosiect Etholiadau cryf sy'n helpu'r prif dîm i ddarparu etholiadau diogel, tryloyw ac agored.
- Mae'r gwasanaeth yn gweinyddu pob math o etholiadau (rhai wedi'u hen drefnu neu rai byr rybudd), a thrwy gyflwyno'r ap Modern Democracy mae'n sicrhau cywirdeb o ran cyfrifon y papurau pleidleisio. Yn ystod 2024/2025, cynhaliwyd un is-etholiad sirol, 15 is-etholiad Cyngor Tref a Chymuned (cafodd pump ohonynt eu galw ond nid eu hymladd), a chafwyd pleidlais Ardal Gwella Busnes.
- Rydym yn parhau i weithio i baru data ein cofnodion â chofnodion y Dreth Gyngor, Budd-daliadau Tai, y Gyflogres ac Addysg i sicrhau bod y Gofrestr Etholiadol yn gyfredol. Ni fydd un o'r ychydig Awdurdodau yng Nghymru a fydd yn cymryd rhan mewn Peilot Cofrestru Awtomatig gyda pharu data yn digwydd yn haf 2025.
- Gan Wasanaeth Cofrestru Sifil y Cyngor y mae'r swyddogaeth statudol o ddarparu gwasanaeth statudol i'r cyhoedd ar gyfer cofrestru genedigaethau, marw-enedigaethau, marwolaethau, a thystysgrifau dilynol; hysbysiadau priodas a phartneriaeth sifil a seremonïau a thystysgrifau dilynol; cynhyrchu dogfennaeth gyfreithiol a chymeradwyo eiddo ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil; ac mae hefyd yn gyfrifol am gynnal seremonïau dinasyddiaeth ar ran Llywodraeth EF.
- Mae'r gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o seremonïau dathlu anstatudol, gan gynnwys seremonïau cysylltiedig â phrofedigaeth fel angladdau a gwasanaethau dathlu bywyd. Mae'r gwasanaeth 'Dywedwch wrthym unwaith' yn cael ei ddarparu ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae galw cynyddol am ddigwyddiadau dathlu fel cadarnhau addunedau priodas.
- Rydym hefyd yn gyffrous am ein menter ar y cyd newydd â Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin i gynnig cyfle i rieni sy'n cofrestru eu babi hefyd gofrestru'r plentyn ar gyfer cerdyn Llyfrgell Sir Gaerfyrddin. Gobeithio y bydd hyn yn annog darllenwyr gydol oes.
- Cynhaliwyd 21 o seremonïau dinasyddiaeth yn ystod 2024/25, pob un wedi'i gwblhau o fewn 60 diwrnod i wahoddiad y Swyddfa Gartref. Roedd y rhain yn cynnwys 90 o oedolion ac wyth o blant, o gymharu â 76 o oedolion a naw o blant yn ystod 2023/24.
- Cofrestrwyd 2,334 o enedigaethau yn ystod 2024/25, sy'n ostyngiad bach ar 2,461 yn ystod 2023/24. Fodd bynnag, bu cynnydd yn y marwolaethau a gofrestrwyd gyda 2,627 yn ystod 2024/25 o gymharu â 2,447 yn 2023/24.
- Gostyngodd nifer y priodasau a'r partneriaethau sifil ymhellach yn ystod 2024/25 i 638 o 706 yn 2023/24 ac 800 yn 2022/23.